The Countryside Access (Amendment) Regulations 1996	Amend the Countryside Access Regulations 1994 which implement in part a zonal programme approved by the European Commission under Article 7 of Council Regulation (EEC) No. 2078/92 on agricultural production methods compatible with the requirements of the protection of the environment and the maintenance of the countryside and make provision to implement Commission Regulation (EC) No 746/96 laying down detailed rules on the application of the Agri-environment Regulation.	This legislation is now redundant.
The Countryside Access (Amendment) Regulations 1999	Amend the Countryside Access Regulations 1994 which implement in part a zonal programme approved by the European Commission under Article 7 of Council Regulation (EEC) No. 2078/92 on agricultural production methods compatible with the requirements of the protection of the environment and the maintenance of the countryside by making provision about the closing date for applications for aid in relation to land	This legislation is now redundant.

	in Wales.	
The Dairy Produce Quotas (General Provisions) Regulations 2002	Contains provisions concerning dairy produce quotas which, for which separate territorial enactments extending to England, Wales, Scotland and Northern Ireland respectively would not be apt.	The EU Milk Quota regime ceased operating in 2015.
The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2004	Amend the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2002.	The EU Milk Quota regime ceased operating in 2015
The Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005	Revoke and replace the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2002 as amended by the Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2004.	The EU Milk Quota regime ceased operating in 2015.
The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2006	Amend the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005.	The EU Milk Quota regime ceased operating in 2015.
The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2007	Amend the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005.	The EU Milk Quota regime ceased operating in 2015.
The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2008	Amend the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005.	The EU Milk Quota regime ceased operating in 2015.

5. Consultation

No consultation has been carried out for the Regulations.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

An RIA has not been conducted because the subordinate legislation imposes no costs or no savings. There is no impact on business, charities or voluntary bodies and there is no impact on the public sector.

SL(5)246 – Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn

Cefndir a Diben

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cael ei ddyroddi o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y "Ddeddf"). Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i Gymru yn unig, a chaiff ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru. Mae'n dod i rym ar 12 Tachwedd 2018. Mae'n berthnasol i bob ci y mae unigolyn yn gyfrifol amdano.

Mae'n disodli'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer Lles Cŵn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2008.

Bu Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cod presennol ac yn ymgynghori arno yn ystod hydref 2017.

Mae Atodiad 1 i'r Cod yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol. Pan ddyfynnir o ddeddfwriaeth a wnaed gan ddefnyddio'r arddull drafftio traddodiadol rhyw benodol (rhagenwau gwrywaidd), mae'n gwneud hynny'n fanwl gywir, ond dim ond ar gyfer cywirdeb llym. Yn yr un modd, nid yw deddfwriaeth a wnaed yn Saesneg yn unig yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg.

Gweithdrefn

Rhodddwyd y pŵer i wneud Codau o'r math yma i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 tra oedd yn un corff, ac ni phennwyd unrhyw weithdrefn. Ar ôl creu Llywodraeth Cymru fel endid cyfreithiol ar wahân o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') trosglwyddwyd y pŵer i Weinidogion Cymru. O dan y darpariaethau trosiannol yn Atodlen 11 i Deddf 2006, daeth codau yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn ag a oedd eisoes yn gymwys i godau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Cynulliad. Os bydd y Cynulliad, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw adeg pan fo'r Cynulliad yn cael ei ddiddymu neu mewn cyfnod o doriad am fwy na 4 diwrnod) ar ôl gosod y drafft yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (ar ffurf drafft) a daw'r cod i rym yn unol â'i ddarpariaethau. Y dyddiad arfaethedig yn yr achos hwn yw 12 Tachwedd 2018.

Craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae cyfraith yr UE yn cynnwys gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, yn enwedig o ran symud anifeiliaid.



Mae'r Cod hwn yn adlewyrchu gofynion y deddfwriaeth honno, a fydd yn gyfraith yr UE a ddargedwir yn rhinwedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Bydd y fframwaith deddfwriaethol hwnnw yn parhau mewn grym nes iddo gael ei ddiwygio. Mae Llywodraeth y DU wedi enwi lles ac iechyd anifeiliaid ac olrhain anifeiliaid yn feysydd lle bydd angen fframwaith polisi cyffredin ar draws y DU pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'n debygol y bydd y Rheoliad yn parhau mewn grym, yn enwedig mewn perthynas â chŵn sy'n cael eu cludo'n rheolaidd rhwng y DU a gweddill yr UE. Mater i'r pedair llywodraeth yn y DU fydd penderfynu sut, ac i ba raddau, y bydd y materion hyn yn parhau'n berthnasol i gŵn na fwriedir iddynt adael y DU. Bydd angen adolygu'r Cod hwn wrth i'r polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol ddatblygu.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Awst 2018





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cod Ymarfer er Lles Cŵn



Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Dyletswydd i Ofalu	2
Adran 1: Yr amgylchedd	3
Adran 2: Deiet	6
Adran 3: Ymddygiad	9
Adran 4: Cwmni	12
Adran 5: Iechyd	13
Atodiad 1: Y Gyfraith	16
Atodiad 2: Ffynonellau Gwybodaeth Defnyddiol	20

Rhagair

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (“y Ddeddf”), os ydych yn berchen ar anifail neu’n gyfrifol am anifail, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd camau rhesymol i sicrhau’ch bod yn diwallu ei anghenion lles. Chi sy’n gyfrifol am anghenion eich anifail, bob amser. Os nad ydych chi’n gallu gofalu am eich ci unrhyw bryd, rhaid ichi drefnu bod rhywun addas yn gallu gofalu amdano yn eich lle. Ond chi sy’n dal i fod yn gyfrifol yn llygad y gyfraith am eich ci, hyd yn oed pan fyddwch chi i ffwrdd. Mae’r person rydych chi wedi gadael eich ci gydag e hefyd yn gyfrifol amdano yn eich absenoldeb.

Nid oes un ffordd ‘berffaith’ o ofalu am gi gan fod pob ci a sefyllfa’n wahanol. Ond mae gan bob ci yr un anghenion sylfaenol. Mae’r cod hwn yn esbonio’r hyn y mae angen i chi ei wneud i gyrraedd y safon gofal sy’n ofynnol o dan y gyfraith. Os ydych yn rhiant neu’n warcheidwad i blentyn o dan 16 oed, chi sy’n gyfrifol am unrhyw anifail sydd yn ei ofal.

Nid yw torri’r cod hwn yn drosedd ynndi’i hun ond, os caiff achos ei ddwyn yn eich erbyn am drosedd o dan y Ddeddf, efallai y bydd y llys yn ystyried i ba raddau rydych wedi dilyn y cod wrth benderfynu a ydych wedi cyflawni trosedd neu wedi rhoi’r gofal gofynnol. Peidiwch ag achosi’ch ci i ddiodef yn ddiangen; gallai hyn fod yn drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf.

Bydd y cod yn cyfeirio at ‘arbenigwyr gofal anifeiliaid anwes’. Pobl yw’r rhain sydd, trwy brofiad neu gymhwyster, yn gallu rhoi cyngor arbenigol ar les ac ar rai agweddau ar iechyd anifeiliaid anwes. Enghreifftiau yw ymddygiadwyr anifeiliaid, nyrsys milfeddygol a sefydliadau lles penodedig. Dylai perchenogion droi at eu milfeddyg (fet) yn y lle cyntaf am gyngor ar iechyd eu hanifeiliaid.

Am ragor o wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a’ch cyfrifoldebau o dan y Ddeddf honno, a deddfau arall sy’n ymwneud â chŵn, gweler Atodiad 1 ar ddiwedd y cod hwn. Am ragor o ffynonellau gwybodaeth, gweler Atodiad 2.

Roedd y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y cod ac yn Atodiad 1 yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi ond cofiwch, gall newid.

Nid yw’r rhagair hwn yn rhan o’r cod ond mae’n esbonio ei ddiben a’i nodau cyffredinol. Nid yw Atodiad 1, sy’n rhoi gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol perthnasol nac Atodiad 2, sy’n rhestru rhai ffynonellau gwybodaeth ychwanegol, chwaith yn rhan o’r cod.

Cafodd y Cod Ymarfer hwn ei ddiweddarau gyda help Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru. Mae Llywodraeth Cymru’n ddiolchgar i’r Rhwydwaith am roi o’u hamser ac am eu hargymhellion doeth.

Cyflwyniad

Mae bod yn berchen ar gi a gofalu amdano yn hwyl ac yn rhywbeth sy'n rhoi llawer o bleser ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr ac yn ymrwymiad hirdymor yn ariannol ac o ran gofal. Chi sy'n rheoli bywyd eich ci; eich cyfrifoldeb chi felly yw sicrhau eich bod yn diwallu ei anghenion, waeth beth yw'r amgylchiadau. Yn ôl Deddf Lles Anifeiliaid 2006, rhaid ichi gymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr:

- Bod gan eich ci le addas i fyw ynddo;
- Bod eich ci'n cael deiet iach;
- Bod eich ci'n cael ymddwyn yn naturiol;
- Bod gan eich ci gwmnïaeth addas;
- Eich bod yn amddiffyn eich ci rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Byddwn yn eu hesbonio'n fanylach yn adrannau 1-5 o'r Cod hwn. Am ragor o gyngor, siaradwch â'ch milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes. Rhestrir ffynonellau gwybodaeth eraill yn Atodiad 2.

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth i chi ddod i adnabod eich ci, byddwch yn sylwi

ar nodweddion cyfarwydd. Mae'n bwysig eich bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau yn ei ymddygiad, gan y gallai'r rhain fod yn arwydd bod eich ci mewn gofid, neu'n dost/sâl, neu nad ydych yn diwallu ei anghenion mewn rhyw ffordd arall.

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"). Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer hwn y tro cyntaf gan Weinidogion Cymru a daeth i rym ar 28 Tachwedd 2008. Daeth y fersiwn ddiweddaraf i rym ar 12 Tachwedd 2018 ac mae'n gymwys i Gymru yn unig. Pwrpas y Cod Ymarfer hwn yw rhoi cyngor ar sut i ddiwallu anghenion eich ci a sicrhau trwy hynny eich bod yn cydymffurfio â Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'n berthnasol i bob ci rydych yn gyfrifol amdano.

Mae'r prif bethau y dylech eu gwybod wedi'u crynhoi yn y llyfryn 'Lles eich Cŵn'.

Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu am eich ci yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn y Cod hwn. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y Cod Ymarfer cyflawn i ddeall yn llwyr anghenion lles eich ci a'r hyn sy'n rhaid ichi ei wneud o dan y gyfraith.

Dyletswydd i Ofalu

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae dyletswydd gyfreithiol ar berchenogion a cheidwaid anifeiliaid i ofalu am yr anifeiliaid y maen nhw'n gyfrifol amdany'n nhw, p'un yw hwnnw'n gyfrifoldeb dros dro neu barhaol. Gall person fod yn gyfrifol am anifail os yw'n gofalu amdano. Mae perchennog ar y llaw arall yn dal i fod yn gyfrifol amdano hyd yn oed os mai rhywun arall sy'n gofalu amdano. Os mai plentyn o dan 16 oed sy'n gofalu am anifail, ei riant neu ei warcheidwad sy'n gyfrifol amdano. Mae hynny'n sicrhau mai oedolyn sydd fel arfer yn cael ei ddal yn gyfrifol am anifail. Os bydd ceidwad parhaol yn gadael anifail yng ngofal rhywun

arall, dyletswydd y ceidwad parhaol yw gwneud yn siŵr bod y ceidwad dros dro yn atebol ac wedi cael caniatâd i weithredu mewn argyfwng.

Mae bod yn gyfrifol am anifail yn cynnwys deall ei hanghenion o ran ei iechyd a'i les a meddu ar y lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i allu gofalu am yr anifail. Rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am anifail gadw hefyd at y ddeddfwriaeth, gwybod am y Codau Ymarfer perthnasol a gwybod pryd a ble i fynd ar ofyn cyngor a help arbenigwr e.e. milfeddyg.

Adran 1: Yr amgylchedd

1.1 Dylai'r amgylchedd sydd ar gael i gi fod yn addas i'w anghenion. Dylai fod digon o le ar ei gyfer neu le y gall fynd iddo i redeg ac i wneud ei fusnes. Dylai fod ganddo o leia un lle y gall deimlo'n ddiogel ynddo a chilio iddo a chael llonydd ynddo os yw'n dewis gwneud hynny. Dylai bob amser allu cael hyd i le y bydd yn gyfforddus ynddo.

Cysgu a gorffwys

1.2 Mae angen y canlynol ar bob ci:

- Ei le cyfforddus ei hunan, gyda rhywbeth glân i orwedd arno, y gall fynd iddo i orffwys a chysgu. Dylai fod mewn lle tawel.
- Gwely mewn lle sych, heb ddrafftiau, sydd wedi'i awyru'n dda.
- Bydd angen golchi a glanhau ei wely yn rheolaidd, neu ei gyfnwid am un newydd.
- Dylai fod ganddo le gorffwys heb bethau fel ymylon miniog a sblinters ynddo allai ei anafu.

1.3 Dylai unrhyw le cysgu y byddwch yn ei roi i'ch ci fod yn ddigon mawr iddo allu ymestyn yn gyfforddus a gorwedd ar ei hyd. Dylai'ch ci allu troi o gwmpas ac ysgwyd ei gynffon heb gyffwrdd yn yr ochrau.

Defnyddio Cewyll/Cratiau

1.4 Os ydych yn defnyddio cawell, neu grât fel y'i gelwir yn aml, dylech wneud hynny mewn ffordd bositif a dylai fod o faint sy'n briodol i'ch ci.

1.5 Peidiwch byth â chadw'r ci yn y crât trwy'r amser na'i ddefnyddio fel ffordd i'w gosbi. Os ydych yn defnyddio'r crât i gaethiwo'ch ci, mae'n bwysig fod y crât mewn lle y mae'r ci yn hapus bod ynddo a'i fod yn teimlo'n sâff a diofid. Peidiwch â'i adael ar ei ben ei hun yn ddigon hir iddo ddechrau teimlo'n ofidus.

1.6 Mae'n bwysig bod y crât o'r maint priodol i'ch ci ac nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mwy nag un ci. Dylai'r crât fod o leiaf yn ddigon mawr i'ch ci allu eistedd a sefyll at ei daldra llawn, troi o gwmpas, ymestyn a gorwedd yn naturiol. Bydd ci'n debygol o dyfu'n rhy fawr i'r grât oedd ganddo pan oedd yn gi bach. Wrth i'ch ci dyfu, mae'n bwysig cael crât newydd iddo o faint addas.

1.7 Rhowch y crât mewn lle tawel, ymhell o bethau all codi ofn ar y ci neu ei boeni. Peidiwch â'i roi wrth ddrafftiau, ffynhonnell gwres nac yn llygad yr haul. Gofalwch fod cylchrediad aer da. Dylai fod ganddo ddŵr yfed glân ffres, gwely a teganau neu bethau eraill i'w gadw rhag diflasu. Gofalwch ei fod yn cael digonedd o gyfle i chwarae â chŵn eraill a phobl, i ymarfer corff ac i wneud ei fusnes.

1.8 Mae llawer o gymdeithasau lles yn cynnig cyngor a gwybodaeth am gratiau i gŵn.

Rhwystro Ci rhag Crwydro

1.9 Mae'n drosedd gadael i'ch ci grwydro. Dylai'r lle rydych yn cadw'ch ci ynddo fod yn gwbl ddiogel, gyda ffin o ansawdd uchel i'w rwystro rhag dianc neu grwydro. Dylai'r ffin fod yn ddigon diogel i rwystro anifeiliaid rhag dod i mewn a chadw ymwelwyr annisgwyl, gan gynnwys lladron, draw. Dylech gadw'r gatiau ar glo.

1.10 Dylai'r math o ffin, a'r deunydd y mae wedi'i wneud ohono, fod yn addas i'ch ci. Ystyriwch faint a thaldra'ch ci a faint y gall neidio, dringo neu balu. Gofalwch nad oes unrhyw ymylon miniog a allai anafu'ch ci ar unrhyw arwyneb. Os ydych yn defnyddio weiar, ystyriwch faint y rhwyll rhag i'ch ci gael ei ddal ynddo a chael anaf.

1.11 Mae ffensys anweledig sy'n rhoi sioc drydan trwy goler wedi'u gwahardd o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010.

Cadw'ch Ci tu Allan

1.12 Os ydych am gadw neu adael eich ci y tu allan, mae nifer o bethau eraill y dylech eu hystyried. Mae'r rheini'n cynnwys:

- Diogelwch (gan gynnwys ei ddiogelu rhag lladron)
- Cysur a chysgod
- Cwmni a chyfle i ymwneud ag eraill
- Ei amddiffyn rhag anaf (gan gynnwys rhag sbwriel a sylweddau peryglus)
- Peidio â bod yn niwsans i gymdogion.

1.13 Yn ei gartref tu allan, dylai fod gan y ci le i gysgu a chwarae. Dylai ei amddiffyn rhag tywydd cas ac eithafol gan gynnwys gwres, oerfel a gwlybaniaeth. Dylai ei le cysgu fod yn ddigon mawr i'ch ci allu gorwedd ynddo'n gyfforddus (yn ei wely ac wrth ei ymyl) a rhowch ddefnydd gorwedd cyfforddus a glân iddo. Defnyddiwch inswleiddiad a rheolydd gwres i gadw'r tymheredd yn y man cysgu rhwng 10°C a 26°C.

1.14 Dylai'r man chwarae fod yn ddigon mawr i'ch ci allu gwneud ei fusnes heb iddo orfod cerdded trwy'r rhan front i ddychwelyd i'r man cysgu. Dylech garthu ei faw a'i ddŵr o leiaf unwaith bob dydd a glanhau a diheintio'r lle chwarae'n rheolaidd ac aml.

1.15 Mae cŵn sy'n cael eu cadw tu allan heb gwmni pobl nac anifeiliaid eraill a heb bethau fel teganau a phethau i'w cnoi i gadw eu meddyliau'n effro, yn gallu dioddef problemau seicolegol difrifol. Gallai hynny arwain at broblemau ymddygiad fel cnoi gormod ac arwyddion o ymosoddedd. Dylech ofalu bod y ci yn cael digon o gwmni'ath, ymarfer corff

a phethau i'w ysgogi i wneud yn siŵr ei fod yn hapus, heb deimladau negyddol fel ofn, gofid neu rwystredigaeth. Ewch i weld eich ci'n rheolaidd, siarad a chwarae ag e' a gwneud yn siŵr ei fod yn iawn. Os ydych yn cadw mwy nag un ci gyda'i gilydd, mae'n rhaid iddyn nhw gyd-dynnu. Gofalwch fod gan bob ci ddigon o le i fod ar ei ben ei hun os dyna'i ddymuniad a bod digon o adnoddau, fel gwely, bwyd a dŵr a phowlenni, fel nad oes angen cystadlu.

1.16 Cofiwch hefyd y gall cŵn sy'n cael eu cadw y tu allan ymateb i olygfeydd a synau nad ydynt fel arfer yn eu gweld na'u clywed yn y tŷ. Gallai'ch ci gyfarth, udo neu lefain am gyfnod hir os nad oes ganddo unrhyw beth i'w wneud, os oes ofn arno neu os oes rhywbeth yn ei boeni. Yn ogystal â bod yn anhapus ac yn fwy tueddol i ddiac, gallai'ch ci fod yn niwsans i'ch cymdogion. Os oes angen cyngor arnoch ar sut i reoli problemau o'r fath, dylech gael gair â'ch milfeddyg neu berson cymwys arall.

Hylendid

1.17 Rhan bwysig o greu amgylchedd addas yw sicrhau ei fod yn ddiogel a glân. Cliriwch ar ôl eich ci gartref a thafwch unrhyw faw yn y bin (neu system addas arall) bob dydd, yn enwedig os ydy'r ci'n byw gyda phlant. Gofalwch fod unrhyw ddiheintydd rydych yn ei ddefnyddio yn ddiogel ar gyfer anifeiliaid anwes. Yn ogystal â chadw ei le'n lân, mae diheintydd yn rhwystro clefydau rhag lledaenu.

Peryglon

1.18 Mae cŵn, a chŵn bach yn enwedig, yn twrio ym mhopeth gan fwyta pethau sy'n beryglus neu'n wenwynig. Dyma enghreifftiau:

- Mae resins, cyrens a siocled yn wenwyn i gŵn. Fe welwch restr lawn ar wefan Cymdeithas Milfeddygon Prydain (dolen yn Atodiad 2). Mae'n bwysig eu cadw o'u gafael bob amser.

- Mae llawer o blanhigion tŷ a gardd yn wenwyn i gŵn (gweler Atodiad 2 am ddolenni i wefannau sy'n rhestru planhigion gwenwynig). Dylech osgoi cadw planhigion gwenwynig neu rhowch nhw lle na all eich ci gael gafael arnyn nhw.
- Cemegau gwenwynig. Gall ci yfed neu fwyta cemegau gwenwynig trwy ddamwain neu am ei fod yn hoffi'r blas. Dylech gadw cemegau o'r fath o afael eich ci a glanhau ar eich ôl ar unwaith os ydych yn eu sarnu. Mae cemegau gwenwynig cyffredin y gall cŵn gael atyn nhw yn cynnwys gwenwyn lladd llygod mawr, gwenwyn lladd malwod a gwrthrewydd.
- Moddion pobl ac anifeiliaid eraill. Mae'n bwysig mai dim ond moddion sydd wedi'i roi iddo gan neu ar gyngor eich milfeddyg sy'n cael ei roi i gi.
- Ffenestri a balconïau agored.

Dylech wastad holi'ch milfeddyg ar unwaith os ydych yn credu bod eich ci wedi bwyta neu wedi dod i gysylltiad â rhywbeth allai fod yn niweidiol.

Teithio

1.19 Mae cŵn yn cael eu cario'n aml mewn cerbydau. Gofalwch nad yw'ch ci'n rhydd pan fydd yn cael ei gario yn y car. Os bydd damwain neu symudiad sydyn ac annisgwyl, gall ci rhydd gael anaf difrifol ac anafu teithwyr eraill. Bydd harnais diogelwch, i'w ddefnyddio'n benodol mewn car, neu gawell ddiogel wedi'i hadeiladu at y diben o faint digonol ac wedi'i hawyru'n dda, yn cadw'ch ci'n llonydd. Fodd bynnag, os ydych yn defnyddio harnais diogelwch neu gawell, dylech sicrhau bob amser nad yw'r ci yn llygad yr haul nac ar bwys y gwresogydd.

1.20 Cynlluniwch unrhyw deithiau hir yn ofalus rhag ichi amharu'n ormodol ar drefn fwydo'ch ci. Rhag iddo fynd yn sâl wrth deithio, peidiwch â'i fwydo'n syth cyn teithio. Dylai gael cyfle rheolaidd i gael dŵr a gwneud ei fusnes.

1.21 Peidiwch byth â gadael eich ci ar ei ben ei hun yn y car, hyd yn oed ar ddiwrnod sy'n ymddangos yn ddiwrnod mwyn. Gall y cerbyd fynd yn dwym/boeth iawn yn gyflym iawn ac achosi strôc gwres neu farwolaeth a gallech gael eich erlyn am greulondeb.

Adran 2: Deiet

2.1 Rhaid bod gan eich ci ddŵr glân ffres mewn powlen lân addas drwy'r amser. Os ydych yn mynd oddi cartref, gofalwch fod dŵr glân ar gael ar gyfer y ci. Ewch â dŵr gyda chi os oes angen. Mae hyn yn hanfodol i bob ci oni bai bod eich milfeddyg yn dweud fel arall. Er nad yw'ch ci efallai'n yfwr trwm fel arfer, bydd angen mwy o ddŵr arno mewn tywydd twym neu os ydych yn ei fwydo â bwyd sych. Dylech gadw golwg ar faint o ddŵr mae'ch ci yn ei yfed. Gall gwahaniaethau fod yn arwydd o salwch.

Deiet Cytbwys

2.2 Mae'n hanfodol rhoi deiet maethlon a chytbwys ym mhob cam o'i fywyd i'ch ci i'w gadw'n iach.

2.3 Mae angen deiet sy'n cynnwys protein, braster, carbohydrad, fitaminau a mwynau arno. Mae'r rhan fwyaf yn cael y deiet hwnnw ar ffurf bwyd masnachol parod. Wrth fwydo bwyd parod, darllenwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chadw atyn nhw.

2.4 Os oes gennych yr wybodaeth arbenigol i greu deiet cytbwys, gallech baratoi bwyd cartref iddo yn lle bwyd parod. Yn wahanol i gathod, mae cŵn yn bwyta pethau heblaw cig, felly mae'n syniad da ychwanegu llysiau at eu bwyd. I allu paratoi bwyd cartref addas, mae angen dealltwriaeth dda a manwl o anghenion maeth eich ci. Os ydych am roi bwyd cartref i'ch ci ond nad oes gennych yr wybodaeth arbenigol, holwch eich milfeddyg neu arbenigwr gofal anifeiliaid anwes.

2.5 Bydd y deiet sydd ei angen ar eich ci'n newid dros ei oes ac ar adegau eraill hefyd e.e. pan fydd yn dost/sâl. Mae'n bwysig bod deiet eich ci yn rhoi'r maeth sydd ei angen arno, o ystyried ei oed, ei iechyd, ei gyflwr magu, cyflwr ei gorff, ei bwysau a lefel ei fywiogrwydd. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes.

2.6 Mae'n bwysig bod eich ci yn cael y deiet cywir a'r cyfrannau cywir o bob cynhwysyn. Os oes gennych fwy nag un ci, mae'n bwysig bod pob un yn cael yn ôl ei angen.

2.7 Rhwch lonydd i'ch ci pan fydd yn bwyta.

Pwysau iach

2.8 Peidiwch â rhoi mwy o fwyd i'ch ci nag sydd ei angen arno. Mae gorfwyta yn arwain at ordewdra. Mae'r cyfarwyddiadau ar becyn eich bwyd cŵn yn ganllaw da neu holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes os nad ydych yn siŵr. Ni all ci tew fod yn gi iach a gordewdra yw'r broblem fwydo fwyaf cyffredin y mae milfeddygon yn ei gweld. Os bydd ci yn bwyta gormod ac os na fydd yn cael digon o ymarfer corff, bydd yn magu pwysau a bydd ansawdd a hyd ei fywyd yn dioddef. Gall arwain at broblemau iechyd megis clefyd y galon a diabetes. Cofiwch os ydych yn defnyddio bwyd i wobrwyo'ch ci wrth ei hyfforddi, gallech roi gormod o fwyd iddo heb feddwl. Bydd angen i chi felly newid faint o fwyd y mae'n ei gael amser bwyd.

2.9 Dylech wybod faint y dylai'ch ci bwysu a cheisio cadw ei gorff yn ei gyflwr mwyaf delfrydol ym mhob cam o'i fywyd. Gall newid yn ei arferion bwyta neu yfed fod yn arwydd nad yw'ch ci'n dda – holwch eich milfeddyg.

Cyflwr y Corff

2.10 Dysgwch beth yw cyflwr corfforol delfrydol eich ci yn ôl ei oed. Mae'r diagram yn dangos sut mae rhoi sgorio cyflwr y corff. Os ydych am wybod mwy, holwch eich milfeddyg.

RHY DENAU



1

Modd gweld asennau, asgwrn cefn, asgwrn y pelfis ac esgyrn eraill yn rhwydd o bell. Dim bloneg i'w weld ar y corff. Diffyg cyhyrau'n amlwg.

2

Modd gweld asennau, asgwrn cefn ac asgwrn y pelfis yn rhwydd. Dim bloneg yn amlwg. Rhai esgyrn eraill yn amlwg. Diffyg rhai cyhyrau.

3

Hawdd teimlo'r esgyrn ac efallai'n hawdd eu gweld. Dim bloneg i'w deimlo arnynt. Brig asgwrn y cefn i'w weld. Asgwrn y pelfis yn amlwg. Croen yn dynn am y wasg a'r bol.



DELFRYDOL



4

Asennau'n hawdd eu teimlo gydag ychydig o orchudd o floneg. Y wasg yn hawdd ei gweld o edrych i lawr arni. Croen yn dynn am y bol.

5

Modd teimlo'r asennau heb ormod o floneg drostynt. Y wasg i'w gweld y tu ôl i'r asennau o edrych i lawr arni. Croen yn dynn am y bol o edrych arno o'r ochr.

RHY DRWM



6

Modd teimlo'r asennau gydag ychydig yn ormod o floneg drostynt. Modd gweld y wasg o edrych i lawr arni ond nid yw'n amlwg. Croen yn dynn am y bol.

7

Modd teimlo'r asennau ag ymdrech; trwch o floneg drostynt. Bloneg amlwg o gwmpas y lwynau a bôn y gynffon. Dim gwasg neu nid yw'n amlwg. Y croen efallai'n dynn o dan y bol.

8

Dim modd teimlo'r asennau o dan drwch o floneg neu dim ond o wasgu'n galed. Trwch o floneg o gwmpas y lwynau a bôn y gynffon. Dim gwasg. Dim croen tynn o dan y bol. Chwydd y bol o bosib yn amlwg.

9

Trwch anferth o floneg ar y thoracs, asgwrn y cefn a bôn y gynffon. Dim gwasg na chroen tynn o dan y bol. Bloneg ar y coesau a'r gwddf. Chwydd amlwg yn y bol.



Trefn fwydo

2.11 Bydd nifer y prydau bwyd y dydd yn dibynnu ar oed y ci a faint o ymarfer corff mae'n ei gael. Fel rheol, mae'n well rhoi dau bryd o fwyd i'ch ci bob dydd oni bai bod eich milfeddyg yn dweud yn wahanol.

2.12 Os ydych yn bwydo'ch ci ddwywaith y dydd, gallwch rannu'r bwyd yn ddwy gyfran gyfartal, neu'n draean a dau draean.

2.13 Os oes gennych fwy nag un ci mae'n bwysig bod pob un yn cael bwyta mewn llonyddwch.

2.14 Gall cynnydd annisgwyl neu golli awydd bwyta fod yn arwyddion o salwch. Holwch eich milfeddyg os bydd y broblem yn para.

Anghenion deietegol eraill

2.15 Mae'n ddigon posibl y bydd angen bwyd a threfn fwydo wahanol ar eist torrog, geist sy'n bwydo cŵn bach, cŵn hen, ifanc neu dost/sâl. Er enghraifft, mae angen bwydo ci bach yn amlach na chi llawndwf iach. Eich milfeddyg yw'r person gorau i'ch cyngori ynghylch beth sydd ei angen ar eich ci o dan yr amgylchiadau hyn.

2.16 Peidiwch â rhoi bwyd i'ch ci awr cyn neu awr ar ôl ymarfer corff caled gan y gall hynny arwain at fol chwyddedig neu broblemau meddygol difrifol posibl eraill.

2.17 Os bydd angen newid deiet eich ci, gwnewch hynny'n raddol, dros gyfnod o ryw wythnos, oni bai bod eich milfeddyg yn dweud wrthyh yn wahanol.

Adran 3: Ymddygiad

3.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar ymddygiad eich ci.

Profiadau cynnar

3.2 Yr amser gorau i gi bach ddysgu am gŵn eraill, pobl ac anifeiliaid yw pan fydd yn ifanc iawn. Cymdeithasoli yw'r gair am hyn. Mae'n bwysig bod cŵn bach yn cael cyfleoedd i gymdeithasoli pan fyddwn nhw rhwng 3 i 14 wythnos oed er mwyn tyfu'n gŵn hapus a normal. Bydd diffyg cyfleoedd i gymdeithasu â chŵn, pobl neu anifeiliaid eraill, neu brofiadau gwael wrth gymdeithasu, yn gallu arwain at broblemau ymddygiad. Mae'r cyfnod pwysig hwn yn cynnwys cyfnod rhoi'r brechiad cynta i'ch ci. Bydd eich milfeddyg yn dweud wrthy ch pryd y bydd hi'n ddiogel i'ch ci bach gymysgu â chŵn ac anifeiliaid eraill.

3.3 Cyflwynwch eich ci bach i amrywiaeth o synau, gwrthrychau a gweithgareddau yn ei fyd ond cofiwch wneud hynny'n ofalus ac mewn ffordd bositif. Ymgynefino yw'r gair am hyn. Os bydd ci bach yn dysgu'n gynnar nad yw'r pethau hyn yn fygythiad, bydd yn fwy tebygol o fod yn hapus yn eu gweld a'u clywed am weddill ei fywyd. Ond mae'n bwysig peidio â llethu na dychryn eich ci bach, a dylech bob amser ofalu bod ffordd iddo ddianc oddi wrth bethau sy'n codi ofn arno. Gall gorfodi'ch ci bach i gymysgu ag eraill arwain at broblemau ymddygiad felly mae'n bwysig gofalu bod pob sefyllfa mor rhwydd a phositif â phosibl fel ei fod am ymchwilio a chymdeithasu.

3.4 Mae angen cyfnodau hir o orffwys ar gi bach i ddatblygu corff a natur iach. Peidiwch â tharfu ar gi sy'n cysgu; gadewch iddo ddiuno yn ei amser ei hunan.

3.5 Holwch eich milfeddyg neu berson cymwys arall ynghylch sut i ofalu am gi bach newydd.

Hyfforddiant

3.6 Mae cŵn yn dysgu gydol eu bywyd ac ym mhob sefyllfa. Mae hyfforddiant ffurfiol yn bwysig, yn enwedig i gi ifanc. Dylech ddechrau'r hyfforddiant gyda thasgau syml fel dysgu'ch ci i adnabod ei enw ac i ddod atoch chi pan fyddwch yn ei alw. Mae'n bwysig bod yn gyson a phositif. Dylech wobrwyo ymddygiad da gyda rhywbeth y mae'ch ci yn ei fwynhau (megis chwarae, bwyd neu faldod). Mae'n bwysig eich bod yn ei wobrwyo ar unwaith.

3.7 Mae'n well hyfforddi'ch ci am gyfnodau byr yn aml. Manteisiwch ar bob cyfle i ganmol eich ci am ymddygiad da. Bydd ci yn llai tebygol o wneud pethau drwg os ydych yn ei anwybyddu pan fydd yn gwneud y pethau drwg.

3.8 Gall dosbarthiadau hyfforddi da ddangos dulliau 'hyfforddi trwy wobrwyo' ichi sy'n dysgu'ch ci i ymddwyn yn dda ac sy'n atal neu'n newid ymddygiad drwg. Gall 'hyfforddi trwy gosbi' wneud i'r ci ddiodef heb eisiau a'i ddrysu. Mae coleri sy'n gallu rhoi sioc drydanol wedi'u gwahardd yng Nghymru. Darllenwch Atodiad 2 – Ffynonellau Gwybodaeth am ragor o wybodaeth am hyfforddi.

Ymarfer corff

3.9 Bydd yr ymarfer corff sydd ei angen ar eich ci yn amrywio yn ôl ei oedran, ei iechyd a'i frîd. Er enghraifft, efallai y bydd yn well gan eich ci fywyd tawelach wrth iddo heneiddio, neu gallai'ch milfeddyg eich cynghori er lles ei iechyd i beidio â mynd â'ch ci am dro mor aml ac ichi ddefnyddio teganau yn lle ymarfer corff i symbylu ei feddwl. Ond oni bai bod eich milfeddyg yn dweud fel arall, bydd angen ymarfer corff rheolaidd ar eich ci, o leiaf unwaith bob dydd, a chyfle i redeg, chwarae, chwilota a thwrio. Bydd hyn yn cadw'ch ci'n ffit ac yn fywiog yn ei gorff a'i feddwl.

3.10 Mae angen ymarfer corff ar gŵn bach a llawer o bethau i ysgogi'r meddwl, ond am gyfnodau bywiog byr yn unig. Ond gall gorweithio ci sy'n tyfu wneud drwg i'w gymalau. Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch yr ymarfer corff sydd ei angen ar eich ci bach, holwch eich milfeddyg am gyngor.

3.11 Nid yw'ch ci bach wedi'i ddiogelu'n llawn rhag clefydau ar ôl ei frechiad cyntaf. Gofynnwch i'ch milfeddyg ddweud wrthyhch pryd y bydd wedi'i ddiogelu'n llawn a than hynny, peidiwch â'i adael allan heblaw i ardd breifat neu le caeedig.

3.12 Rydych yn torri'r gyfraith os ydych yn gadael i'ch ci fod allan o reolaeth mewn ffordd beryglus; yn ogystal â thraffig a da byw, gall cŵn eraill fod yn berygl. Peidiwch â thynnu'r ci oddi ar ei dennyn nes eich bod yn siŵr ei bod yn ddiogel a chyfreithlon ichi wneud hynny. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'ch ci pan na fydd ar ei dennyn i ddod atoch chi pan fyddwch yn ei alw. Hyd yn oed pan na fydd ar ei dennyn, dylai'ch ci fod o dan eich reolaeth.

3.13 Gofalwch nad yw coler/harnais eich ci'n rhy dynn nac yn rhy llac. Gwnewch yn siŵr ei fod yn gyfforddus ac nad yw'n ei boeni nac yn gwneud dolur iddo. Nid yw cadwyni tagu na choleri gwasgu a phrocio yn dderbyniol gan eu bod yn achosi poen a/neu anaf.

3.14 Peidiwch â mynd â'ch ci am dro pan fydd y dydd ar ei fwyaf twym/poeth. Ben bore neu fin nos yw'r adegau gorau i fynd â'ch ci am dro yn ystod cyfnodau o dywydd twym.

Chwarae a Chymysgu

3.15 Mae cŵn yn anifeiliaid cymdeithasol, chwareus a deallus â meddyliau bywiog – mae angen ysgogi eu meddyliau er mwyn eu cadw'n hapus. Mae angen felly iddyn nhw gymysgu a chwarae â phobl a chŵn eraill, cael teganau i chwarae â nhw neu amgylchedd â llawer o gyfleoedd ynddo i chwilota a thwrio. Ond gofalwch peidio â llethu'ch ci. Gallwch roi

cyfran o'i fwyd sych i'ch ci trwy 'fwydw'r pos' (puzzle feeder) sy'n rhyddhau bwyd yn raddol ac sy'n ysgogi meddwl eich ci pan fydd yn y tŷ.

3.16 Mae chwarae â'ch ci gan ddefnyddio teganau diogel ac addas yn ffordd dda o'i ddiddanu. Mae'n bwysig peidio â gadael eich ci ar ei ben ei hun gyda theganau bregus, yn enwedig os yw'n un am gnoi'n frwd. Mae perygl iddo lyncu darnau bach a datblygu problemau treulio difrifol. Cadwch olwg ar ei deganau i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n frwnt neu wedi torri. Drwy newid ei deganau'n aml, ni fydd yn diflasu ar degan unigol.

Adnabod a Deall Ymddygiad

3.17 Mae cŵn ym teimlo amrywiaeth o emosiynau gan gynnwys hapusrwydd, ofn, gofid a dicter. Mae'n bwysig felly'ch bod yn adnabod yr arwyddion y mae ci'n eu defnyddio i ddangos ei deimladau. Gall unrhyw newid yn ei ymddygiad fod yn arwydd ei fod yn anhapus neu'n sâl. Gall arwyddion o stres amrywio o gi i gi, ond gallan nhw gynnwys:

- anadlu'n drwm, glafoerio, llyfu gwefusau;
- methu â bod yn llonydd, a cherdded yn ôl ac ymlaen;
- gwneud ei fusnes yn y tŷ;
- cyfarth (oni bai bod rheswm da o safbwynt y ci);
- mynnu cael sylw trwy'r amser – gan bobl ac anifeiliaid anwes eraill;
- cuddio a swatio;
- gostwng ei glustiau a'i gynffon.

Gall rhai o'r arwyddion hyn fod yn arwyddion o salwch neu boen a dylech gysylltu â'ch milfeddyg os ydych yn poeni.

3.18 Gofalwch fod gan eich ci le diogel i guddio ynddo pan fydd ofn arno.

3.19 Dylech siarad â'ch milfeddyg os nad ydych yn gwybod beth i'w wneud os bydd ymddygiad eich ci'n newid yn sydyn neu os yw'n ymateb yn od neu'n troi'n ofnus neu'n gas yn sydyn.

Gwneud ei fusnes

3.20 Mae angen i gi allu mynd o'i le byw i le addas i wneud ei fusnes, o leiaf unwaith bob ychydig o oriau.

3.21 Mae ei ddysgu i wneud ei fusnes yn rhan hanfodol o'i addysg gynnar. Dangoswch le addas tu allan iddo pan fydd yn fach, a'i wobrwyo am wneud ei fusnes ynddo a dysgith yn gyflym i'w ddefnyddio. Peidiwch â rhoi pryd o dafod i'ch ci na'i gosbi pan fydd yn cael damwain gan y gall hyn ei wneud yn ofnus a chreu problemau nes ymlaen. Gallwch fynd i lawer lle am gyngor ar sut i hyfforddi'ch ci i wneud ei fusnes (gweler Atodiad 2 – Ffynonellau Gwybodaeth). Bydd ambell gi yn piso fel rhan o'i gyfarchiad ichi. Os bydd hyn yn para, siaradwch ag arbenigwr ymddygiad.

3.22 Os nad yw wedi'i eithrio (gweler Atodiad 1), mae dyletswydd gyfreithiol ar geidwad ci, neu'r person sy'n gyfrifol amdano, i glirio ar ôl y ci hwnnw (gan ddefnyddio 'rhaw baw' neu gwodyn plastig) pan fydd mewn lle cyhoeddus. O dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, gall Awdurdod Lleol gyflwyno Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus all fynnu pob math o reolau gan gynnwys rheolau ychwanegol ar berchnogion cŵn. Gofalwch eich bod yn gwybod beth yw'r rheolau yn yr ardal ble rydych chi'n mynd â'ch ci am dro.

Adran 4: Cwmni

4.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ichi ar sut i roi cwmni addas i'ch ci.

Gall pob ci frathu o dan rai amgylchiadau. Peidiwch byth â gadael eich ci felly ar ei ben ei hun gyda phlant ac anifeiliaid eraill.

Ei berthynas â Chŵn, Anifeiliaid Eraill a Phobl

4.2 Dysgwch eich ci sut i ymddwyn yn briodol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol amrywiol trwy ei gyflwyno'n ofalus ac yn bositif i bobl wahanol ac anifeiliaid eraill gan gynnwys, er enghraifft, cŵn cyfeillgar. Mae'n bosib y bydd cŵn sydd wedi cael profiadau negyddol yn ymateb yn ddrwg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Sylwch sut mae'ch ci yn ymateb i bobl anghyfarwydd a chŵn ac anifeiliaid eraill ac ymatebwch chithau yn ôl y gofyn.

4.3 Os ydy'ch ci yn ffein wrth gŵn eraill, dylech roi digonedd o gyfleoedd iddo chwarae â chŵn ffein eraill. Dylai'ch ci gael cyfleoedd rheolaidd i gymysgu â phobl.

4.4 Gofalwch fod pawb sy'n ymwneud â'ch ci yn gwneud hynny mewn ffordd garedig, addfwyn a chyson. Peidiwch â gadael i bobl godi ofn arno na'i boeni.

4.5 Dylai oedolion a phlant sydd ddim yn gyfarwydd â chŵn ddysgu na ddylech byth fynd at gi sy'n gorffwys, cysgu, bwyta, chwarae â hoff degan neu sy'n dost/sâl. Ddylech chi ddim gorfodi ci i chwarae na'i gario o gwmpas. Dylech ofalu bod gan eich ci le tawel y gall fynd iddo i orffwys neu guddio heb gael ei aflonyddu.

Oddi Cartref

4.6 Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yna rywun ar gael i ofalu am eich ci pan fyddwch chi oddi cartref ac yn methu mynd â'ch ci gyda chi. Gallai'r rhywun hwnnw aros yn eich cartref

a gofalu am eich ci yno, gallwch fynd â'ch ci i lety cŵn neu fynd â'ch ci i aros gyda ffrind neu berthynas sy'n gwybod sut i ofalu amdano. Pan fydd rhywun arall yn gofalu am eich ci, hwnnw sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am ei les ac mae angen sicrhau ei fod yn deall ei anghenion ac unrhyw ofynion arbennig sydd ganddo.

4.7 Mae cŵn yn anifeiliaid cymdeithasol ac yn mwynhau cwmni pobl. Mae'r amser y gallwch adael ci ar ei ben ei hun yn amrywio yn ôl ei oed, ei brofiadau, sefyllfa ei gartref ac ati. Mae ambell gi yn diflasu ar ei ben ei hun a bydd cŵn eraill nad ydyn nhw wedi cael eu dysgu sut i ymdopi ar eu pen eu hunain neu sydd wedi cael profiad cas yn mynd i boeni, hyd yn oed os ydyn nhw ond yn cael eu gadael am gyfnod byr. Mae llawer o gymdeithasau lles anifeiliaid yn argymhell na ddylech adael eich ci am fwy na phedair awr.

Nifer y cŵn

4.8 Dylai'r perchennog ystyried anghenion pob ci unigol, faint o le sydd ganddo a beth fydd effaith y ci ar ei amser ac ar ei arian. Mae'n bwysig hefyd ystyried a fydd y ci yn debygol o dderbyn cŵn ac anifeiliaid eraill ar ei diriogaeth. Gall eich milfeddyg neu'r arbenigwr gofal anifeiliaid anwes eich cyngori.

4.9 Os ydych am gadw nifer o gŵn gyda'i gilydd, gofalwch fod digon o le iddyn nhw allu osgoi ei gilydd os oes angen a bod gennych ddigon o fowlenni, teganau, gwelyau ac ati ar gyfer pob ci rhag iddyn nhw gystadlu â'i gilydd neu warchod eu pethau.

4.10 Mae gan rai Awdurdodau Lleol reolau ynghylch faint o gŵn y caiff un person eu cerdded ar y tro. Dylai perchennogion holi'r Awdurdod Lleol i wneud yn siŵr eu bod yn cadw at y rheolau.

Adran 5: Iechyd

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi cyngor ar iechyd eich ci.

Gofal iechyd

5.2 Mae iechyd da yn hanfodol i les eich ci. Milfeddygfa eich ci yw'r lle gorau i'ch cynghori ar sut i ofalu am iechyd eich ci, fel ei niwtro, ei frechu a rheoli ei baraseitiaid mewnol ac allanol, yn ogystal ag unrhyw broblemau iechyd allai fod ganddo. Dylech holi beth yw trefniadau'ch milfeddygfa wedi iddi gau.

5.3 Gall gofalu am iechyd a lles eich ci fod yn fater drud iawn a dylech ystyried sut y byddwch chi am ysgwyddo'r costau. Efallai y byddwch am brynu yswiriant oddi wrth un o'r cwmnïau niferus sy'n ei werthu.

5.4 Gan mai chi sy'n gyfrifol am iechyd eich ci, rhaid ichi ystyried y canlynol:

- Atal clefydau. Mae llawer o frechlynnau ar gael sy'n diogelu cŵn rhag clefydau pwysig, rhai ohonyn nhw'n angheuol.
- Atal paraseitiaid. Rhaid trin eich ci'n rheolaidd rhag llyngyr, chwain a throgod. Mae'n arbennig o bwysig gwneud yn siŵr fod y driniaeth ar gyfer cŵn sy'n byw yng nghefn gwlad neu sy'n ymweld â chefn gwlad yn rheolaidd yn delio â llyngyr rhuban. Mae chwain a phroblemau croen heb eu trin yn gallu achosi dioddefaint mawr. Mae llawer o gynnyrch trin chwain a llyngyr ar gael a gall eich milfeddyg ddweud pa rai sydd fwyaf addas i'ch ci chi.
- Rhoi deiet cytbwys ac iach (gweler adran 2).
- Rhoi'r amgylchedd iawn sy'n ddiogel rhag anaf ac afiechyd (gweler adran 1).
- Ymateb yn gyflym os bydd eich ci'n dost/sâl, wedi cael anaf neu'n dechrau ymddwyn yn rhyfedd.
- Cadw ei ddannedd mewn cyflwr da.
- Mae'n bwysig dilyn y mesurau iechyd angenrheidiol os ydych am fynd â'ch ci dramor. Mae yna glfydau y gwelwch dramor nad ydyn nhw'n bod ym Mhrydain. Cewch gyngor defnyddiol ar hyn yn "Ffynonellau Gwybodaeth Defnyddiol" yn Atodiad 2.

Salwch

5.5 Mae'n bwysig adnabod yr arwyddion bod eich ci'n dost/sâl a'ch bod yn cysylltu â'ch milfeddyg yn syth pan fyddwch yn eu gweld. Gall arwyddion o salwch gynnwys:

- cyfogi a dolur rhydd;
- rhwymedd neu drafferth i wneud dŵr;
- magu neu golli pwysau mawr yn sydyn;
- colli archwaeth;
- yfed mwy neu lai nag arfer;
- dim egni;
- chwyddiadau anarferol;
- salwch croen e.e. colli blew;
- cloffni;
- peswch;
- diffyg anadl;
- gwaedu anarferol;
- llid o'r llygaid neu o'r clustiau;
- arwyddion o boen – sensitifrwydd i gyffyrddiad.

Nid yw'r rhestr hon yn un llawn ond os gwelwch newid yn ymddygiad eich ci, ystyriwch y posibilrwydd y gallai fod yn sâl. Os ydych yn credu bod rhywbeth yn bod ar eich ci, holwch eich milfeddyg. Gallai peidio â mynd at y milfeddyg yn brydlon arwain at ddiodefaint diangen ac mae hynny'n drosedd.

Cael ci

5.6 Mae cŵn yn amrywio'n aruthrol o ran eu cyrff e.e. siâp, maint, blewyn ac ati ac o ran nodweddion eraill hefyd e.e. ymddygiad a natur. Ymchwiliwch i'r mathau o gŵn sydd ar gael a dewiswch yr un sy'n cyfateb orau i'ch amgylchiadau chi. Mae llawer o ffynonellau cyngor da ar gael gan gynnwys y rheini yn yr adran 'Ffynonellau Gwybodaeth' ar ddiwedd y cod hwn.

5.7 Mae llawer o gŵn bach a llawndwf yn cael eu hysbysebu ar hysbysebion ar-lein. Mae'n bwysig iawn eich bod yn ymchwilio'n drylwyr cyn prynu ci sy'n cael ei hysbysebu. Mae gan y Grŵp Cyngori ar Hysbysebu Anifeiliaid Anwes set o Safonau Gofynnol y dylai pob hysbyseb eu bodloni a dylai hynny fod yn fan cychwyn i'ch ymchwil. Gall y cymdeithasau lles a restrir yn y "Ffynonellau Gwybodaeth Ddefnyddiol" yn Atodiad 2 y cod roi cyngor ichi cyn prynu ci.

5.8 Mae llawer o ffactorau gan gynnwys yr amgylchiadau y cafodd eich ci eu magu ynddyn nhw neu ei gadw ynddyn nhw wedi hynny, yn dylanwadu ar ei iechyd a'i les yn y dyfodol. Nid yw pob ci'n cael ei fagu mewn ffordd sy'n rhoi'r sylw priodol i'w iechyd neu les corfforol ac ymddygiadol. Mae'n well cael cyngor gan eich milfeddyg neu fudiad perthnasol (gweler Atodiad 2) ynghylch ble i gael ci.

5.9 Dylech chwilio gymaint ag y medrwyd a yw rhieni'r ci wedi cael eu sgrinio rhag cyflyrau etifeddol sy'n gyffredin yn eu brîd (e.e. dysplasia'r glun neu cyflyrau etifeddol ar y llygaid), a gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cwrdd â'i anghenion. Mae'n debygol y bydd

angen gofal arbennig ar gi sydd â chyflyrau wedi'u hetifeddu ac efallai y bydd angen triniaeth gostus arno.

5.10 Os ydych chi'n prynu ci bach, dylech bob amser ofyn am gael gweld y fam a'i frodryd a'i chwirydd a hynny i weld sut maen nhw'n ymddwyn â'i gilydd. Byddai'n dda hefyd cael gweld y tad. Mae hyn yn bwysig am nifer o resymau: gall roi syniad ichi beth fydd natur a maint y ci wedi iddo dyfu. Cofiwch, ni fydd hyn yn debygol o fod yn bosib mewn llochesi cŵn ac ati.

5.11 Os ydych yn dewis cael ci bach, ffordd dda o wneud yn siŵr bod yr ystyriaethau pwysig wedi'u bodloni yw trwy 'Contract Ci Bach'. Cewch weld enghreifftiau gan gymdeithasau lles yn y "Ffynonellau Gwybodaeth Ddefnyddiol" yn Atodiad 2 y cod.

5.12 Rhaid i gŵn bach sy'n cael eu geni ar safle bridwr trwyddedig aros ar y safle hwnnw tan eu bod o leiaf 56 niwrnod (wyth wythnos) oed. Rhaid rhoi microsglodyn arnyn nhw erbyn eu bod yn wyth wythnos oed o dan Reoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 (gweler Atodiad 1). Y bridwr ddylai fod y ceidwad cofrestredig cyntaf a dylech gofrestru'ch hun fel y perchennog newydd ar ôl ichi brynu'r ci bach. Gofalwch hefyd fod eich manylion yn cael eu cadw'n gyfoes os byddwch yn newid eich rhif ffôn neu'ch cyfeiriad ac ati.

5.13 Ewch â'ch ci newydd at filfeddyg am gyngor cyffredinol ar ofalu am ei iechyd o fewn ychydig ddiwrnodau ar ôl ichi ddod ag e' gartref. Dilynwch gyngor eich milfeddyg ynghylch gofalu'n ddi-dor am ei iechyd ar hyd ei fywyd.

Cribo a golchi

5.14 Bydd angen mwy o sylw ar flew ambell gi a bydd angen ei gribo pob dydd rhag iddo fynd yn blethau a chlymau. Fodd bynnag, mae angen cribo blew pob ci yn rheolaidd a'i olchi o bryd i'w gilydd i gadw ei groen a'i flew mewn cyflwr da. Bydd angen brws a chrib sy'n addas i'r math o flew sydd ar eich ci. Holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes os nad ydych yn siŵr ynghylch cribo'ch ci.

Bridio a Niwtro

5.15 Dylech ystyried niwtro'ch ci. Yn ogystal ag osgoi holl broblemau cael cŵn bach diangen, mae yna fanteision eraill hefyd. Manteision fel osgoi heintiau a chanserau ar y rhannau fydd yn cael eu tynnu e.e. heintiau'r groth a chanser yr ofarïau mewn geist a chanser y ceilliau mewn cŵn gwryw. Gallai fod yna fanteision o ran ymddygiad eich ci hefyd. Ond mae yna risgiau, a rhaid eu hystyried hwythau hefyd. Risgiau fel yr heintiau all ddigwydd wrth roi llawdriniaeth ac mae perygl y gall y ci fynd yn dew, cael trafferth rheoli ei ddŵr a datblygu rhai mathau o ganser. Bydd y cydbwysedd rhwng manteision a niweidiau posib yn amrywio o gi i gi a dylech holi'ch milfeddyg. Rhestrir ffynonellau cyngor eraill yn Atodiad 2.

5.16 Nid ar chwarae bach y mae penderfynu un ai i fagu o gi/gast neu i'w niwtro. Rhaid ystyried iechyd a lles yr anifail unigol. Cyn bridio, dylech ystyried iechyd y rhieni, unrhyw broblemau etifeddol, sut y byddech chi'n sicrhau bod y cŵn bach yn cael cymdeithasoli ac ymgynefino a sut y byddwch yn cael hyd i gartrefi addas iddyn nhw. Os ydych chi am fridio, rhaid meddwl hefyd am iechyd a lles y cŵn bach. Mae'r penderfyniad i fridio yn ymrwymiad aruthrol ac ni ddylech fentro heb feddwl yn galed iawn. Dylech wneud popeth yn eich gallu i osgoi unrhyw fridio 'anfwriadol'.

5.17 Fel perchennog ci, dylech feddwl yn galed a chael yr holl ffeithiau cyn penderfynu p'un ai i fridio neu i niwtro'ch ci. Wedi'r cyfan, yn ogystal â bod yn gyfrifol am y penderfyniad ei hunan, bydd rhaid ichi hefyd ddelio â'r canlyniadau.

Y Dannedd

5.18 Dylech gadw golwg ar ddannedd eich ci yr un pryd â'i gribo. Argymhellir past a brwshys dannedd arbennig i gŵn at ddefnydd dyddiol ac maent ar gael yn gyffredinol gan filfeddygon a siopau anifeiliaid anwes. Gallech hefyd brynu deunyddiau cnoi arbennig a theganau i gadw dannedd a gymiau'ch ci yn iach.

Tagio

5.19 Mewn manau cyhoeddus, rhaid i'ch ci wisgo coler a thag enw, oni bai ei fod wedi cael ei eithrio o dan Orchymyn Rheoli Cŵn 1992. Mae sawl math gwahanol o goler a harnais ar gael ac mae'n bwysig eich bod yn dewis coler sy'n ffitio'ch ci yn gywir. O dan y gyfraith (Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992) mae'n rhaid i'r coler gynnwys tag gyda'ch enw a'ch cyfeiriad arno ac, os oes modd, rhif ffôn cyswllt.

5.20 Bydd angen rhoi microsglodyn ar eich ci wedi iddo gyrraedd ei wyth wythnos oed oni bai ei fod wedi'i eithrio o dan Reoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015. Rhaid ichi gofrestru'ch manylion ar gronfa ddata gymeradwy a rhaid ichi roi gwybod iddi pan fyddwch chi'n symud neu os yw'ch ci yn symud i gartref arall. Bydd sganio'r microsglodyn ar gi sydd ar goll neu wedi'i ddwyn yn helpu i'w gael yn ôl i'w berchennog. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ficrosglodion, holwch eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes.

Beth i'w wneud os bydd eich ci yn mynd ar goll

5.21 Os ydy'ch ci ar goll, cysylltwch â'r gronfa ddata sydd wedi cofrestru'r microsglodyn. Dylech hefyd gysylltu â warden cŵn eich cyngor lleol. Byddai'n syniad da hefyd holi milfeddygfeydd, ysbytai anifeiliaid a chanolfannau ailgartrefu lleol, rhoi cofnod ar wefannau 'anifeiliaid ar goll' a rhoi poster i fyny. Cofiwch, mae ci sy ar goll yn gallu crwydro'n bell.

Atodiad 1: Y Gyfraith

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae'r cod yn cyfeirio at yr adrannau canlynol o'r Ddeddf ac rydym yn eu nodi yma i'ch helpu. Mae adrannau perthnasol y Ddeddf yn cael eu dyfynnu isod yn y Saesneg gwreiddiol). Mae'r blwch llwyd yn crynhoi'r troseddau a'r cosbau perthnasol yn y Ddeddf.

3 Responsibility for animals

- (1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.
- (2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.
- (3) For the purposes of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.
- (4) For the purposes of this Act, a person shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

4 Unnecessary suffering

- (1) A person commits an offence if—
 - (a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,
 - (b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so,
 - (c) the animal is a protected animal, and
 - (d) the suffering is unnecessary.
- (2) A person commits an offence if—
 - (a) he is responsible for an animal,
 - (b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,
 - (c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and
 - (d) the suffering is unnecessary.
- (3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include—
 - (a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced;
 - (b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment;
 - (c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as—
 - (i) the purpose of benefiting the animal, or
 - (ii) the purpose of protecting a person, property or another animal;
 - (d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned;
 - (e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.
- (4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

9 Duty of person responsible for animal to ensure welfare

- (1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.
- (2) For the purposes of this Act, an animal's needs shall be taken to include—
 - (a) its need for a suitable environment,
 - (b) its need for a suitable diet,
 - (c) its need to be able to exhibit normal behaviour patterns,
 - (d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and
 - (e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.
- (3) The circumstances to which it is relevant to have regard when applying subsection (1) include, in particular—
 - (a) any lawful purpose for which the animal is kept, and
 - (b) any lawful activity undertaken in relation to the animal.
- (4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

14 Codes of practice

- (1) The appropriate national authority may issue, and may from time to time revise, codes of practice for the purpose of providing practical guidance in respect of any provision made by or under this Act.
- (2) The authority responsible for issuing a code of practice under subsection (1) shall publish the code, and any revision of it, in such manner as it considers appropriate.

- (3) A person's failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind.
- (4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13—
 - (a) failure to comply with a relevant provision of a code of practice issued under this section may be relied upon as tending to establish liability,
 - and
 - (b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be relied upon as tending to negative liability.

Troseddau a Chosbau

Gellir rhoi hyd at 51 wythnos o garchar a/neu ddirwy i rywun sy'n euog o drosedd o dan adran 4 o'r Ddeddf. Os bydd yn euog o drosedd o dan adran 9 (peidio â gofalu am les yr anifail) gellir rhoi'r un faint o garchar iddo a dirwy o hyd at lefel 5 o'r raddfa safonol.

Gellir dwyn achos hyd at 3 blynedd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni. Y cyngor lleol fydd yn dwyn yr achos o dan y Ddeddf, yn y Llys Ynadon.

Deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar gŵn

Yn ogystal â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 mae nifer o gyfreithiau eraill yn effeithio ar y ffordd rydych yn cadw'ch ci. Ceir crynodeb isod o'r rhai sydd fwyaf tebygol o effeithio ar geidwad ci anwes.

Bridio a Phrynu

Yn ôl Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, rhaid i unrhyw un sy'n berchen ar dair gast fagu neu fwy ac sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf a restrir yn y Ddeddf, gael trwydded. Nod y Rheoliadau yw rheoli 'ffermydd cŵn bach' sy'n cadw cŵn o dan amodau gwael. Os ydych yn credu bod yr unigolyn rydych yn prynu ci bach oddi wrtho yn magu cŵn ar raddfa fawr ac nid fel hobi yn unig, gofynnwch am gael gweld ei drwydded neu gofynnwch i'r cyngor a oes un ganddo. Os bydd ci'n cael ei werthu'n fasnachol, fel mewn siop anifeiliaid anwes, rhaid bod gan y gwerthwr drwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Rheoli'ch ci

Mae'n ofynnol o dan Reoliadau Microsglodynnau Cŵn (Cymru) 2015 i roi microsglodyn ar bob ci dros 8 wythnos oed a chofrestru manylion y perchennog ar gronfa ddata gymeradwy. Mae'n ofyn hefyd o dan y Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992 i roi coler ar gi gydag enw a chyfeiriad y perchennog arno. Mae dau ddarn arall o ddeddfwriaeth, Deddf Cŵn 1871 a Deddf Cŵn Peryglus 1991, yn ei gwneud yn ofynnol i chi gadw'ch ci o dan reolaeth briodol. Mae'r cosbau ar bobl sydd heb reolaeth ar eu ci yn cynnwys dirwy, carchar ac o bosib difa'r ci. Yn ôl y Ddeddf Cŵn Peryglus mae'n anghyfreithlon cadw, gwerthu na rhoi pedwar brid o gi y ceir traddodiad o'u magu i ymladd: Daeargi Pit Bull, Tosa Siapanaid, Dogo Argentino a Fila Brasileiro.

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 yn rhoi'r pwerau i awdurdodau daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys achosion sy'n gysylltiedig â chŵn peryglus neu gŵn niwsans, mewn ffordd hyblyg ac ymatebol. Mae'n diwygio hefyd Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 er mwyn ei gwneud yn drosedd bod â chi sydd allan o reolaeth a pheryglus unrhyw le, gan gynnwys ar eiddo preifat lle mae gan y ci hawl i fod.

Mae'r Ddeddf yn gwneud ymosodiad ar gi cymorth yn drosedd waethygedig.

Bellach mae gan awdurdodau lleol hefyd y pŵer o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i gyflwyno Gorchymyn Rheoli Cŵn. Gellir rhoi Gorchymyn i gadw cŵn ar dennyn neu eu gwahardd o fan benodol neu i'r sawl sy'n gyfrifol am gi i godi ei faw a gall swyddog awdurdod orchymyn cadw ci ar dennyn a gall y Cyngor roi terfyn ar nifer y cŵn y caiff rhywun fynd â nhw am dro ar y tro. Pan fydd Gorchymyn mewn grym dylai fod arwyddion clir felly dylech gadw'ch llygad ar agor amdanynt. Hefyd, yn Neddf 2005, mae'r cyfrifoldeb am gŵn strae yn cael ei drosglwyddo o'r heddlu i'r cyngor lleol. Caiff cyngor roi dirwy i berchennog unrhyw gi strae sy'n cael ei ddal a gall godi ar y perchennog am gostau ei gadw. Gellir anfon ci strae sydd heb dag neu sydd heb ei hawlio o fewn saith niwrnod at asiantaeth ailgartrefu neu ei ddifa.

O dan Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 mae perchennog ci yn cyflawni trosedd os yw ei gi yn poeni (yn erlid neu'n ymosod ar) da byw ar dir amaethyddol. Mewn cae lle mae defaid, rhaid cadw ci ar dennyn, neu o dan reolaeth gaeth o fath arall.

Mae Deddf Anifeiliaid 1971 yn nodi pwy sy'n atebol (er bod amddiffyniad) am y niwed a wneir gan gi i dda byw neu fathau eraill o niwed a wneir gan gi direolaeth o dan rai amgylchiadau.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010 yn ei gwneud hi'n drosedd rhoi dyfais sy'n gallu rhoi sioc drydan ar gi neu gath. Mae dyfais yn golygu coleri atal cyfarth, coleri hyfforddi o bell a ffensys 'anweledig' sy'n rhoi sioc trwy'r goler.

Mae Deddf Cŵn Gwarchod 1975 yn gosod gofynion penodol ar y rhai sy'n gyfrifol am gŵn gwarchod gan gynnwys yr angen i'w cadw o dan reolaeth neu wedi'u clymu drwy'r amser ac i roi arwyddion rhybuddio i fyny wrth bob mynedfa i'r safle a warchodir.

Lletya'ch ci pan fyddwch oddi cartref

Os ydych oddi cartref a bod angen rhoi'r ci mewn llety cŵn, gofalwch fod y llety wedi'i drwyddedu gan yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963. Mae'r Ddeddf yn gymwys hefyd i bobl sy'n cadw cŵn yn eu cartref am dâl (y cyfeirir atyn nhw fel arfer fel 'llety cartref').

Mynd â'ch ci dramor

Mae yna reolau statudol y mae'n rhaid cadw atyn nhw wrth fynd â'ch ci o wlad i wlad:

- Yn Ewrop, rhaid cadw at amodau'r Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes;
- Dylai perchenogion ddysgu beth yw gofynion y cynllun a rhoi digon o amser iddyn nhw wneud yn siŵr eu bod nhw a'u ci yn cadw at y gofynion;
- Mae cosbau trwm am beidio â chydymffurfio;
- Cewch help a chynghor ar-lein yn www.gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/importsexports/pettravelscheme/?skip=1&lang=cy.

O dan Erthygl 4 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 mae'n drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw.

Tocio cynffonnau

Mae tocio cynffonnau cŵn wedi'i wahardd yng Nghymru ers 27 Mawrth 2007 o dan Reoliadau Tocio Cynffonnau Cŵn Gwaith (Cymru) 2007. Caiff mathau penodol o gi gwaith eu heithrio o'r gwaharddiad ac mae'r eithriadau'n caniatáu i filfeddyg docio cynffon ci pan fydd y ci'n 5 niwrnod oed neu lai. Bydd y milfeddyg yn rhoi tystysgrif i brofi bod cynffon y ci wedi'i thocio'n gyfreithlon. Y mathau o gŵn y cewch docio eu cynffonnau (ar ôl rhoi tystiolaeth y caiff ei ddefnyddio fel ci gwaith) yw:

- Tarfgwn: English Springer Spaniel, Tarfgi Cymreig a Cocker Spaniel.
- Daeargwn: Jack Russell Terrier, Cairn Terrier, Lakeland Terrier a Norfolk Terrier.
- Cŵn Hela, Marcio, Adar: Braque yr Eidal; Tarfgi Llydaw; Pointer Blewyn Hir yr Almaen; Pointer Blewyn Cras yr Almaen; Vizsla; Vizsla Blewyn Cras; Spinone; Ci Dŵr Sbaen; Weimaraner; Korthals Griffon; Pointer Blewyn Garw Slofacia; Munsterlander Mawr; Munsterlander Bach.

Gosod microsglodion mewn cŵn

Daeth Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 i rym ar 6 Ebrill 2016, gan ei gwneud yn orfodol gosod microsglodyn ar gŵn yng Nghymru.

Deddf Milfeddygon Llawfeddygol 1966

Mae Deddf Milfeddygon Llawfeddygol 1966 yn fodd i reoleiddio'r proffesiwn milfeddygon at ddiben diogelu iechyd a lles anifeiliaid a diogelu iechyd pobl.

Atodiad 2: Ffynonellau Gwybodaeth Defnyddiol

Association of Dogs and Cats Homes: www.adch.org.uk

Cymdeithas Cwnselwyr Ymddygiad Anifeiliaid Anwes: www.apbc.org.uk

Battersea Dogs and Cats Home: www.battersea.org.uk

Y Groes Las: www.bluecross.org.uk

Cymdeithas Milfeddygon Anifeiliaid Bach Prydain: www.bsava.com

Cymdeithas Milfeddygon Prydain: www.bva.co.uk

Dogs Trust: www.dogstrust.org.uk

PDSA: www.pdsa.org.uk

Petlog: www.petlog.co.uk

Pet Care Trust: www.petcare.org.uk

Cyngor Iechyd Anifeiliaid Anwes: www.pethealthcouncil.co.uk

Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes: www.pfma.org.uk

RSPCA Cymru: www.rspca.cymru

The Kennel Club: www.thekennelclub.org.uk

Coleg Brenhinol y Milfeddygon: www.rcvs.org.uk

Gwefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a lles anifeiliaid wrth eu cludo ac i lawrlwytho copi o'r Cod Ymarfer ar Les Cŵn: www.llyw.cymru/llesanifeiliaid

Gwybodaeth am anifeiliaid anwes a gwenwyn: www.animalwelfarefoundation.org.uk/wp-content/uploads/2017/06/Pets-and-Poisons-1.pdf

Explanatory Memorandum to the Code of Practice for the Welfare of Dogs

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Animal Welfare and By-Products Branch, Office of the Chief Veterinary Officer and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Cabinet Secretary/Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Code of Practice for the Welfare of Dogs.

Lesley Griffiths AM, Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

20 July 2018

1. Description

Under the Animal Welfare Act 2006 (“the Act”), if someone is responsible for an animal they have a legal duty to take reasonable steps to ensure its welfare needs are met. The Code explains what needs to be done to meet the standard of care the law requires.

Breach of a provision of the Code is not an offence in itself but, if proceedings are brought against someone for a welfare offence under the Act, the Court may take into account the extent to which they have complied with the Code in deciding whether they have committed an offence or have met the required standard of care. Unnecessary suffering to any animal could constitute a serious offence under the Act.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

The Code is being laid under the ‘Negative Procedure’.

The Technical Standards Directive – The Directive places an obligation on Member States to notify the Commission of draft regulations that fall within the scope of the Directive. This new Code updates current standards and Regulations but does not differ substantially from the current Code. Although a breach of the Code does not amount to a criminal offence any proceedings under the Welfare Act 2006 may take into account any compliance with the Code. The current Code was not notified to the Commission and therefore this Code will also not be notified.

3. Legislative background

This Code of Practice is issued under section 14 of the Animal Welfare Act 2006 (the “Act”). This Code applies in Wales only, is issued by the Welsh Ministers and comes into force on 12 November 2018. It applies to all dogs for which a person is responsible.

4. Purpose & intended effect of the legislation

The existing Code of Practice for the Welfare of Dogs reflected the science and legislation in force at that time and was made under the Animal Welfare Act 2006. A review was required to capture any changes in these areas and to ensure the standards being advised are still appropriate.

By not reviewing and amending the Code regularly to reflect any changes made to legislation and recognised minimum best practice standards, animals could be put at risk of harm.

The purpose of the Code is to ensure that those who are responsible for an animal are aware they have a legal duty to take reasonable steps to ensure its welfare needs are met. The Code of Practice explains what you need to do to meet the standard of care the law requires.

5. Consultation

Welsh Government officials worked with Animal Welfare Network Wales, an umbrella body representing animal welfare organisations in Wales, to review and update the Code for consultation.

A twelve week public consultation took place between 16 October 2017 and 8 January 2018. The consultation was published on the Welsh Government website with a press release alerting the general public to the launch. Known stakeholders i.e. enforcement agencies and special interest groups, were also contacted individually by email or post.

A Summary of the Responses to the Consultation can be found at the attached link <https://beta.gov.wales/code-practice-welfare-dogs>

Comments and suggested amendments were taken in to account when updating the Code and a number of additions were made as a direct result of the consultation.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

There are no costs associated with the making of the Code and an RIA is not required at this time.

Eitem 4.2

SL(5)247 – Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ceffylau

Cefndir a Diben

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cael ei ddyroddi o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y "Ddeddf"). Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i Gymru yn unig, a chaiff ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru. Mae'n dod i rym ar 12 Tachwedd 2018. Mae'n berthnasol i bob ceffyl y mae unigolyn yn gyfrifol amdano.

Mae'n disodli'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer Lles Ceffylau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2008.

Bu Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cod presennol ac yn ymgynghori arno yn ystod haf 2017.

Mae Atodiad 2 i'r Cod yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol. Pan ddyfynnir o ddeddfwriaeth a wnaed gan ddefnyddio'r arddull drafftio traddodiadol rhyw benodol (rhagenwau gwrywaidd), mae'n gwneud hynny'n fanwl gywir, ond dim ond ar gyfer cywirdeb llym. Yn yr un modd, nid yw deddfwriaeth a wnaed yn Saesneg yn unig yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg.

Gweithdrefn

Rhodddwyd y pŵer i wneud Codau o'r math yma i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 tra oedd yn un corff, ac ni phenwyd unrhyw weithdrefn. Ar ôl creu Llywodraeth Cymru fel endid cyfreithiol ar wahân o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') trosglwyddwyd y pŵer i Weinidogion Cymru. O dan y darpariaethau trosiannol yn Atodlen 11 i Deddf 2006, daeth codau yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn ag a oedd eisoes yn gymwys i godau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Cynulliad. Os bydd y Cynulliad, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw adeg pan fo'r Cynulliad yn cael ei ddiddymu neu mewn cyfnod o doriad am fwy na 4 diwrnod) ar ôl gosod y drafft yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (ar ffurf drafft) a daw'r cod i rym yn unol â'i ddarpariaethau. Y dyddiad arfaethedig yn yr achos hwn yw 12 Tachwedd 2018.

Craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.



Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mabwysiadwyd Rheoliad y Comisiwn 2015/262 sy'n gosod y rheolau o ran y dulliau o adnabod *equidae* ar 11 Medi 2014 a daeth i rym trwy'r Undeb Ewropeaidd ar 1 Ionawr 2016. Mae'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceffyl yng Nghymru gael pasbort.

Mae'r Cod hwn yn adlewyrchu gofynion y Rheoliad hwnnw, a fydd yn gyfraith yr UE a ddargedwir yn rhinwedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Bydd y fframwaith deddfwriaethol hwnnw yn parhau mewn grym nes iddo gael ei ddiwygio. Mae Llywodraeth y DU wedi enwi lles ac iechyd anifeiliaid ac olrhain anifeiliaid yn feysydd lle bydd angen fframwaith polisi cyffredin ar draws y DU pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'n debygol y bydd y Rheoliad yn parhau mewn grym, yn enwedig mewn perthynas â cheffylau rasio neu geffylau sioe sy'n cael eu cludo'n rheolaidd rhwng y DU a gweddill yr UE. Bydd hefyd yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer unrhyw geffylau sy'n cael eu hallforio i'r UE. Mater i'r pedair llywodraeth yn y DU fydd penderfynu sut, ac i ba raddau, y bydd y materion hyn yn parhau'n berthnasol i geffylau na fwriedir iddynt adael y DU. Bydd angen adolygu'r Cod hwn wrth i'r polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol ddatblygu.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Awst 2018





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ceffylau

Tudalen y pecyn 118



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Dyletswydd Gofal	2
Adran 1: Amgylchedd	5
Adran 2: Deiet	10
Adran 3: Ymddygiad	17
Adran 4: Cwmnïaeth	18
Adran 5: Iechyd a Lles	19
Atodiad 1: Clymu	23
Atodiad 2: Y Gyfraith	25
Atodiad 3: Ffynonellau Gwybodaeth	29
Atodiad 4: Dull Adnabod Ceffylau a Phasbortau	30

Rhagymadrodd

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (“y Ddeddf”), os ydych yn berchen ar anifail neu’n gyfrifol am anifail, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i wneud popeth rhesymol i sicrhau bod ei anghenion lles yn cael eu bodloni. Mae’r Cod yn esbonio’r hyn y mae angen i chi ei wneud i roi gofal at y safon sy’n ofynnol yn ôl y gyfraith. Os ydych yn rhiant neu’n warcheidwad plentyn sy’n iau na 16 mlwydd oed, chi sy’n gyfrifol am unrhyw anifail sydd yng ngofal y plentyn hwnnw.

Nid yw torri amodau’r cod hwn yn drosedd ynddo’i hun ond, os cewch eich erlyn am drosedd yn ymwneud â lles yn unol â’r Ddeddf, gallai’r llys ystyried i ba raddau rydych wedi cydymffurfio â’r cod wrth benderfynu a ydych wedi cyflawni trosedd neu beidio neu a ydych wedi gofalu am yr anifail at y safon ofynnol. Ni ddylech beri i anifail ddiodef yn ddiangen; gallai hyn fod yn drosedd difrifol o dan y Ddeddf.

Yn y lle cyntaf, dylai perchenogion/ceidwaid gysylltu â’u milfeddyg am gyngor ar iechyd eu hanifail. Cyfeirir yn y Cod at arbenigwyr gofal am anifeiliaid. Pobl yw’r rhain sydd, oherwydd eu profiad neu eu cymwysterau, yn gallu rhoi cyngor am les a rhai agweddau ar iechyd un neu fwy o fathau o anifeiliaid. Ymhlith yr enghreifftiau y mae gwyddonwyr ymddygiad anifeiliaid, nyrsys milfeddygol a sefydliadau lles penodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a gwybodaeth am eich cyfrifoldebau yn unol â’r Ddeddf, ewch i Atodiad 2 ar ddiwedd y Cod hwn. I weld ffynonellau eraill o wybodaeth, ewch i Atodiad 3.

Dylech fod yn ymwybodol bod y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y Cod ac yn Atodiad 2 yn gywir adeg cyhoeddi’r ddogfen hon ond gallant newid wedi hynny.

Nid yw’r rhagymadrodd hwn yn rhan o’r Cod, ond y bwriad yw ei fod yn esbonio pwrpas y Cod a’i nodau cyffredinol. Yn yr un modd, nid yw Atodiad 2, sy’n tynnu sylw at y gofynion cyfreithiol perthnasol ac Atodiad 3, sy’n rhestru ffynonellau ychwanegol o wybodaeth, yn rhan o’r Cod ychwaith.

Cafwyd cymorth Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru wrth ddiweddarau’r Cod Ymarfer hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i aelodau’r Rhwydwaith am eu hamser a’u hargymhellion arbenigol.

Cyflwyniad

Yn y Cod hwn, mae'r gair "ceffyl" yn cynnwys pob ceffyl domestig, merlen, asyn, a chroesrywiau rhyngddynt. Defnyddir y gair hwn yn y ddogfen drwyddi draw, ac eithrio pan fydd anghenion asynnod yn wahanol.

Mae bod yn berchen ar geffyl a gofalu am un yn gallu bod yn hwyl ac yn werth chweil, ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr ac yn ymrwymiad o ran gofal ac yn ymrwymiad ariannol hirdymor. Chi sy'n rheoli ffordd o fyw eich ceffyl; eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod anghenion eich ceffyl yn cael eu bodloni, beth bynnag yw'r amgylchiadau. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn mynnu bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau:

- Bod ganddo amgylchedd addas i fyw ynddo.
- Ei fod yn cael deiet iach.
- Ei fod yn cael ymddwyn yn naturiol.
- Bod ganddo gwmni addas.
- Ei fod yn cael ei warchod rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Mae'r rhain yn cael eu hegluro'n fwy manwl yn y Cod hwn. Am ragor o gyngor, mynnwch air â'ch milfeddyg neu arbenigwr cymwys. Mae rhagor o ffynonellau gwybodaeth wedi'u rhestru yn Atodiad 3.

Dyletswydd Gofal

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar berchnogion a cheidwaid anifeiliaid i ofalu am yr anifeiliaid y maent yn gyfrifol amdanynt, boed hynny'n barhaol neu dros dro. Felly, gallai person fod yn gyfrifol am anifail os yw'n berchen arno, neu os yw'n gofalu amdano, ond byddai gan y perchennog gyfrifoldeb parhaus am ei anifail hyd yn oed os oes rhywun arall yn gofalu

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth i chi ddod i adnabod eich ceffyl, byddwch yn dod i adnabod ei ymddygiad arferol a dysgu sut olwg sydd arno fel arfer. Mae'n bwysig eich bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau mewn ymddygiad, oherwydd gallai hyn awgrymu bod eich ceffyl mewn braw, yn sâl, neu fod ganddo anghenion sydd ddim yn cael eu bodloni mewn rhyw ffordd.

Mae'n bosibl y bydd gan geffyl sy'n cael ei drin gan filfeddyg anghenion arbennig neu ychwanegol a bennwyd gan y milfeddyg a bydd y rheini'n disodli gofynion y Cod hwn.

Mae'r gair "ceidwad" yn y Cod hwn yn golygu rhywun sy'n gofalu am yr anifail neu sy'n gyfrifol amdano, naill ai'n barhaol neu dros dro.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cael ei gyhoeddi o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y "Ddeddf"). Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i Gymru yn unig, a chaiff ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Mae'n dod i rym ar 12 Tachwedd 2018. Mae'n berthnasol i bob ceffyl y mae unigolyn yn gyfrifol amdano.

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen y Cod Ymarfer i ddeall yn iawn beth yw anghenion lles eich ceffyl a beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch yn llygad y gyfraith.

amdano. Rhiant neu warcheidwad plentyn o dan 16 mlwydd oed sy'n gyfrifol am unrhyw anifail y mae'r plentyn yn gofalu amdano. Mae hynny'n sicrhau mai oedolyn sydd fel arfer yn gyfrifol am anifail. Os bydd ceidwad yn gadael anifail yng ngofal rhywun arall, dyletswydd y ceidwad yw sicrhau bod y person hwnnw'n gymwys a bod ganddo'r awdurdod angenrheidiol i weithredu mewn argyfwng.

Mae bod yn gyfrifol am anifail yn cynnwys deall anghenion iechyd a lles penodol yr anifail a meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i ofalu amdano. Bydd gofyn i'r rheini sy'n gyfrifol am yr anifail gydymffurfio hefyd â'r ddeddfwriaeth, gwybod am y Codau Ymarfer priodol, a gwybod hefyd pryd i ofyn i berson cymwys am ei farn a'i help ac at bwy i droi e.e. pedolwr neu filfeddyg.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau lles Deddf Lles Anifeiliaid 2006, a rhagor o fanylion am gyfrifoldebau ceidwad ceffyl, yn yr atodiadau i'r Cod hwn.

Ceir disgrifiad manwl o anghenion ceffylau yn y Cod hwn; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gan geffyl unigol anghenion eraill sydd angen eu bodloni er mwyn sicrhau ei les. Bydd gan geffylau gwaith ofynion arbennig na fydd eu hangen ar geffylau anwes; dylai ceidwaid gadw'r anghenion ychwanegol hyn mewn cof. **Os nad yw ceidwad yn siŵr beth allai'r rhain fod, mae'n bwysig ei fod yn holi am gyngor gan filfeddyg neu arbenigwr mewn gofalu am anifeiliaid.** Gallwch gael cyngor penodol am les ceffyl cystadlu drwy ffynonellau sy'n gysylltiedig â'r gamp dan sylw.

Cyn prynu ceffyl neu ddod yn gyfrifol am ofalu amdano, mae llawer o bethau pwysig i'w hystyried:

- A yw'n syniad da eich bod yn prynu ceffyl, neu a ddylech chi ystyried opsiynau eraill megis benthyc ceffyl am gyfnod byr neu gyfnod hir? Mae cael benthyc ceffyl yn gallu bod o gymorth i ddarpar geidwaid ddeall yr ymrwymiad sydd ei angen a'r costau sy'n gysylltiedig â chadw ceffyl. Gall ceffyl fyw am gyn hired â 40 mlynedd felly mae'n ymrwymiad hirdymor.
- Faint mae'n costio i gadw ceffyl. Efallai bydd cost prynu ceffyl yn isel o'i gymharu â'r costau parhaus. Bydd y costau hyn yn amrywio, yn dibynnu ar anghenion y ceffyl unigol, ble mae'n cael ei gadw ac at ba ddefnydd. Yn ogystal â chostau beunyddiol,

bydd angen i chi hefyd ystyried costau porthi atodol, rhoi moddion llyngyr, yswiriant, ffioedd milfeddyg (yn cynnwys brechiadau rheolaidd, deintyddiaeth a chostau sy'n gysylltiedig â salwch neu anaf), pedoli, cyfarpar, cludiant a hyfforddiant ac yn y blaen. Dylech hefyd ystyried cost gofal diwedd oes, cost ewthanasia a/neu waredu'r anifail. **Dylai darpar geidwaid bwysio a mesur yr holl gostau cyn penderfynu a ydynt yn gallu fforddio ceffyl.**

- Mae'n bwysig dod o hyd i'r anifail iawn oherwydd gall hyn atal sawl problem yn y dyfodol. Mae'n bwysig dewis ceffyl â'r natur iawn, o'r brid iawn, sy'n gweddu i anghenion a gallu'r ceidwad. Bydd rhyw ac oed yr anifail yn effeithio ar sut y dylid magu'r ceffyl, ei gartrefu, ei fwydo a/neu ei weithio. Gofynnwch am gyngor cyn penderfynu. Cyn prynu ceffyl, mae'n syniad da rhoi cynnig ar sawl ceffyl gwahanol er mwyn gallu cymharu, a dylid gofyn am gyngor bob amser gan rywun sydd â phrofiad ym maes ceffylau. Cyn prynu, mae'n hanfodol rhoi cynnig ar geffyl ym mhob agwedd ar y dasg y disgwylir i'r ceffyl ei pherfformio, er enghraifft marchogaeth ysgafn, neidio a gwaith ar dir gwastad, ac mae'n syniad da rhoi cynnig ar geffylau dethol fwy nag unwaith. Argymhellir yn gryf bod milfeddyg annibynnol yn rhoi archwiliad i geffyl cyn i chi ei brynu.
- Dylai'r darpar geidwad ystyried sut ac ymhle y bydd y ceffyl yn cael ei gadw, gan gynnwys a ddylid cadw'r ceffyl mewn man lle mae yna geffylau eraill er mwyn iddo gael cwmnïaeth. Gall stablau hurio fod yn opsiwn os oes angen cymorth ar y ceidwad i wella'i sgiliau a'i wybodaeth.
- Dylid ystyried faint o amser y bydd angen ei dreulio yn gofalu am y ceffyl ac yn ei ymarfer.
- A oes gan y darpar geidwad y sgiliau a'r wybodaeth briodol? Os nad oes, dylent ystyried cael profiad gyda cheffylau cyn hynny drwy fynd i stablau marchogaeth neu wneud gwaith gwirfoddol.

- Mae angen i ddarpar geidwad ystyried cael cynlluniau wrth gefn hefyd, er enghraifft:
 - cael stablau a chludiant ar gyfer ceffylau (gan gynnwys ceffylau sy'n cael eu cadw ar laswellt) pe byddai angen triniaeth ar frys gan filfeddyg
 - cael cyfleusterau i ynysu'r ceffyl (fel na fydd yn dod i gysylltiad â cheffylau eraill) pe byddai angen gwneud hynny yn dilyn cyngor gan y milfeddyg
 - trefniadau eraill ar gyfer gofalu am geffyl os na fydd y ceidwad yn gallu gwneud hynny bellach am unrhyw reswm.
- Dylid adolygu'r trefniadau wrth gefn hyn os bydd unrhyw newid yn amgylchiadau'r ceidwad neu'r ceffyl.

Pan fydd darpar geidwad wedi penderfynu prynu ceffyl:

- Dylid ystyried yn ofalus oddi wrth bwy y dylid prynu'r ceffyl. Os bydd y ceffyl yn cael ei werthu drwy farchnad neu ddeliwr ceffylau, dylai'r ceidwad edrych yn ofalus ar delerau ac amodau'r gwerthiant a chael derbynneb wrth brynu.

- Rhaid i unrhyw geffyl a brynir neu a werthir gael pasbort ceffyl dilys (dogfen adnabod), sy'n cael ei roi gan Sefydliad Rhoi Pasboprtau¹. Mae'r llyfryn bach yn adnabod eich anifail drwy ei uchder a'i rywogaeth, ac yn nodi a oes modd defnyddio eich anifail ar gyfer bwyd i bobl ar ôl iddo farw. Mae pasbortau ceffyl yn ofyniad cyfreithiol. Dylid gwirio manylion y pasbort cyn prynu, yn enwedig y silwét (diagram o farciau a lliwiau) i sicrhau ei fod yn cyfateb i'r ceffyl ac, os yw'n bosibl, y microsglodyn i sicrhau ei fod yn cyfateb i'r pasbort. Gall y sefydliad sydd wedi darparu'r pasbort gadarnhau mai ef sydd wedi cyhoeddi'r pasbort. Mae rhestr o'r sefydliadau awdurdodedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

¹ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/630882/pio-list-studbooks.pdf

Adran 1: Amgylchedd

1.1 Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar ddarparu man addas i geffylau fyw.

Cysgod

1.2 Nid oes angen stabil neu do ar bob ceffyl. Mae gan rai bridiau mwy caled (fel ein merlod brodorol) gotiau trwchus ac maent yn gallu byw yn yr awyr agored gydol y flwyddyn, cyn belled â'u bod yn cael cysgod rhag y gwynt a haul yr haf a bod llawr sych, caled ar gael (e.e. os bydd angen triniaeth gan filfeddyg). Gall y cysgod fod yn naturiol (er enghraifft, coed neu berthi) neu wedi'i wneud gan ddyn. Ond, os nad yw'r ceffylau'n rhai mor wydn (e.e. ceffylau gwaed pur), os ydynt wedi'u clipio, yn ifanc iawn neu'n hen, efallai y bydd angen stabil, to neu gysgod arall arnynt i'w hamddiffyn rhag y glaw, y gwynt a thymreddau oer neu boeth iawn.

1.3 Daw asynnod o Affrica ac Asia. Nid ydynt yn hoff o law trwm gan nad yw eu cotiau'n dal dŵr yn iawn. Felly mae angen cysgod arnynt drwy'r amser a rhaid bod llawr caled, sych ar gael iddynt hefyd – nid yw cysgod naturiol yn ddigon.

Stablau/Adeiladau cadw anifeiliaid

1.4 Dylid ystyried lles y ceffyl bob amser wrth adeiladu neu ailwampio adeiladau i ddarparu llety i geffylau. Diogelwch a chysur y ceffylau fydd y prif bethau i'w hystyried, ynghyd â mynediad hwylus, golau, awyru a draeniad. Os nad yw o ddyluniad da, neu os nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gall yr adeilad gyfrannu at ledaenu clefyd yn gyflym, gall achosi anafiadau a thanau. Dylai'r adeilad gael ei adeiladu i ymgorffori'r argymhellion ar gyfer diogelwch tân a geir yn y "Canllaw ar Ddiogelwch Tân mewn Sefydliadau Cadw Anifeiliaid a Stablau" gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'r canlynol yn berthnasol i bob adeilad cadw ceffylau gan gynnwys stablau unigol, stalau/corau ac ysguboriau sy'n dal sawl ceffyl.

- **Adeiladwaith:** Dylai adeiladau fod yn gryf eu hadeiladwaith, heb unrhyw arwynebau neu ddarnau o adeiladwaith amlwg a allai achosi niwed. Dylid gallu glanhau a diheintio pob arwyneb yn effeithiol. Os yw arwynebau'n cael eu trin, dylid defnyddio paent neu hylif pren diwenwyn.
- **Gosodiadau a ffitiadau:** ni ddylai gosodiadau a ffitiadau fel cylchoedd clymu, rheseli a chafnau dŵr fod ag ymylon miniog iddynt a dylid eu lleoli'n ofalus fel na all y ceffyl anafu'i hun, yn enwedig ei lygaid. Os defnyddir rhwyd wair, dylai gael ei gosod ar yr un uchder â phen y ceffyl er mwyn iddo allu bwydo'n gyfforddus heb i draed y ceffyl neu ei ffrwyn fynd yn sownd ynddi pan fydd yn wag.
- **Lloriau:** dylent fod yn weddol wastad, yn anodd llithro arnynt ac yn draenio'n dda, ac fel bod unrhyw wastraff stabil yn llifo oddi wrth y ceffyl.
- **Drysau:** dylent fod o leiaf 4 troedfedd (1.2 metr) o led ac ni ddylent agor tuag at i mewn. Dylai uchder y drws isaf alluogi'r ceffyl i edrych allan drosto a'i ben yn gyfforddus dros y drws. Dylid gallu cau'r drysau â bolltiau ar y rhan isaf a'r rhan uchaf. Wrth ddylunio stablau, dylid ystyried y prifwyntoedd i sicrhau bod yr awyru'n ddigonol gyda chylchrediad aer da, ond gan osgoi drafftiau gormodol.
- **Toeon:** dylent fod yn ddigon uchel i aer fedru cylchredeg yn rhwydd. Dylai fod o leiaf 60-90cm (2-3 troedfedd) o ofod clir rhwng blaen clustiau'r ceffyl yn ei osgo sefyll arferol a'r bargod.
- **Goleuni:** Rhaid wrth ddigon o olau yn y stabil i'r ceffyl allu gweld yn ddigonol ac i allu archwilio a thrin y ceffyl yn ddiogel; gallai hyn gynnwys golau cludadwy. Dylid rhoi ffitiadau diogelwch o amgylch bylbiau a switshys golau, a rhaid gosod y ceblau'n ddiogel allan o gyrraedd y ceffyl.

- **Ffenestri:** Ffenestri diogelwch neu Perspex (gyda bariau rhwng y ceffyl a'r gwydr) sydd orau. Dylai un ffenestr neu'r drws uchaf fod ar agor trwy'r amser fel arfer.
- **Mae angen i asynnod gael mynediad i gysgod bob amser:** Dylai llawr y cysgod, a'r ardal o'i gwmpas, fod yn galed ac yn draenio'n iawn. Dylid caniatáu oddeutu 4.5 metr sgwâr (50 troedfedd sgwâr) o le dan do i bob asyn, oddeutu 9 metr sgwâr (100 troedfedd sgwâr) i bâr.

1.5 Gan fod ceffylau'n amrywio gymaint o ran maint, mae'n anodd dweud beth yw lloc, ysgubor neu stabl delfrydol ei faint. Fodd bynnag, dylai fod gan bob ceffyl o leiaf ddigon o le i orwedd, codi'n rhwydd a throi o gwmpas yn gyfforddus. Dylai pob llwybr tramwy fod yn ddigon llydan i allu tywys y ceffylau'n ddiogel heibio i geffylau eraill. Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain yn argymhell y meintiau sylfaenol canlynol ar gyfer stablau:

- Ceffylau – 3.65m x 3.65m (12tr x 12tr)
- Ceffylau mawr – 3.65m x 4.25m (12tr x 14tr)
- Merlod ac Asynnod – 3.05m x 3.05m (10tr x 10tr)
- Merlod mawr – 3.05m x 3.65m (10tr x 12tr)

Bydd ar gesyg cyfeb a chesyg ag ebol wrth droed angen rhagor o le. Dylai stâl ar gyfer geni ebol fod yn 4.27m wrth 4.27m (14ltr wrth 14ltr).

1.6 Gellir cadw grwpiau o geffylau gyda'i gilydd mewn ysguboriau ond dylid gofalu bod pob ceffyl yn cael digon o wair, bwyd a dŵr. Dylai fod ganddynt ddigon o le i symud yn rhwydd ynddo ac i bob ceffyl allu gorwedd yr un pryd. Dylid dewis grwpiau sy'n gallu cyd-fyw â'i gilydd. Dylai rhai anifeiliaid gael eu cadw ar wahân, fel ceffylau arbennig o ffyrnig, cesyg sydd ar fin geni, cesyg â'u hebolion gyda nhw, stalwyni ac eboleirch.

1.7 Bydd angen digon o ddeunydd gorwedd addas ym mhob adeilad sy'n dal ceffylau i gadw'r ceffylau'n gynnes, eu diogelu rhag anaf ac iddynt orwedd yn gyfforddus. Dylai'r deunydd gorwedd fod yn ddiwenwyn, heb lwch na llwydni, a bydd yn draenio'n rhwydd neu'n amsugno digon i gadw'r gwely'n sych a helpu i gadw'r aer yn ffres. Os yw matiau rwber yn cael eu defnyddio, argymhellir ychwanegu ychydig o wasarn arno i amsugno'r wrin. Pa fath bynnag o ddeunydd gorwedd a fydd yn cael ei ddefnyddio (e.e. gwellt, naddion, matiau rwber ac ati), dylid gofalu amdano a'i newid neu ei lanhau'n rheolaidd. Dylech hefyd ystyried sut i gael gwared ar wastraff o'r fath^{2,3}.

1.8 Mae tân bob amser yn berygl mewn stablau. Dylid gofyn i'r Swyddog Atal Tanau Lleol beth yw'r gofynion statudol. Dylai pob offer a gwasanaethau (unedau goleuo, diffoddyddion tân a larymau) gael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da a dylai swyddog cymwys eu harchwilio bob blwyddyn. Rhaid defnyddio trydanwr cymwys i osod a chynnal a chadw gosodiadau trydan ar y prif foltedd ynghyd â'u harchwilio a'u profi yn achlysurol, yn unol ag argraffiad diweddaraf rheoliadau weirio'r Sefydliad Peirianwyr Trydanol (IEE). Rhaid i'r weiers a'r offer fod allan o gyrraedd y ceffylau, rhaid eu hynysu'n drylwyr a'u diogelu rhag llygod a'u daearu'n gywir. Rhaid daearu pibellau metel a gwaith adeiladu o ddrur yn iawn. Gellir lleihau'r perygl o dân a thrydaneiddio trwy ddiogelu'r holl waith trydan â dyfais cerrynt gweddillol (RCD). Ni ddylid cadw hylif fflamadwy na deunydd llosgadwy ar gyfyl stabl lle mae ceffylau'n cael eu cadw. Dylai trawstiau a silffoedd eraill gael eu glanhau'n rheolaidd. Ni ddylai neb gael smygu yn y stabl a'r cyffiniau.

1.9 Ni ddylid rhoi clo clap ar ddrysau stablau a dylai fod modd rhyddhau ceffylau sy'n cael eu cadw mewn stabl yn gyflym pe bai yna dân neu argyfwng arall, gan ddilyn cynllun rhyddhau mewn argyfwng a fydd wedi'i lunio ymlaen llaw.

² <https://naturalresources.wales/?lang=cy>

³ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/animal-by-products/?skip=1&lang=cy>

Porfa

1.10 Fel arweiniad, er mwyn cynnal cyflwr y corff, dylai pob ceffyl gael o leiaf 0.4 i 0.6 hectar (erw i erw a hanner) o dir pori da os nad oes unrhyw fwyd ychwanegol yn cael ei roi iddo. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar gyflwr y tir, amser y flwyddyn, y math o geffyl a pha mor drylwyr y mae'r porfa'n cael ei rheoli. Gallai darn llai o dir wneud y tro os yw'r ceffyl dan do fel arfer a'r manau pori dim ond yn cael eu defnyddio yn awr ac yn y man.

1.11 Ar gyfer asynnod, argymhellir oddeutu hanner erw (0.2 hectar) o dir pori a/neu dir troi allan addas i bob asyn. Felly, bydd angen cae a chysgod o ryw un erw (0.4 hectar) ar ddau asyn.

1.12 Os yw anifeiliaid dros eu pwysau, neu os ydynt yn dioddef o glefyd sy'n gysylltiedig â bod yn ordew, fel laminitis, bydd angen cyfyngu ar ansawdd a maint y tir pori, a nifer yr oriau a dreulir yn pori. Felly, mae'n bosibl y bydd angen i anifeiliaid sydd dros eu pwysau gael eu rheoli mewn grŵp ar wahân i'r rheini sydd o'r pwysau iawn. Dylech ofyn i filfeddyg am gyngor.

1.13 Nid yw wastad yn bosibl nac yn ymarferol dod â cheffyl o gae neu borfa sy'n troi'n fwdlyd. Ond, mae'n hanfodol bod gan y ceffyl le cyfforddus a sych i orwedd a sefyll arno, ac i gael ei fwydo a chael dŵr arno.

1.14 Awgrymir cael rhaglen rheoli porfa dda er mwyn osgoi gorbori (gweler 1.10 uchod hefyd), er mwyn helpu i reoli llyngyr, sicrhau draeniad da a rheoli chwyn. Dylai hyn, er enghraifft, gynnwys casglu'r dom, cylchdroi'r ardaloedd pori a lle bo modd, mynd â'r ceffyl o'r cae pan fydd hi'n wlyb iawn rhag iddo sarnu'r tir (h.y. sathru'r tir yn fwd) ac achosi problemau iechyd.

1.15 Dylai'r ffensys fod yn ddigon cryf ac uchel i rwystro'r ceffyl rhag dianc (efallai y bydd angen ffens uwch ar farch) ac wrth eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal, dylid gwneud yn siŵr nad oes perygl iddynt niweidio'r ceffyl ac nad oes unrhyw ran yn siarp. Dylai bylchau fod

yn rhwydd a diogel i geffylau fynd trwyddynt, a dylai giatiau gael eu cau'n sownd rhag anafu'r ceffyl a rhag iddo ddianc. Weithiau, bydd angen rhoi clo ar y giatiau. Ni ddylai weiren bigog gael ei defnyddio mewn cae gyda cheffylau ynddo. Gall ffensys fel weiren blaen a gwifren ddefaid, nad ydynt wedi'u dylunio'n bennaf ar gyfer ceffylau, achosi anaf.

1.16 At ei gilydd, mae Cymdeithas Ceffylau Prydain yn argymhell y dylai ffensys fod yn 1.24 metr (4 troedfedd) o uchder. Ond dyma argymhellion mwy penodol:

- Ceffylau – 1.08m i 1.38m (3tr 6" i 4tr 6")
- Asynnod – 1m i 1.3m (3tr 3" i 4tr 3")
- Rheilen isaf (yn y ddau achos) – 0.5m (1tr 6") uwchben y ddaear
- Meirch – 1.25m i 2m (4tr1" i 6tr 5")

1.17 Efallai y bydd ar feirch/stalwyni angen ffens ddwbl a ffens drydan ar hyd top rheilen y padog. Byddai hynny'n ei rwystro rhag bod yn gas neu'n orgariadus â cheffylau mewn caeau gerllaw, yn ogystal â chadw'r march yn ei briod gae.

1.18 Wrth gynllunio, gosod a chynnal ffens drydan, ni ddylai achosi mwy nag eiliad o anesmwythyd i geffyl sy'n cyffwrdd â hi; dylai'r holl unedau pŵer fod wedi'u daearu'n briodol. Dylid profi ffensys trydan yn rheolaidd gan ddefnyddio'r cyfarpar priodol. Bydd angen cadw golwg ychwanegol ar geffylau sy'n cael eu cadw rhag crwydro gan ffens drydan nes eu bod yn dod yn gyfarwydd â hi. Gellir defnyddio tâp trydan a physt plastig i rannu cae dros dro ac mae'r rhain yn creu rhwystr mewnol effeithiol, ond ni ddylech eu defnyddio fel yr unig ffens derfyn.

1.19 Dylid gwneud yn siŵr nad oes dim byd peryglus na phlanhigion gwenwynig yn y caeau.

Planhigion Gwenwynig

1.20 Mae sawl planhigyn yn wenwynig i geffylau, gan gynnwys llysiâu'r gingroen, y sycamorwydden a mes. Mae rhestrau cynhwysfawr o blanhigion gwenwynig i'w gweld ar wefannau'r rhan fwyaf o sefydliadau ceffylau a lles. Ceir dolenni i'r gwefannau hyn yn Atodiad 3. Dylai ceidwaid fod yn gyfarwydd â'r planhigion hyn a gwneud yn siŵr bod y planhigion hyn (a'u torion) allan o gyrraedd ceffylau ar bob achlysur. Os ydy'r caeau'n ffinio â thai, mae'n bwysig gofalu nad yw ceffylau'n cael mynd at wastraff gardd gan gynnwys crafion llysiâu a thorion lawnt.

1.21 Mae llysiâu'r gingroen yn un o'r chwyn sy'n cael eu pennu yn Neddf Chwyn 1959 a chafodd y "Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiâu'r Gingroen" ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2011 ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae holl rywogaethau llysiâu'r gingroen (creulys ledlwyd, creulys y gors a chreulys Rhydychen sydd hefyd i'w cael yng Nghymru) yn wenwynig i geffylau a dylid eu codi a'u gwaredu'n ofalus ble bynnag y deuir ar eu traws. Mae llysiâu'r gingroen yn wenwynig i bobl hefyd gan mae'r gwenwynau'n gallu cael eu hamsugno drwy'r croen ac felly mae angen gwisgo menig i'w trin. Dylid cael gwared â holl rywogaethau llysiâu'r gingroen drwy eu llosgi, eu llosgi dan reolaeth neu eu claddu mewn safle tirlenwi. Ni ddylid gadael llysiâu'r gingroen lle gall ceffylau gael gafael arnynt oherwydd, unwaith y caiff y planhigyn ei dorri, mae'n fwy blasus ond mae'n dal yn wenwynig.

Clymu wrth Dennyn

1.22 Gellir diffinio clymu wrth dennyn fel proses a ddefnyddir i glymu anifail â chadwyn wrth angorfa neu bwynt canol er mwyn ei gadw o fewn ardal benodol. Nid yw clymu ceffyl wrth dennyn yn ffordd addas o reoli ceffyl gan ei fod yn atal y ceffyl rhag ymarfer ei gorff, chwilio am

fwyd a dŵr, dianc rhag cŵn a chwilio am gysgod rhag tywydd oer neu dwym. Mae perygl hefyd i'r ceffyl faglu ac anafu ei hun ar y cyfarpar clymu.

1.23 Gallai clymu ceffyl wrth dennyn fod yn ffordd dda o reoli'r anifail am gyfnod byr iawn yn ystod seibiant ar daith, i rwystro'r ceffyl rhag anafu ei hun neu bobl, tra bo trefniadau tymor hir priodol yn cael eu gwneud, neu am resymau meddygol pan fydd milfeddyg yn cynghori bod angen cyfyngu'r hyn mae'r ceffyl yn ei fwyta. Mae'r angen am oruchwyliaeth reolaidd yn hanfodol.

1.24 Mae rhagor o fanylion am yr amodau y dylid eu bodloni wrth glymu ceffylau ar gael yn Atodiad 1. Nid yw'r term 'clymu wrth dennyn' fel y'i defnyddir yn y Cod yn berthnasol i geffylau sy'n cael eu clymu mewn stâl (dull cyffredin a ddefnyddir i gadw ceffylau'r cafalri). Os yw ceffyl yn cael ei glymu mewn stâl, dylai gael ymarfer corff rheolaidd oni bai ei fod yn cael ei gadw fel hyn o dan gyngor milfeddyg (e.e. fel rhan o driniaeth i gyflwr orthopedig).

Rygiau a Chapanau

1.25 Ni fydd angen ryg ar bob ceffyl mewn tywydd cas gan fod gan rai bridiau caled gôt drwchus ac maent yn gallu byw allan mewn pob tywydd heb ryg trwy'r flwyddyn. Mae rhai o'r bridiau caled hyn yn hapusach heb ryg gan fod rygiau'n gallu crafu'r croen. Fodd bynnag, os nad yw'r ceffyl o frîd mor wydn, os yw wedi'i glipio neu'n oedrannus, efallai y bydd angen ryg arno i'w gadw'n gynnes ac yn sych mewn tywydd oer a gwlyb ac i'w amddiffyn rhag pryfed. Bydd angen tynnu'r ryg pan fydd y tywydd yn gwella (yn enwedig y tymheredd).

1.26 Mae'n annhebygol iawn y bydd ar asynnod ifanc ac iach angen ryg, gan y dylai fod ganddynt stabl neu gysgod yn y cae bob amser. Ond, mae oerni'n effeithio'n fwy ar asynnod hen, gwael, y rheini sydd o dan eu pwysau neu sydd wedi'u clipio ac efallai y bydd angen ryg arnynt ar rai adegau o'r flwyddyn.

1.27 Dylai'r ryg a'r capan fod o'r maint a'r pwysau iawn i'r ceffyl ac yn addas i'r tywydd a dylent fod o'r math iawn (h.y. wedi'u dylunio fel eu bod yn addas at y diben y'u bwriadwyd), ac wedi eu gosod yn gywir fel nad ydynt yn crafu'r ceffyl, yn ei glwyfo nac yn codi'r blew. Dylai'r rygiau gael eu tynnu'n rheolaidd er mwyn gweld cyflwr corff y ceffyl a'i iechyd cyffredinol. Yn ddelfrydol, dylai hyn gael ei wneud bob dydd.

1.28 Dylai rygiau gael eu glanhau ac, os bydd angen, eu trwsio'n rheolaidd neu eu hail-drin fel ei bod yn dal glaw, a dylid sicrhau bod yr holl offer clymu'n gweithio'n iawn. Dylai fod ryg sbâr ar gael er mwyn gallu sychu ryg gwlyb iawn.

Cadw golwg

1.29 Dylid bwrw golwg ar geffyl sy'n cael ei gadw mewn cae o leiaf unwaith bob dydd os nad yn amlach. Dylid mynd i weld ceffyl mewn stabl neu geffylau sy'n cael eu cadw gyda cheffylau eraill mewn ysgubor o leiaf ddwywaith bob dydd, ac eto, yn amlach os oes modd. Dylid rhoi sylw arbennig i'w gerddediad, ei hwyl, ei draed, cyflwr ei gorff a'i archwaeth fel y gellir

gweld unrhyw arwydd o glefyd, anaf, salwch neu baraseit yn gyflym ac y gellir rhoi'r driniaeth briodol yn syth. Dylid hefyd ei archwilio'n fanylach yn rheolaidd er mwyn canfod unrhyw broblemau (e.e. anhwylder ar y croen) na fyddant o bosib yn amlwg o bell. Os yw ceffylau'n cael eu clymu wrth dennyn, mae'n bosibl y bydd angen eu harchwilio'n amlach.

1.30 Dylid crafu gwaelod carnau'r ceffylau bob dydd. Gan fod sawl peth yn gallu achosi cloffni, dylid mynd ati'n rheolaidd i archwilio'r coesau a'r carnau am arwyddion o glwyfau, anafiadau, pedolau llac, pethau sy'n sownd yn y carnau neu am unrhyw beth arall anarferol.

1.31 Heblaw am geffyl sydd allan yn pori nad yw ond yn gwneud gwaith ysgafn iawn, dylech ei gribo'n rheolaidd ond ddim yn ormodol (rhag codi'r olew sy'n amddiffyn y blew) i gadw'r gôt yn lân, yn ddi-glwyf ac yn ddi-baraseit ac i ganfod a yw rygiau, cyfrwyau a harneisiau wedi gwneud unrhyw niwed.

Adran 2: Deiet

2.1 Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar ddarparu deiet addas i geffyl.

Dŵr

2.2 Mae'n hanfodol bod dŵr glân ffres ar gael i bob ceffyl heb gyfyngiad, neu o leiaf fod digon o ddŵr glân yn cael ei roi iddo'n aml ac yn rheolaidd gydol y dydd. Os ydych am ddibynnu ar ffynonellau dŵr naturiol, fel nentydd, rhaid iddynt fod yn lân, yn helaeth ac yn rhwydd mynd atynt. Ni ddylid defnyddio ffynonellau dŵr naturiol os oes perygl i'r ceffylau syrthio i mewn, cael eu dal yn sownd neu achosi niwed i'r amgylchedd yn y manau lle maent yn mynd at y dŵr. Bydd angen bod yn ofalus mewn tywydd twym neu rewlyd i gynnal y cyflenwad dŵr, er enghraifft, trwy dorri iâ yn rheolaidd pan fydd y tywydd yn oer neu drwy ddarparu mwy o ddŵr mewn tywydd twym.

2.3 Ar gyfartaledd, mae angen 20–40 litr (5–10 galwyn) o ddŵr ar geffyl bob dydd, ond mae hyn yn dibynnu ar bwysau corff y ceffyl. Efallai y bydd angen darparu dŵr ychwanegol ar ôl ymarfer corff, a hynny i geffylau â rhai cyflyrau iechyd, cesyg yng nghamau olaf eu beichiogrwydd a chesyg sy'n llaetha – dylid ymgynghori â milfeddyg os bydd angen. Mae angen mwy o ddŵr ar geffylau mewn stablau sy'n cael deiet yn cynnwys cyfran uwch o borthiant sych. Dylid darparu dŵr ffres mewn cynwysyddion glân addas e.e., bwcedi glân, cafnau dŵr neu drwy bowlenni yfed awtomatig. Dylid ail-lenwi cynwysyddion ddwywaith y dydd o leiaf, a dylid eu clymu'n sownd er mwyn eu hatal rhag troi drosodd.

2.4 Gofalwch fod cafnau dŵr yn sownd wrth eu sylfeini ar uchder priodol i ganiatáu i geffylau yfed ohonynt yn gyfforddus. Ni ddylai fod yn bosibl i geffylau stablad y dŵr neu dynnu'r cafn o'i le a'i droi drosodd. Ni ddylai fod corneli na darnau miniog arnynt, a rhowch orchudd am y tapiau. Dylid bwrw golwg rheolaidd ar gafnau awtomatig er mwyn gwneud yn siŵr

eu bod yn gweithio'n iawn. Glanhewch yr holl gynwysyddion dŵr yn drylwyr ac yn rheolaidd. Wrth osod y cafn, gofalwch na fydd modd i'r ceffyl gael ei ddal neu ei gornelu a mynd yn sownd mewn rhan ohono. Dylech daro golwg ar gafnau, gan gynnwys y rheini sy'n llenwi'n awtomatig, ac ar fwcedi o leiaf unwaith y dydd i sicrhau bod dŵr ar gael i'r ceffylau.

Bwyd

2.5 Ychydig o fwyd yn aml y mae ceffyl yn ei fwyta wrth reddf. Ei fwyd naturiol yw porfa, sy'n fwyd bras sy'n brin o ynni. Dylai ceffylau gael deiet cytbwys gyda llawer o ffibr ynddo, yn cynnwys naill ai porfa, gwair, gwywair neu ffugwair er mwyn atgynhyrchu mor agos â phosibl eu bwyd naturiol. Dylech roi deiet iddo sy'n adlewyrchu ei anghenion ac sy'n ei gadw mewn cyflwr da. Dylech ystyried ei oed, ei frîd, ei bwysau, ei gyflwr, ei iechyd a faint o waith y mae'n ei wneud.

2.6 Bydd asynnod, yn eu cynefin naturiol, yn pori, gan fwyta planhigion ffibrog fel coed prenaidd a llwyni gydol y dydd, ac yn cerdded cryn bellteroedd yn aml. Dylai gwellt barlys fod ar gael iddynt yn rhwydd, a gellid rhoi swm a reolir o wair iddynt hefyd, er mwyn cynnal eu cyflwr drwy gydol misoedd y gaeaf.

2.7 Os yw deiet ceffyl yn cael ei newid, mae'n bwysig bod hynny'n cael ei wneud yn raddol, dros gyfnod priodol. Mae hynny'n cynnwys symud i dir pori newydd, neu newid o bori bedair awr ar hugain y dydd i gael ei gadw mewn stabl a bwydo gwair iddo. Gall hyn helpu i atal problemau fel colig (poen yn yr abdomen), sy'n anhwylder cyffredin iawn mewn ceffylau ac sydd, yn aml, yn gysylltiedig â newidiadau i'r deiet ac arferion rheoli.

2.8 O gael porfa dda i'w phori, dylai gael digon o frasfwyd a mwynau; os nad oes gan y ceffyl borfa dda, efallai y bydd angen rhoi bwyd ychwanegol iddo. Un ffordd o rwystro'ch ceffyl

rhag pori mewn ardaloedd mawr o dir pori yw rhannu'r cae yn rhannau llai/caeau bychan gan ddefnyddio ffensys.

2.9 Gofalwch fod unrhyw fwyd sydd wedi'i gywain (gwair, gwywair ac ati) o safon uchel; dylai fod yn lân (heb bridd, sbwriel na phlanhigion gwenwynig), dylai aroglu'n ffres a bod heb lwch na llwydni. Cyn belled â bod y llawr yn rhesymol o lân, mae'n syniad da ei fwydo ar y llawr gan fod hynny'n dda i iechyd anadlu'r ceffyl. Mae'n golygu hefyd fod y ceffyl yn bwydo fel pe bai'n pori.

2.10 Ni ddylai'r dwysfwyd (nid yw hynny'n cynnwys bwyd fel tsiaff a betys siwgr), a roddir yn ychwanegol at y borfa y mae'n ei bori neu borthiant tebyg mae'n ei gael, fod yn ddim mwy na'r hyn sydd ei angen ar y ceffyl er mwyn bodloni gofynion egni'r ceffyl mewn ymateb i'r gwaith mae'n ei wneud. Dylech gymysgu'r bwyd yn dda a'i baratoi o'r newydd. Peidiwch â gwneud i geffyl weithio'n galed neu'n gyflym ar stumog lawn.

2.11 Mae'n bwysig eich bod yn prosesu'r bwyd yn iawn, ei gadw mewn cynwysyddion sy'n cadw fermin allan, a'i drin yn ofalus rhag iddo ddifetha a cholli'i werth o ran maeth. Dylid cadw'r cynwysyddion bwyd a'r offer bwydo'n lân. Ni ddylech roi bwyd sydd wedi'i lygru neu sydd wedi troi neu wedi llwydo i geffylau, a dylech ei daflu bob dydd.

2.12 Ar gyfer grŵp o geffylau mewn sgubor, dylai fod lle bwydo ar gyfer pob ceffyl, ac un lle ychwanegol (oni bai eich bod yn defnyddio porthwr y gall sawl anifail ei ddefnyddio ar yr un pryd, er enghraifft, porthwr 'cerrig beddi' sydd wedi'i ddylunio'n benodol i fwy nag un anifail fwyta ohono ac i leihau cystadleuaeth am fwyd). Gofalwch fod hyd dau geffyl o led rhwng pob man bwydo rhag i'r ceffylau anafu'u hunain wrth gystadlu am fwyd.

2.13 Cadwch olwg ar bwysau a chyflwr y ceffylau er mwyn osgoi problemau lles.







Dylid newid y bwyd yn ôl yr angen i anifeiliaid sy'n mynd yn rhy dew neu'n rhy denau.

Mae'n bwysig wrth ei fwydo eich bod yn trin pob ceffyl fel unigolyn a'ch bod yn paratoi deiet sy'n bodloni ei ofynion.

Sylwer: Pan fo siâp a maint ceffylau'n newid, argymhellir bod y gyfrwyaeth yn cael ei harchwilio gan gyfrwywr cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Chymdeithas y Meistr Gyfrwywr. Os yw cyflwr ceffylau'n newid, gall hynny effeithio ar y ffit ac felly ar eu lles ac ar ba mor gyfforddus ydynt wrth gael eu marchogaeth neu eu gyrru.

2.14 Mae gordewdra yn broblem lles cyffredin a difrifol mewn ceffylau. Mae gordewdra a rhai ffactorau o ran deiet a metaboledd ymhlith y ffactorau risg ar gyfer laminitis – clefyd poenus a gwanychol sy'n effeithio ar draed ceffylau. Mae anifeiliaid tew mewn mwy o berygl o ddatblygu laminitis nag anifeiliaid sy'n cynnal pwysau iach. Mae'r lefel uchel o egni mewn glaswellt irlas (e.e. yn ystod tyfiant o laswellt yn ystod y gwanwyn neu'r hydref) yn beryglus i anifeiliaid chwannog, ac efallai y bydd angen cyfyngu ar eu pori. Os oes ar geidwaid angen arweiniad manylach ar laminitis a sut mae rheoli anifeiliaid chwannog yn gywir, dylent gysylltu â'u milfeddyg. Gall y diagramau isod ar Sgorio Cyflwr Corff fod o gymorth i chi os ydych yn gofidio am gyflwr ceffyl neu asyn. Os oes angen rhagor o arweiniad arnoch, dylech gysylltu â'ch milfeddyg.

Sgorio Cyflwr Corff – Ceffylau



Sgorio Cyflwr Corff – Ceffylau

Sgôr Cyflwr	Pelfis	Cefn ac Asennau	Gwddf
0 Gwael iawn	Onglog, croen yn dynn. Ffolen wedi sigo llawer. Ceudod dwfn o dan y gynffon.	Croen yn dynn dros yr asennau. Asgwrn cefn amlwg iawn a main.	Gwar cul ac amlwg. Cul a llac yn y gwaelod.
1 Gwael	Pelfis a chrwper amlwg. Ffolen wedi sigo ond y croen yn ystyth. Ceudod mawr o dan y gynffon.	Hawdd gweld yr asennau. Asgwrn cefn amlwg a chroen wedi sigo ar y naill ochr.	Gwar cul, gwaelod cul a llac.
2 Gweddol	Y ffolen yn wastad y naill ochr i'r asgwrn cefn. Y crwper yn bendant iawn, rhywfaint o floneg. Mymryn o geudod o dan y gynffon.	Gellir gweld yr asennau. Yr asgwrn cefn wedi'i orchuddio ond gellir teimlo'r meingefn.	Cul ond cadarn.
3 Da	Wedi'i orchuddio â bloneg ac yn grwn. Dim rhigol. Hawdd teimlo'r pelfis.	Asennau wedi'u gorchuddio, a gellir eu teimlo. Dim rhigol ar hyd y cefn. Yr asgwrn cefn wedi'i orchuddio'n dda ond gellir teimlo'r meingefn.	Dim gwrym (ac eithrio ymysg meirch). Gwddf cadarn.
4 Tew	Rhigol wrth fôn y gynffon. Bloneg yn gorchuddio'r pelfis. Angen pwyso'n gadarn i deimlo.	Asennau wedi'u gorchuddio'n dda – angen pwyso i'w teimlo.	Mymryn o wrym. Llydan a chadarn.
5 Tew iawn	Rhigol ddofn wrth fôn y gynffon. Croen wedi chwyddo. Y pelfis wedi'i gladdu, ni ellir ei deimlo.	Asennau wedi'u claddu, ni ellir eu teimlo. Rhigol ddofn ar hyd y cefn. Y cefn yn llydan a gwastad.	Gwrym amlwg, yn llydan a chadarn. Torch o floneg.


(Yn seiliedig ar Ddull Carroll a Huntingdon)

Hawfrait NEWC 2003


I gael sgôr ar gyfer y corff, sgoriwch y pelfis yn gyntaf, yna addaswch fesul hanner pwynt os yw bwynt neu ragor yn wahanol yn y cefn neu'r gwddf.

Sgorio Cyflwr Corff – Asynnod


Atgynhyrchwyd â chaniatâd y Noddfa Asynnod




1 Gwael




2 Gweddol



3 Delfrydol



4 Tew



5 Gordew

© Hawfrait NEWC Ebrill 2005

Gallai'r dyddodion braster fod wedi'u dosbarthu'n anghyson, yn enwedig dros y gwddf a'r rhan ôl. Gallai rhai dyddodion braster wrthsefyll ac aros os yw'r anifail yn colli pwysau, a gallent galcheiddio (caledu). Dylid asesu pob rhan yn ofalus, a'u cyfuno er mwyn cael sgôr cyffredinol.

Sgorio Cyflwr Corff – Asynnod

Sgôr Cyflwr	Gwddf ac Ysgwyddau	Gwar	Asennau a Bol	Cefn a Lwynau	Rhan Ôl
Gwael	Y gwddf yn denau, mae'n hawdd teimlo pob asgwrn. Mae'r gwddf yn cwrdd â'r ysgwydd yn sydyn. Hawdd teimlo esgyrn yr ysgwydd. Onglog.	Meingefn y gwar yn amlwg, ac mae'n hawdd ei deimlo.	Gellir gweld yr asennau o bell, ac mae'n hawdd eu teimlo. Y bol wedi'i guddio.	Yr asgwrn cefn yn amlwg, mae'n hawdd teimlo cnapiau'r asgwrn cefn a'r cnapiau ar draws.	Mae'n hawdd gweld a theimlo esgyrn y glun (esgyrn y gar a'r coesau). Fawr o orchudd cyhyrau. Gall fod ceudod o dan y gynffon.
Gweddol	Rhywfaint o ddatblygiad cyhyrau dros yr esgyrn. Mymryn o bellter lle mae'r gwddf yn cwrdd â'r ysgwydd.	Rhywfaint o orchudd dros war y cefn. Gellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn ond nid ydynt yn amlwg.	Nid oes modd gweld yr asennau ond mae'n hawdd eu teimlo.	Gellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn a'r cnapiau ar draws drwy bwysu'n ysgafn. Datblygiad cyhyrau gwael bob ochr i'r llinell ganol.	Fawr o orchudd cyhyrau ar y rhan ôl. Hawdd teimlo esgyrn y glun.
Delfrydol	Datblygiad cyhyrau da. Gellir teimlo'r esgyrn o dan orchudd ysgafn o gyhyrau/ bloneg. Y gwddf yn llifo'n llyfn i'r ysgwydd, sy'n grwn.	Gorchudd da o gyhyrau/ floneg dros cnapiau'r asgwrn cefn. Y gwar yn llifo'n llyfn i'r cefn.	Haen ysgafn o floneg/ cyhyrau'n gorchuddio'r asennau. Gellir teimlo'r asennau drwy bwysu'n ysgafn. Y bol yn gadarn, gyda ffyrfer cyhyrau da ac amlinelliad gweddol wastad.	Ni ellir teimlo cnapiau unigol yr asgwrn cefn na'r cnapiau ar draws. Datblygiad y cyhyrau'n dda y naill ochr i'r llinell ganol.	Gorchudd da o gyhyrau yn y rhan ôl. Esgyrn y glun i'w gweld yn grwn. Gellir eu teimlo drwy bwysu'n ysgafn.

Sgôr Cyflwr	Gwddf ac Ysgwyddau	Gwar	Asennau a Bol	Cefn a Lwynau	Rhan Ôl
Tew	Gwddf yn drwchus, gwrym yn galed, yr ysgwydd wedi'i gorchuddio â haen gyson o fraster.	Gwar yn llydan. Gellir teimlo'r esgyrn drwy bwysu'n gadarn.	Dim ond drwy bwysu'n gadarn y gellir teimlo'r asennau ar y cefn. Haws teimlo asennau'r bol. Gormod o fol.	Dim ond drwy bwysu'n gadarn y gellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn a'r cnapiau ar draws. Mymryn o grych ar hyd y llinell ganol.	Rhan ôl yn grwn. Dim ond drwy bwysu'n gadarn y gellir teimlo'r esgyrn. Dyddodion brawster wedi'u lleoli'n gyson.
Gordew	Y gwddf yn drwchus, y gwrym yn taflu allan â bloneg, a gallai syrthio i un ochr. Yr ysgwydd yn grwn a bloneg yn taflu allan.	Gwar yn llydan. Ni ellir teimlo'r esgyrn.	Dyddodion braster mawr, ac anghyson yn aml, yn gorchuddio'r asennau ar yr agweddau'r cefn a'r agweddau fentrol. Ni ellir cyffwrdd yr asennau. Y bol yn hongian o ran trwch a dyfnder.	Y cefn yn llydan. Ni ellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn na'r cnapiau ar draws. Crychau dwfn ar hyd y llinell ganol. Bloneg yn taflu allan bob ochr.	Ni ellir teimlo esgyrn y glun. Gallai bloneg fod yn hongian drosodd y naill ochr i fôn y gynffon. Bloneg yn aml yn anghyson ac yn taflu allan.

Gellir rhoi hanner sgôr os yw asynnod rhwng un sgôr a'r llall. Gall fod yn anodd rhoi sgôr i asynnod oedrannus am nad oes ffyrfder a thrwch i'r cyhyrau. Mae hynny'n golygu bod yr anifail yn edrych yn deneuach ar hyd ei gefn a bod ei fol yn is. Er hynny, gall ei gyflwr cyffredinol fod yn rhesymol.

Adran 3: Ymddygiad

3.1 Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar ymddygiad ceffylau. Mae'n bwysig bod y ceidwaid yn deall ymddygiad penodol y rhywogaeth o dan sylw, boed yn geffyl, yn asyn neu'n ful, er mwyn adnabod a deall anghenion eu hanifail unigol nhw.

Ymarfer corff

3.2 Mae angen ymarfer corff neu'r rhyddid i ymarfer corff ar bob ceffyl a merlyn, a bydd angen i'r ceidwad roi amser ac ymdrech i sicrhau hynny. Dylai pob ceffyl sy'n cael ei gadw mewn stabl gael ymarfer mewn cae neu gael lle i gael ymarfer bob dydd, oni bai bod milfeddyg wedi rhoi cyngor gwahanol. Os nad oes modd i geffyl fynd allan, rhaid rhoi ymarfer dyddiol priodol iddo a/neu arwain ceffyl allan i bori.

3.3 Dylai lefel y gwaith y disgwylir i geffyl ei wneud gynyddu'n raddol ac yn gyson, dros gyfnod priodol. Ar gyfer ceffylau sydd dros eu pwysau, mae rhaglen o ymarfer dyddiol yn bwysig, a hynny ar y cyd â newidiadau i'w ddeiet, er mwyn colli pwysau. Ni ddylai'r un ceffyl ymarfer y tu hwnt i'w allu. Dylid ystyried oedran, cydffurfiad, iechyd a ffitrwydd y ceffyl. Dylid cael cyngor rhywun proffesiynol, megis milfeddyg, am hyn.

Hyfforddiant

3.4 Dylai'r hyfforddiant ystyried y ceffyl a'i les. Dylai ceidwaid a marchogwyr fod yn ymwybodol mai proses raddol yw hyfforddi, ac nad oes atebion cyflym. Dylid osgoi defnyddio cymhorthion hyfforddi, ac ni ddylid eu defnyddio ond fel dewis olaf o dan oruchwyliaeth rhywun profiadol.

3.5 Mae hyfforddi'n cyfeirio at y ffyrdd y gellir dysgu ceffyl i ymddwyn a pherfformio mewn ffordd benodol yn ôl yr hyn y disgwylw'n iddo'i wneud. Bydd angen hyfforddi'r rhan fwyaf o geffylau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, naill ai i gael eu harwain a'u trin, eu marchogaeth neu eu gyrru mewn harnais. Pobl brofiadol

yn unig ddylai fynd ati i hyfforddi, a hynny mewn lle diogel a phriodol. Mae diogelwch y ceffyl, a'r sawl sy'n ei drin, yn hollbwysig. Dylai'r ceidwad gofio y bydd y cysylltiad rhyngddo a'r ceffyl o ddydd i ddydd yn cyfrannu at yr hyfforddiant hefyd a dylid gofalu peidio â datblygu ymddygiad gwael.

3.6 Mae ceffylau'n dysgu drwy gael eu gwobrwyo ac ailadrodd, felly mae'n bwysig eu bod yn cael eu gwobrwyo am eu hymddygiad mewn modd a fydd yn eu hannog i ailadrodd hynny. Mae dulliau hyfforddi negyddol neu lym yn annerbyniol ac yn wrthgynhyrchol. Nid yw ceffylau'n deall pa ymddygiad i'w arddangos nes iddynt gael eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion o ymddygiad problemus neu ddigroeso mewn ceffylau yn deillio o boen, ofn neu o fod wedi'u trin yn anghywir. Dylid gofyn i filfeddyg, gwyddonydd ymddygiad neu hyfforddwr cymwys am gyngor am ddatrys ymddygiad neu nodweddion annymunol. Gallwch hefyd ofyn am gyngor oddi wrth ffitiwr cyfrwyau sydd wedi'i gofrestru gyda Chymdeithas y Meistr Gyfrwywyr oherwydd bod cyfrwyau nad ydynt yn ffitio'n iawn yn achosi cryn anesmwythyd sydd hefyd yn arwain at ymddygiad annymunol.

Trin ac Atal

3.7 Mae achosi unrhyw ddiodefaint diangen i anifal yn drosedd, felly dylai unrhyw gamau disgyblu fod yn briodol, yn amserol, yn rhesymol ac yn gymesur. Rhaid i unrhyw ddull ataliol a ddefnyddir i reoli neu drin ceffyl fod y dull mwyaf addfwyn a mwyaf effeithiol, a dim ond person cymwys ddylai ei roi, a hynny am y cyfnod byrraf posibl. Dim ond milfeddyg sy'n cael rhagnodi cyffuriau tawelu, a hynny ar gyfer ceffyl sydd yn ei ofal.

3.8 Er y gall manau bach wedi'u hamgáu ac offer fel corlannau crwn fod yn ddefnyddiol wrth drin neu hyfforddi ceffylau, ni ddylid eu defnyddio i gadw ceffylau am gyfnodau hir ac ni ddylid eu defnyddio er mwyn disgyblu.

Adran 4: Cwmnïaeth

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad ar ddarparu cwmnïaeth addas i geffyl.

Ymddygiad Cymdeithasol

4.2 Anifeiliaid heidiol yw ceffylau, ac mae'n well ganddynt fyw mewn grwpiau cymdeithasol gyda cheffylau eraill. Yn ddelfrydol, dylen nhw gael cymdeithasu â cheffylau eraill, ond os nad yw hynny'n bosibl, gellir defnyddio anifeiliaid eraill i roi cwmnïaeth iddynt. Os yw ceffylau'n cael eu cadw ar eu pen eu hunain, er nad yw hynny'n rhywbeth a ddymunir, bydd angen i'r ceidwad gynnig symbyliad amgylcheddol priodol.

4.3 Mae angen cwmnïaeth ar asynnod yn arbennig. Maen nhw'n cymryd at asynnod eraill, ond hefyd at geffylau a mulod. Gall asynnod glafychu os ydyn nhw'n cael eu gwahanu oddi wrth eu cwmnïaeth.

4.4 Dylid diwallu anghenion unigol ceffylau, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cadw mewn grŵp. Bydd ceffylau sy'n cael eu cadw mewn grŵp yn datblygu hierarchiaeth. Mae'n bwysig darparu'r lle, y bwyd a'r dŵr priodol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n is yn yr hierarchiaeth yn cael y bwyd a'r dŵr sydd eu hangen arnynt.

4.5 Mae'n bwysig bod ceidwaid yn sylwi os oes unrhyw geffylau mewn grŵp yn anghymarus, neu os oes sefyllfa o'r fath yn datblygu am ba reswm bynnag. Mae angen gwneud hynny er mwyn diogelu iechyd, diogelwch a lles ceffylau yn y grŵp a'r bobl sy'n eu trin.

4.6 Fel rheol gyffredinol, po fwyaf o geffylau sy'n cael eu cadw, mwyaf yr amser, yr ymdrech a'r adnoddau sydd eu hangen i ddiogelu eu lles. Mae maint y grŵp yn bwysig hefyd; mae unigolion mewn grwpiau mwy o faint yn debygol o wynebu mwy o gystadleuaeth am fwyd a dŵr, lloches a statws cymdeithasol.

4.7 Wrth ffurfio grwpiau newydd, neu gyflwyno anifail newydd i grŵp sy'n bodoli eisoes, dylid cofio lleihau straen ac atal ymladd. Gellir lleihau'r risg drwy ddarparu mwy o le i bob un neu drwy gorlannu anifail newydd yn agos i'r grŵp am ychydig o amser. Hefyd, mae tynnu pedolau ôl pob anifail wrth gyflwyno anifail newydd yn gallu lleihau'r risg o anaf o ganlyniad i gicio.

4.8 Mae'n arbennig o bwysig gwahanu anifeiliaid anghymarus; ni ddylid cymysgu ceffylau ymosodol gyda rhai eraill. Efallai y bydd angen cadw meirch cyfan (ifanc a llawndwf) a meirch sydd â'u ceilliau heb gwmpo neu geffyl sydd heb ei sbaddu'n llwyr ar wahân oddi wrth gesyg er mwyn atal bridio heb reolaeth. Efallai y bydd angen i gesyg cyfeb trwm neu gesyg sydd ag ebol wrth droed gael eu gwahanu dros dro oddi wrth geffylau eraill. Er nad yw cadw ceffylau ar eu pen eu hunain yn ddelfrydol, rhaid cofio, os gwneir hynny, eu bod yn cael math priodol arall o symbyliad amgylcheddol.

Adran 5: Iechyd

5.1 Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ynghylch iechyd ceffyl, a'r angen i'w amddiffyn rhag poen, dioddefaint a chlefydau. Mae'n bwysig bod y ceidwaid yn deall anghenion iechyd penodol y rhywogaeth o dan sylw, boed yn geffyl, yn asyn neu'n ful, er mwyn adnabod a deal anghenion eu hanifail unigol nhw.

5.2 Dylai pawb sy'n gyfrifol am oruchwylio ceffylau allu adnabod arwyddion clefydau a gwybod sut i roi cymorth cyntaf sylfaenol i geffyl. Mae hefyd yn hanfodol bod perchnogion yn gallu cael gafael ar filfeddyg i roi diagnosis neu drin unrhyw salwch, anaf neu glefyd, a bod eu manylion cyswllt ar gael yn hawdd, gan gynnwys manylion y tu allan i oriau. Dylech roi pasbort y ceffyl i'r milfeddyg pan fydd yn cael ei drin.

5.3 Dylai ceidwaid ceffylau fod yn gyfarwydd ag ymddygiad naturiol eu ceffylau, a gallu adnabod arwyddion a allai ddangos iechyd gwael. Gall y rhain gynnwys:

- newidiadau mewn ymarweddiad neu ymddygiad
- newidiadau mewn archwaeth (am fwyd a dŵr)
- arwyddion o boen neu gloffni (symud mewn ffordd nad yw'n normal, yn gyndyn o symud; yn pystylad)
- anafiadau
- colli neu fagu pwysau yn annisgwyl a newidiadau i gyflwr y gôt
- newidiadau i dymheredd y corff, pwls, cyfradd anadlu a
- newidiadau i dail a throeth.

5.4 Rhaid gweithredu ar unwaith pan fydd ceffyl yn mynd yn wael. Dylid gofyn am gyngor milfeddygol pan fydd ceffyl yn ymddangos fel ei fod yn sâl, mewn poen, wedi'i anafu neu wedi cael braw. Dylid dilyn unrhyw gyngor gan y milfeddyg yn drylwyr.

Gofal Iechyd Cyffredin

5.5 Dylai ceidwaid sicrhau bod ganddynt raglen rheoli parasitiaid (llyngyr) ar waith. Gall milfeddygon ddarparu cyngor ynghylch y math o driniaeth atal llyngyr y dylid ei defnyddio a sut i'w defnyddio, a gallai hynny fod yn seiliedig ar gyfrif wyau llyngyr mewn carthion. Mae rheoli porfa yn ofalus, gan gynnwys cylchdroi'r pori a chasglu tail, yn rhan bwysig o raglen rheoli parasitiaid. Gall defnyddio cynnyrch rheoli parasitiaid mewn modd amhriodol gyfrannu at ymwrthedd cyffuriau.

5.6 Pan fydd grwpiau o geffylau'n cael eu cadw gyda'i gilydd, mae rhaglenni parasitiaid fwyaf effeithiol pan fydd yr holl geffylau'n cael eu rheoli fel rhan o'r un rhaglen.

5.7 Mae ceffylau'n agored iawn i detanws, a dylid eu brechu yn erbyn y cyflwr hwn a all fod yn angheuol. Dylid trafod a chytuno ar raglen frechu â milfeddyg cyn ei rhoi ar waith.

5.8 Mae dannedd ceffylau yn torri trwodd ac yn treulio'n barhaus drwy gydol eu bywydau, ac felly maent yn newid o hyd. Bydd angen llyfnu eu dannedd o leiaf unwaith y flwyddyn. Gall arwyddion o glefyd deintyddol gynnwys cnoi bwyd yn annormal, ymateb yn annormal i'r ffrwyn, gollwng bwyd wedi'i hanner ei gnoi, a chyflwr y dannedd yn gwaethygu. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o geffylau sydd â chlefyd deintyddol yn dangos unrhyw arwyddion allanol o gwbl. O ganlyniad i hyn, dylai ceidwaid ddod yn gyfarwydd â deintiad normal eu ceffyl a dysgu sut mae archwilio cegau eu ceffylau yn rheolaidd. Dylai dannedd a cheudod ceg y ceffyl gael eu harchwilio gan filfeddyg o leiaf unwaith y flwyddyn. Dim ond milfeddyg sy'n gymwys i ddiagnosis clefydau deintyddol a chlefydau'r geg, a dylai cyflyrau o'r fath gael eu trin naill ai gan filfeddyg, neu gan ddeintydd ceffylau o dan wylriadwriaeth y milfeddyg.

5.9 Mae gofal traed priodol yn rhan allweddol o hwsmonaeth y ceffyl. Mae carnau ceffylau'n tyfu'n barhaus ac mae'n bwysig bod eu traed yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Pan fydd angen tocio'r carnau, dylai hynny gael ei wneud gan unigolyn cymwys. Ni ddylid disgwyl i geffyl weithio mwy na'r hyn y gall y carnau ei gynnal, pa un ai a oes ganddo bedolau ai peidio. Mae Deddf Pedolwyr 1975 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n pedoli ceffylau gofrestru bob blwyddyn â'r Cyngor Cofrestru'r Pedolwyr. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n pedoli eu ceffylau eu hunain yn unig. Dylech fynd â'ch ceffyl yn syth at bedolwr os oes pedol wedi dod yn rhydd neu os ydy'r hoelion wedi codi, a hynny er mwyn atal anaf posibl. Dylai'r carnau gael eu tocio neu eu hail bedoli bob rhyw 4-8 wythnos fel arfer.

5.10 Mae pryfed yn gallu poeni ceffyl yn ofnadwy, yn enwedig yn yr haf, a gallant heintio clwyfau. Mae gwybed yn poeni ceffylau hefyd yn y gwanwyn a'r haf gan achosi crafu'r haf (sweet itch – alergedd ar y croen). Dylech ystyried cadw pryfed a gwybed draw trwy ddefnyddio triniaeth lladd pryfed, rygiau a mygydau pryfed, neu os yw'ch ceffyl yn sensitif i frathiadau gan bryfed neu wybed, dylech ei gadw yn y stabl ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd, pan fydd pryfed a gwybed ar eu prysuraf.

5.11 Dylai ceidwaid fynd ati'n rheolaidd i archwilio cyfrwyau, ffrwynau a ffit yr enfa, a dylent hefyd gadw golwg am bydredd, gwnïad rhydd a threulio cyffredinol a rhoi sylw iddo cyn iddo ddatblygu'n fater iechyd a dioglewch i'r ceffyl a'r marchog.

Atal Clefydau (Bioddiogelwch)

5.12 Mae yna nifer o glefydau sy'n heintus i geffylau yn bresennol yn y DU. Gall rhai o'r clefydau hyn gael eu trosglwyddo o un anifail i'r llall drwy gyswllt uniongyrchol (ceffyl i geffyl) neu gyswllt anuniongyrchol (drwy wrthrychau a cheidwaid/trinwyr). Mae atal clefydau rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu yn bwysig o ran iechyd a lles anifeiliaid, ac mae hefyd yn osgoi'r costau

sylweddol a allai fod yn gysylltiedig ag achos o glefyd. Felly, mae'n hanfodol sicrhau arferion bioddiogelwch da.

5.13 Yn ei ystyr ehangaf, mae bioddiogelwch yn cwmpasu'r camau y gellir eu cymryd i atal anifeiliaid rhag bod yn agored i bathogenau a allai achosi clefyd, a hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Bydd felly'n cynnwys mesurau i atal yr haint rhag cael ei gyflwyno i leoliad, a mesurau i atal haint sydd wedi'i gyflwyno rhag lledaenu. Er na fydd byth yn dileu'r risg yn llwyr, mae bioddiogelwch o safon uchel yn ei lleihau'n fawr. Mae'n gyfres o fesurau lleihau risg a dylid ei deilwra i ofynion penodol pob lleoliad.

5.14 Mae bioddiogelwch effeithiol yn cynnwys cynllunio ymlaen llaw a hefyd rai pethau syml y gellir eu gwneud yn ddyddiol:

- Rhoi arferion hwsmonaeth a rheoli cyffredinol da ar waith.
- Sicrhau bod gweithdrefnau hylendid da (rhwng pobl a cheffylau a rhwng gwahanol geffylau) yn cael eu cynnal. Dylai golchwyr gwasgedd uchel, brwshys, pibellau a diheintydd fod ar gael i'w defnyddo'n hawdd, a dylent gael eu defnyddio yn ôl eu risg.
- Osgoi achosi straen i geffylau; gall straen achosi clefydau i rai anifeiliaid.
- Sicrhau bod terfynau diogel; dylai ceffylau gael eu hatal rhag cymysgu ag anifeiliaid cyfagos, ac ni ddylent allu cael cyswllt trwyn i drwyn â nhw.
- Dim ond rhannu cyfarpar pan fyddant wedi'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr, a hynny cyn ac ar ôl eu symud rhwng lleoliadau neu grwpiau o geffylau.
- Rhoi rhaglen rheoli plâu ar waith.
- Cadw llwybrau mynediad, manau parcio ac ardaloedd bwydo a storio yn lân ac yn daclus.
- Sicrhau bod trefniadau bioddiogelwch ar waith ar gyfer rhai sy'n ymweld â'r lleoliadau.
- Datblygu cynllun iechyd mewn cydweithrediad â'r milfeddyg, a'i roi ar waith.

5.15 Dylid nodi'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith mewn lleoliad yng nghynllun iechyd y lleoliad hwnnw. Dylai'r rhain gynnwys:

- Protocol ar gyfer ceffylau sy'n dod i mewn i'r lleoliad, gan gynnwys cyfnod cwarantín priodol.
- Cynllun rheoli parasitiaid.
- Cynllun brechu.
- Cynllun sy'n nodi beth i'w wneud pe digwyddai achos o glefyd, gan gynnwys darparu cyfleusterau i wahanu ceffylau.

5.16 Mae achosion o afiechydon newydd yn aml yn dechrau wrth gyflwyno ceffylau newydd i leoliad. Dylai pob lleoliad roi protocol ar waith ar gyfer achosion lle bydd ceffylau newydd yn cyrraedd y lleoliad. Dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â milfeddyg. Dylai'r protocol gyfeirio at elfennau fel y rhai isod, ac mae'n bwysig cydnabod ei bod yn hanfodol i nifer o'r elfennau hyn gael eu cwblhau cyn symud yr anifail i'w gartref newydd:

- Sicrwydd priodol yng nghyswllt statws iechyd yr anifail newydd a'r iard y mae'n symud ohoni. Bydd hyn yn cynnwys elfennau megis hanes brechiadau a hanes o llyngyr (gan gynnwys tystysgrifau) a bydd angen trafod â'r ceidwad presennol a'i filfeddyg o bosib.
- Dylai'r cerbydau a ddefnyddir i gludo ceffylau gael eu glanhau a'u diheintio yn drylwyr.
- Cyfnod cwarantín penodol ar gyfer cadw ceffylau newydd ar wahân mewn ardal benodol sydd wedi'i hynysu, yn ddigon pell o anifeiliaid eraill.
- Rhaglen driniaeth ar gyfer profi a/neu atal (e.e. brechiadau ac atal llyngyr). Bydd manylion penodol y rhaglen yn amrywio yn ôl statws iechyd yr anifail sy'n cyrraedd a'r ffynhonnell y daw ohoni.

Cadw ceffylau ar wahân

5.17 Nid yw bob amser yn bosib cael cyfleuster penodol i wahanu ceffylau. Fodd bynnag, dylai iardiau mawr a'r rheini sydd â throsiant uchel o geffylau ddarparu cyfleuster parhaol ar gyfer cadw ceffylau ar wahân. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bloc o stablau: gallai cae (sydd â digon o loches) fod yn ddigonol. Pa beth bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol rhwng ceffylau sy'n cael eu cadw ar wahân ac anifeiliaid eraill yn cael ei atal.

5.18 Dylai anifeiliaid newydd gael eu cadw ar wahân am o leiaf dair wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwnnw dylid eu monitro'n agos. Os nad ydynt wedi dangos unrhyw arwyddion o salwch heintus ar ôl y cyfnod hwn, gellir eu cyflwyno'n raddol ac yn ofalus i'r ceffylau a oedd yno eisoes.

5.19 Dylai unrhyw geffyl a oedd yno eisoes sy'n dangos arwyddion o glefyd heintus gael ei gadw ar wahân yn syth er mwyn cael ei archwilio gan filfeddyg. Yn dilyn hyn, dylid dilyn cyfarwyddiadau'r milfeddyg.

5.20 Pan fydd geffyl yn cael ei gadw ar wahân, dylid atal pob cyswllt â cheffylau eraill. Dylai'r ceffylau sydd wedi'u gwahanu gael eu hoffer eu hunain (offer ysgrafellu, offer iard, tac os yw'n briodol), ac ni ddylid defnyddio'r rhain gyda cheffylau eraill. Yn ddelfrydol, dylai ceffylau sy'n cael eu cadw ar wahân gael eu trin gan unigolion gwahanol i'r rhai sy'n gofalu am geffylau eraill. Fodd bynnag, nid yw hyn bob tro'n bosib. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid trin ceffylau nad ydynt wedi'u gwahanu cyn y rheini sy'n cael eu cadw ar wahân. Ar ôl gofalu am y ceffylau sy'n cael eu cadw ar wahân, dylai'r ceidwad newid ei ddillad a golchi a diheintio ei ddwylo cyn gweithio gyda'r ceffylau nad ydynt yn cael eu cadw ar wahân unwaith eto.

Cyfrwyau a Harneisiau

5.21 Dylai cyfrwyau a harneisiau fod yn addas at y diben, gan ateb gofynion a galluoedd y ceffyl a'i farchogwr. Dylen nhw gael eu ffitio'n iawn, gan gyfrwywr cymwysedig cofrestredig os oes modd, a gofawch eu haddasu pan fydd cyflwr y ceffyl yn newid. Dylid ailasesu cyfrwyau bob 6-9 mis, gan ddibynnu ar oedran y ceffyl, faint o waith y mae'n ei wneud, a'i gyflwr. Dylech lanhau'r cyfarpar yn rheolaidd a'u cadw mewn cyflwr da er mwyn iddynt barhau'n gysurus, diogel ac effeithiol. Dylai'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio gael ei wneud gan Gyfrwywr Cymwysedig Cofrestredig. Dylech ddim ond rhannu cyfarpar pan fyddant wedi'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr, a hynny cyn ac ar ôl eu symud rhwng lleoliadau neu grwpiau o geffylau. Fodd bynnag, dylai bob ceffyl gael ei gyfrwy ei hun ac ni ddylid ei ddefnyddio ar geffylau eraill.

5.22 Mae gan geffylau gwaith anghenion arbennig o ran harnais gwaith. Dim ond pobl gymwys ddylai eu cynllunio a'u gosod.

5.23 Os ydych yn defnyddio esgidiau a rhwymau, dylent gael eu ffitio'n gywir i osgoi anesmwythyd neu anaf, a dylid eu tynnu cyn gynted â phosibl.

Cludo Ceffylau

5.24 Dylai cludo ceffylau bob amser fod mor ddiogel a rhydd â phosibl ac yn unol â'r rheolau a'r rheoliadau presennol. Dylid ystyried angen yr anifail am borthiant, dŵr a gorffwys. Dylai'r cerbyd fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw anghenion arbennig o ran lles, er enghraifft, wrth gludo cesyg cyfeb neu ag ebol wrth droed, ebolion sugno, neu asynnod a chwmniaeth y maent wedi cymryd ato (mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 2).

Atodiad 1: Clymu wrth Dennynd

Ni ddylid byth defnyddio clymu fel dull tymor hir ar gyfer rheoli ceffylau, oherwydd gallai hyn arwain at fethu bodloni anghenion lles sylfaenol ceffyl, fel y'u nodir yn y Ddeddf Lles Anifeiliaid (2006).

Pa mor addas yw'r anifail

1. Nid yw pob anifail yn addas ar gyfer ei glymu.
2. Ni ddylech glymu ceffylau o dan ddwy oed.
3. Ni ddylech glymu cesyg cyfeb yn nhrydydd traean eu beichiogrwydd.
4. Ni ddylech glymu cesyg sugno.
5. Ni ddylech glymu cesyg wrth ymyl meirch.
6. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth glymu meirch; ni ddylech eu clymu am gyfnod hir.
7. Ni ddylech glymu anifeiliaid sâl.
8. Ni ddylech glymu anifeiliaid hen a methodig (rhai anabl, nid rhai sâl neu rai wedi'u clwyfo).
9. Ni ddylech glymu anifeiliaid sydd yng nghanol anifeiliaid rhydd.

Safle (y tir y mae ceffyl wedi'i glymu yn cael mynd iddo)

1. Dylai'r safle fod yn weddol wastad, gyda thrwch da o borfa arno, a heb wrthrychau arno a allai fynd yn sownd wrth y tennyn.
2. Ni ddylai'r ceffyl allu mynd at briffordd gyhoeddus.
3. Nid yw'r safle'n addas os oes cyfran uchel o'r tyfiant arno'n chwyn.
4. Ni ddylai fod yn safle sy'n llawn dŵr.
5. Ni ddylai llwybr cyhoeddus groesi'r safle.
6. Ni ddylai fod unrhyw beth ar y safle allai anafu'r anifail.

7. Ni ddylid cael defnyddio'r safle heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog y tir. Dylai'r caniatâd ysgrifenedig gynnwys amod i gadw at y cod hwn.
8. Mae'r safle'n ddigon mawr os oes lle ar gyfer pob rhan o gorff y ceffyl a bod 4 metr ychwanegol rhwng rhan ôl un ceffyl a rhan ôl yr un nesaf ato.

Offer clymu

1. Defnyddiwch naill ai ffrwyn o ledr sy'n ffitio'n dda neu strap gwddf lledr lydan. Dylai'r rhain fod yn sownd wrth gadwyn wrth ddyfais troi 360°.
2. Dylai'r gadwyn fod rhyw 20 troedfedd o hyd ac yn ddigon cryf i beidio â thorri ond yn ddigon ysgafn i rwystro'r offer clymu rhag rhwbio yn erbyn croen y ceffyl a'i glwyfo. Peidiwch â defnyddio rhaff na nylon.
3. Ni ddylai'r postyn sy'n ei ddal wrth y ddaear ymwithio'n uwch na lefel y ddaear, a rhaid rhoi dyfais troi 360° wrtho.

Bwyd a dŵr

1. Weithiau, bydd digon o fwyd ar ffurf porfa ar y safle eisoes; os hynny, dylech symud y safle o leiaf unwaith bob dydd i sicrhau bod y borfa o safon ddigon uchel.
2. Os nad oes digon o borfa i ddiwallu angen y ceffyl, gofawch fod digon o borthiant ar gael iddo gydol y dydd.
3. Dylai dŵr fod ar gael yn aml ac yn rheolaidd gydol y dydd mewn cafn nad yw'n gallu moelyd (troi).
4. Mae'n bwysig cadw cynwysyddion ar gyfer dwysfwyd yn lân a diogel.

Cysgod

1. Ni ddylech adael i geffyl sefyll yn llygad yr haul, mewn glaw, eira neu gesair trwm na gwynt cryf ond am gyfnodau byr iawn. Pan fydd y tywydd yn neilltuol o gas, dylech ddarparu cysgod.
2. Dylech o leiaf gysgodi'r anifail rhag yr haul a gwynt mawr. Bydd gofyn bod y safle wedi'i ddraenio'n dda rhag i ddŵr glaw grynhoi arno.

Ymarfer corff

1. Rhaid i'r anifail gael cyfnod o amser yn rhydd bob dydd i ymarfer ei gyhyrau.

Cadw golwg

1. Mae angen cadw golwg fanwl iawn ar geffylau sydd wedi'u clymu a dylech fwrw golwg arnynt o leiaf bob chwe awr yn ystod y dydd.
2. Dylech sicrhau eich bod yn gallu delio ag eithafion y tywydd ac amgylchiadau eraill.

Marciau adnabod

1. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob ceffyl yng Nghymru gael pasbort. Ar ben hynny, mae'n rhaid rhoi microsglodyn ar bob anifail sydd wedi'i eni ar ôl 1 Gorffennaf 2009, gyda'r pasbort yn cynnwys manylion rhif y microsglodyn.
2. Hefyd, dylid rhoi marc ar y ceffyl er mwyn gallu ei adnabod bob amser, a bod modd cysylltu â'r ceidwad neu'r perchennog o'r marc adnabod hwn.
3. Gellid gwneud hynny trwy rewfrandio'r ceffyl, neu fel arall gellid rhoi rhyw fath o nod adnabod ar y ffrwyn neu strap y gwddf sydd â manylion llawn y perchennog neu'r ceidwad arno.

Atodiad 2: Y Gyfraith

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae'r cod yn cyfeirio at nifer o adrannau'r Ddeddf. Rydym wedi'u rhestru isod er hwylustod. Ceir dyfyniadau isod o adrannau perthnasol y Ddeddf. Mae'r blwch sydd wedi'i liwio'n llwyd yn crynhoi troseddau a chosbau perthnasol y Ddeddf.

3 Responsibility for animals

- (1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.
- (2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.
- (3) For the purposes of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.
- (4) For the purposes of this Act, a person shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

4 Unnecessary suffering

- (1) A person commits an offence if—
 - (a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer
 - (b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so
 - (c) the animal is a protected animal, and
 - (d) the suffering is unnecessary.

- (2) A person commits an offence if—
 - (a) he is responsible for an animal
 - (b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer
 - (c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and
 - (d) the suffering is unnecessary.
- (3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include—
 - (a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced
 - (b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment
 - (c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as—
 - (i) the purpose of benefiting the animal, or
 - (ii) the purpose of protecting a person, property or another animal
 - (d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned
 - (e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.
- (4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

9 Duty of person responsible for animal to ensure welfare

- (1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.
- (2) For the purposes of this Act, an animal's needs shall be taken to include—
 - (a) its need for a suitable environment
 - (b) its need for a suitable diet
 - (c) its need to be able to exhibit normal behaviour patterns
 - (d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and
 - (e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.
- (3) The circumstances to which it is relevant to have regard when applying subsection (1) include, in particular—
 - (a) any lawful purpose for which the animal is kept, and
 - (b) any lawful activity undertaken in relation to the animal.
- (4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

14 Codes of practice

- (1) The appropriate national authority may issue, and may from time to time revise, codes of practice for the purpose of providing practical guidance in respect of any provision made by or under this Act.
- (2) The authority responsible for issuing a code of practice under subsection (1) shall publish the code, and any revision of it, in such manner as it considers appropriate.

- (3) A person's failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind.
- (4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13—
 - (a) failure to comply with a relevant provision of a code of practice issued under this section may be relied upon as tending to establish liability, and
 - (b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be relied upon as tending to negative liability.

Troseddau a Chosbau

Gallai person a geir yn euog o drosedd o dan adran 4 o'r Ddeddf gael ei garcharu am hyd at 51 wythnos a/neu gael dirwy. Os ceir ef yn euog o drosedd o dan adran 9 (heb ddiogelu lles anifail), gellir ei garcharu am hyd at yr un cyfnod o amser a'i ddirwyo hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol.

Gellir dwyn achos hyd at 3 blynedd ar ôl cyflawni'r drosedd. Dygir erlyniadau o dan y Ddeddf gan yr awdurdod lleol mewn Llys Ynadon.

Deddfau eraill sy'n effeithio ar geffylau

Yn ogystal â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a rheoliadau yng nghyswllt adnabod ceffylau (gweler Atodiad 4), mae nifer o ddeddfau eraill sy'n effeithio ar y ffordd o gadw ceffylau. Rydym wedi crynhoi'r rhai sydd fwyaf tebygol o effeithio ar geidwad ceffyl isod.

Deddf Chwyn 1959

O dan Ddeddf Chwyn 1959, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad yn gorchymyn y meddiannydd i gymryd camau i rwystro chwyn penodol rhag lledaenu, os ydynt yn fodlon bod chwyn fel llysiâu'r gingroen yn tyfu ar y tir. Mae'n drosedd peidio ag ufuddhau i'r gorchymyn.

Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975

O dan y Ddeddf hon, mae'n drosedd i rywun sydd heb ei gofrestru ei ddisgrifio ei hun yn bedolwr neu'n of pedoli ac mae'n drosedd i rywun sydd heb ei gofrestru bedoli ceffyl. Mae pedoli ceffyl yn golygu: "any work in connection with the preparation or treatment of the foot of a horse for the immediate reception of a shoe thereon, the fitting by nailing or otherwise of a shoe to the foot or the finishing off of such work to the foot". Mae milfeddygon a myfyrwyr milfeddygol o dan oruchwyliaeth yn cael eu hesemptio rhag y rheol gyffredinol hon.

Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007

Yn ôl Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 rhif 1047 (Cy.105), rhaid i unrhyw un sy'n cludo anifail ar unrhyw daith sicrhau'r canlynol:

- Ni chaiff neb gludo anifeiliaid na threfnu eu bod yn cael eu cludo mewn ffordd fyddai'n debygol o'u hanafu na gwneud iddynt ddiodef yn ddiangen.
- Cadw'r daith mor fyr â phosibl.
- Sicrhau bod yr anifeiliaid yn ffit i deithio.
- Bod y cerbyd a'i offer llwytho a dadlwytho wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i osgoi niwed a dioddefaint i anifail ac i gadw'r anifail yn ddiogel.
- Bod yr anifeiliaid yn cael dŵr, bwyd a gorffwys yn ôl yr angen, a bod digon o lawr ganddynt a digon o uchder yn y cerbyd.

- Rhaid cadw ffrwyn am ben ceffylau dros 8 mis oed – ond nid ceffylau heb eu dofi.
- Ar gerbydau aml-lawr, rhaid cludo ceffylau a merlod ar y llawr isaf yn unig, heb anifeiliaid ar y llawr uchaf. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r nenfwd fod o leiaf 75cm yn uwch nag uchder ysgwyddau'r anifail talaf.
- Pan fydd y cerbyd ar long gyrru i mewn/gyrru i ffwrdd, rhaid cludo ceffylau a merlod mewn stalau unigol, ond bai y caiff caseg deithio gyda'i hebol.
- Rhaid peidio â chludo mwy na 4 o geffylau a merlod heb eu dofi gyda'i gilydd.
- Rhaid peidio â chludo ceffylau a merlod heb eu dofi am fwy nag 8 awr.

Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

Mae Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn darparu pwerau cyfreithiol cyson i bob awdurdod lleol yng Nghymru atafaelu, corlannu, gwerthu, ailgartrefu, dychwelyd, gwaredu neu ddifa ceffylau mewn modd di-boen ar ôl hysbysadau a therfynau amser penodol, pan ganfyddir bod y ceffyl yn achosi niwsans drwy bori'n anghyfreithlon, crwydro neu ei fod wedi ei adael yn ardal awdurdod cyhoeddus.

Nid yw'n debygol y bydd y Ddeddf yn effeithio ar unrhyw un ac eithrio'r unigolion hynny sy'n gadael eu ceffylau neu yn caniatáu yn fwiadol neu'n esgeulus i'w ceffylau bori ar dir lle nad oes caniatâd ganddynt oddi wrth deiliad y tir neu lle bo caniatâd wedi ei dynnu'n ôl a cheidwad y ceffyl wedi gwrthod ei symud.

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth am y canlynol:

- Atafaelu a chorlannu ceffyl, gan yr awdurdod lleol perthnasol, pan fo'r ceffyl ar y briffordd neu mewn unrhyw le cyhoeddus arall neu ar dir heb ganiatâd deiliad y tir a bod y deiliad yn cytuno i'r awdurdod lleol ei atafaelu a'i gorlannu.
- Gosod hysbysadau ynghylch atafaelu.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol osod hysbysiad ysgrifenedig cyn pen 24 awr o atafaelu ceffyl, yn neu yn ymyl y fan lle yr atafaelwyd y ceffyl yn datgan dyddiad ac amser yr atafaelu a sut i gysylltu â'r awdurdod lleol. Rhaid iddo hefyd, cyn pen 24 awr o atafaelu ceffyl, roi hysbysiadau ysgrifenedig i gwnstabl ac i unrhyw berson yr ymddengys ei fod yn geidwad neu'n gweithredu fel ceidwad y ceffyl.

- Talu costau cysylltiedig ag atafaelu. Mae'r ceidwad yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol unrhyw gostau rhesymol cysylltiedig ag atafaelu a chorlannu'r ceffyl, a'i fwydo a'i gynnal tra bydd wedi'i gorlannu.
- Cael gwared â cheffylau a gorlannwyd. Caiff yr awdurdod lleol werthu neu gael gwared fel arall â'r ceffyl, gan gynnwys trefnu iddo gael ei ddifa'n ddi-boen ar ôl 7 diwrnod os na fydd unrhyw berson wedi hysbysu'r awdurdod lleol eu bod un ai yn geidwad y ceffyl neu'n gweithredu ar ran ceidwad y ceffyl.
- Cofnod o geffylau yr ymdriniwyd â hwy. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gadw cofrestr o bob ceffyl a gaiff ei atafaelu. Rhaid i'r gofrestr gynnwys disgrifiad byr o'r ceffyl, datganiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lleoliad lle yr atafaelwyd y ceffyl,

a pha bryd y corlannwyd ef a manylion y camau a gymerwyd i sefydlu pwy oedd y ceidwad.

- Datrys anghydfodau ynghylch symiau taladwy. Caiff ceidwad y ceffyl ddadlau'r swm y mae'r awdurdod lleol yn hawlio sy'n ofynnol iddo ei dalu cyn pen 7 diwrnod o dderbyn hysbysiad a chyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i'w ddatrys

Deddf Milfeddygon 1966

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer rheoli'r proffesiwn milfeddygol, cofrestru milfeddygon ac ymarferwyr milfeddygol, rheoleiddio eu haddysg broffesiynol a'u hymddygiad proffesiynol a chanslo neu atal eu cofrestrriad dros dro mewn achosion o gamymddwyn; ac mae'n darparu hefyd ar gyfer dibenion cysylltiedig.

Mae Adran 2(1) o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cofrestr o Filfeddygon cymwysedig (mae'n anghyfreithlon i bobl nad ydynt yn filfeddygon gynnal triniaethau fel sbaddu).

Atodiad 3: Ffynonellau Gwybodaeth

Deddfwriaeth:

- Deddf Lles Anifeiliaid 2006.
- Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo ac yn ystod gweithgareddau cysylltiedig.
- Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007.
- Deddf Chwyn 1959.
- Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975.
- Rheoliad y Comisiwn 2015/262 yn gosod rheolau o ran dulliau ar gyfer adnabod ceffylau.
- Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.
- The Veterinary Surgeons Act 1966.

Gwefannau sefydliadau perthnasol:

- www.worldhorsewelfare.org – World Horse Welfare
- www.thedonkeysanctuary.org.uk – The Donkey Sanctuary
- www.bhs.org.uk – British Horse Society
- www.newc.co.uk – National Equine Welfare Council
- www.pcuk.org – The Pony Club
- www.bva.co.uk – British Veterinary Society
- www.beva.org.uk – British Equine Veterinary Association
- www.farrier-reg.gov.uk – The Farriers Registration Council
- www.wales.gov.uk – Llywodraeth Cymru
- www.hsa.org.uk – Humane Slaughter Association
- www.rspca.org.uk – RSPCA
- www.ragwort.org.uk – Ragwort Myths and Facts
- www.mastersaddlers.co.uk – Cymdeithas y Meistr Gyfrwywyr

Cyhoeddiadau defnyddiol:

Cyhoeddiadau Cymdeithas Ceffylau Prydain:

- The Complete Horse & Pony Care
- BHS Guide to Grassland management
- The BHS Complete Manual of Stable Management
- The BHS Veterinary Manual
- The BHS First Horse Owner Pack
- Mae taflenni lles y BHS yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau a gallwch eu llwytho o wefan y BHS: www.bhs.org.uk – dilynwch y ddolen i 'Welfare' ac yna i 'Leaflets'.

Cyhoeddiadau'r Pony Cub:

- Manual of Horsemanship
- Keeping a Pony at Grass

Cyhoeddiadau'r National Equine Welfare Council:

- Equine Industry Welfare Guidelines Compendium
- Code of Practice for Markets and Sales involved with the selling of Horses, Ponies and Donkeys
- Code of Practice for the Tethering of Horses, Ponies and Donkeys
- Code of Practice for Welfare Organisations involved in the keeping of Horses, Ponies and Donkeys

British Equine Veterinary Association

- Horse Care Guide

The Donkey Sanctuary

- The Donkey Care Handbook

Atodiad 4: Dull Adnabod Ceffylau a Phasbortau

1. Cafodd Rheoliad y Comisiwn 2015/262 yn gosod rheolau o ran dulliau ar gyfer adnabod ceffylau ei fabwysiadu ar 11 Medi 2015 a daeth i rym ledled yr Undeb Ewropeaidd ar 1 Ionawr 2016. Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceffyl yng Nghymru gael pasbort.

2. Rhaid i bob ceffyl y cyhoeddwyd pasbort iddo ers 1 Gorffennaf 2009 gael ei ficrosglodynnu a rhaid i'r pasbort gynnwys rhif y microsglodyn. Mae'n ofynnol i ebolion gael eu microsglodynnu ac i basbort gael ei gyhoeddi cyn iddynt gyrraedd chwe mis oed neu erbyn 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y ganwyd hwy, pa un bynnag sydd hwyrach.

3. Rhaid i basbort ceffyl fod wrth law bob amser. Mae eithriadau i hyn, er enghraifft pan fo'r ceffyl mewn stabl, allan yn pori neu os caiff y ceffyl ei symud drwy gerdded. Dyma enghreifftiau o'r achlysuron pryd y mae'n ofynnol i basbort fynd gyda cheffyl:

- Pan gaiff y ceffyl ei symud i eiddo newydd.
- Pan gaiff y ceffyl ei werthu.
- Pan gaiff y ceffyl ei ddefnyddio i ddibenion bridio.
- Pan gaiff y ceffyl ei symud i mewn i'r Deyrnas Gyfunol neu allan ohoni.
- Pan ddefnyddir y ceffyl mewn cystadleuaeth.
- Pan eir â'r ceffyl i ladd-dy i'w ddifa.
- Pan gaiff y ceffyl ei gludo (ac eithrio yn achos cael ei gludo am driniaeth filfeddygol frys); a
- Phan fydd milfeddyg yn dod at geffyl i roi brechiadau neu os bydd ar y ceffyl angen meddyginiaeth.

4. Diben pasbortau i geffylau yw sicrhau na fydd unrhyw geffylau a gaiff eu trin gyda rhai mathau penodol o gyffuriau, er enghraifft Phenylbutazone (Bute), yn dod i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol. Mae'r pasbort yn datgan a oes modd i geffyl gael ei ddefnyddio ar gyfer bwyd ar derfyn ei fywyd. Gall ceidwaid ddatgan a fwriedir i'r ceffyl gael ei fwyta gan bobl ai peidio drwy lenwi'r adran berthnasol yn y pasbort. Os bydd ceidwad yn datgan na fwriedir i'r ceffyl gael ei fwyta gan bobl, ni ellir newid y datganiad hwn yn ddiweddarach.

5. Rhaid i geidwad y ceffyl roi'r pasbort i filfeddyg cyn i'r ceffyl gael ei drin gan y bydd yn rhoi gwybod iddo pa feddyginiaethau y gall y ceffyl eu derbyn. Os bydd angen i'r milfeddyg roi meddyginiaethau i'r ceffyl nad ydynt yn addas ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, bydd yn ofynnol i'r milfeddyg lofnodi'r pasbort i nodi na fwriedir i'r ceffyl gael ei fwyta gan bobl. Bydd gofyn i'r sefydliad a gyhoeddodd y pasbort hefyd gael ei hysbysu ynghylch hyn, ac nid oes modd ei newid yn ddiweddarach.

6. Rhaid i basbort gael ei ddychwelyd i'r Sefydliad a Gyhoeddodd y Pasbort pan fydd y ceffyl yn marw er mwyn iddo gael ei annylsu. Rhaid gwneud hyn cyn pen 30 diwrnod yn dilyn marwolaeth y ceffyl.

7. Os bydd y ceffyl yn cael ei werthu, rhaid i'r pasbort gael ei roi i'r perchennog newydd a bydd ganddo 30 diwrnod i ddiweddarau'r newid perchnogaeth gyda'r Sefydliad a Gyhoeddodd y Pasbort.

Explanatory Memorandum to the Code of Practice for the Welfare of Horses

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Animal Welfare and By-Products Branch, Office of the Chief Veterinary Officer and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Cabinet Secretary/Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Code of Practice for the Welfare of Horses

Lesley Griffiths AM, Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

20 July 2018

1. Description

Under the Animal Welfare Act 2006 (“the Act”), if someone is responsible for an animal they have a legal duty to take reasonable steps to ensure its welfare needs are met. The Code explains what needs to be done to meet the standard of care the law requires.

Breach of a provision of the Code is not an offence in itself but, if proceedings are brought against someone for a welfare offence under the Act, the Court may take into account the extent to which they have complied with the Code in deciding whether they have committed an offence or have met the required standard of care. Unnecessary suffering to any animal could constitute a serious offence under the Act.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

The Code is being laid under the ‘Negative Procedure’.

The Technical Standards Directive – The Directive places an obligation on Member States to notify the Commission of draft regulations that fall within the scope of the Directive. This new Code updates current standards and Regulations but does not differ substantially from the current Code. Although a breach of the Code does not amount to a criminal offence any proceedings under the Welfare Act 2006 may take into account any compliance with the Code. The current Code was not notified to the Commission and therefore this Code will also not be notified.

3. Legislative background

This Code of Practice is issued under section 14 of the Animal Welfare Act 2006 (the “Act”). This Code applies in Wales only, is issued by the Welsh Ministers and comes into force on 12 November 2018. It applies to all horses and donkeys for which a person is responsible.

4. Purpose & intended effect of the legislation

The existing Code of Practice for the Welfare of Horses reflected the science and legislation in force at that time and was made under The Animal Welfare Act 2006. A review was required to capture any changes in these areas and to ensure the standards being advised are still appropriate.

By not reviewing and amending the Code regularly to reflect any changes made to legislation and recognised minimum best practice standards, animals could be put at risk of harm.

The purpose of the Code is to ensure that those who are responsible for an animal are aware they have a legal duty to take reasonable steps to ensure its welfare needs are met. The Code of Practice explains what you need to do to meet the standard of care the law requires.

5. Consultation

Welsh Government officials worked with Animal Welfare Network Wales to review and update the Code for consultation.

A twelve week public consultation took place between 21 July 2017 and 20 October 2017. The consultation was published on the Welsh Government website with a press release alerting the general public to the launch. Known stakeholders i.e. enforcement agencies and special interest groups, were also contacted individually by email or post.

A Summary of the Responses to the Consultation can be found at the attached link - <https://beta.gov.wales/code-practice-welfare-horses>

Comments and suggested amendments were taken in to account when updating the Code and a number of additions were made as a direct result of the consultation.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

There are no costs associated with the making of the Code and an RIA is not required at this time.

SL(5)241 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rheoliadau cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch a restrir isod er mwyn cywiro diffygion yn y ddeddfwriaeth bresennol a gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau i'r categorïau statws mewnfudo y mae'n rhaid i fyfyrwyr berthyn iddynt er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth. Ychwanegir dau gategori, sef "personau sydd wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat" a "personau diwladwriaeth".

Y Rheoliadau sy'n cael eu diwygio yw:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Rydym yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig "Cyllid a chymorth ar gyfer myfyrwyr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru" ar 2 Gorffennaf 2018, sy'n nodi:

"Bydd gwladolion yr UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru am y flwyddyn academaidd 2019/20 yn gymwys i dalu'r un ffioedd dysgu â myfyrwyr o Gymru a byddant hefyd yn gymwys i gael benthyciadau a/neu grantiau gan Gyllid Myfyrwyr Cymru – yn amodol ar y meini prawf sydd eisoes yn eu lle o ran cymhwystra.

Mae hyn yn barhad o'r polisi presennol a bydd myfyrwyr yn parhau i dderbyn cymorth nes y byddant yn gorffen eu cwrs. Mae hyn yn berthnasol i holl gyllid myfyrwyr gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru y mae gwladolion yr UE yn gymwys amdano. Mae hyn yn cynnwys grantiau a benthyciadau i dalu am ffioedd dysgu (ar gyfer y rheiny sy'n byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd am dair blynedd), benthyciadau a grantiau cynnal (yn gyfyngedig i'r rhai sy'n byw yn y DU am dair blynedd o leiaf), a rhai grantiau a lwfansau eraill.

Nid yw'r rheolau sy'n berthnasol i wladolion yr UE sydd wedi gwneud cais am le mewn prifysgol ym mlwyddyn academaidd 2018/19 i astudio cwrs sy'n denu cymorth i fyfyrwyr wedi newid. Bydd CMC yn asesu'r ceisiadau hyn yn erbyn y meini prawf presennol, a bydd yn darparu benthyciadau a/neu grantiau yn y ffordd arferol. Bydd gwladolion yr UE, neu aelodau o'u teulu, sy'n cael eu hasesu'n gymwys i gael grantiau a/neu benthyciadau gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedyn yn gymwys drwy gydol eu hastudiaethau ar y cwrs hwnnw."

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

11 Gorffennaf 2018



SL(5)242 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr at Gostau Byw (Cymru) 2018

Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn llywodraethu atebolrwydd dros fenthyciad myfirwyr sydd gan fyfirwyr llawn-amser sy'n cael benthyciadau at gostau byw gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â blwyddyn academiaidd 2018/2019.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o atebolrwydd benthyciwr dros fenthyciad at gostau byw o dan amgylchiadau penodol, gydag effaith o'r diwrnod ar ôl y dyddiad yr ystyrir bod ei ad-daliad cyntaf ar ei fenthyciad wedi ei gael.

Gweithdrefn

Negyddol.

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig "Cyllid a chymorth ar gyfer myfirwyr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru" ar 2 Gorffennaf 2018. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn cynnwys y canlynol:

"Bydd gwladolion yr UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru am y flwyddyn academiaidd 2019/20 yn gymwys i dalu'r un ffioedd dysgu â myfirwyr o Gymru a byddant hefyd yn gymwys i gael benthyciadau a/neu grantiau gan Gyllid Myfirwyr Cymru – yn amodol ar y meini prawf sydd eisoes yn eu lle o ran cymhwysra.

Mae hyn yn barhad o'r polisi presennol a bydd myfirwyr yn parhau i dderbyn cymorth nes y byddant yn gorffen eu cwrs. Mae hyn yn berthnasol i holl gyllid myfirwyr gan Gyllid Myfirwyr Cymru ar gyfer myfirwyr yng Nghymru y mae gwladolion yr UE yn gymwys amdano. Mae hyn yn cynnwys grantiau a benthyciadau i dalu am ffioedd dysgu (ar gyfer y rheiny sy'n byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd am dair blynedd), benthyciadau a grantiau cynnal (yn gyfyngedig i'r rhai sy'n byw yn y DU am dair blynedd o leiaf), a rhai grantiau a lwfansau eraill.

Nid yw'r rheolau sy'n berthnasol i wladolion yr UE sydd wedi gwneud cais am le mewn prifysgol ym mlwyddyn academiaidd 2018/19 i astudio cwrs sy'n denu cymorth i fyfirwyr wedi newid. Bydd CMC yn



asesu'r ceisiadau hyn yn erbyn y meini prawf presennol, a bydd yn darparu benthyciadau a/neu grantiau yn y ffordd arferol. Bydd gwladolion yr UE, neu aelodau o'u teulu, sy'n cael eu hasesu'n gymwys i gael grantiau a/neu fenthyciadau gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr wedyn yn gymwys drwy gydol eu hastudiaethau ar y cwrs hwnnw."

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

11 Gorffennaf 2018



SL(5)251 – Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018

Cefndir a Phwrpas

Mae Awdurdod Iechyd Arbennig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ("AaGIC"), wedi cael ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd prif swyddogaethau AaGIC yn ymwneud â chynllunio, comisiynu a chyflenwi addysg a hyfforddiant ar gyfer personau sy'n gyflogedig, neu sy'n ystyried dod yn gyflogedig, mewn gweithgaredd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cychwyn ar 1 Hydref 2018. Mae nifer o'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Wasanaeth y Gweithlu, Addysg a Datblygu yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff (erthygl 3) ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau (erthygl 4) o Ymddiriedolaeth GIG Felindre i AaGIC.

Mae erthygl 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhad pethau a wneir gan neu mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Gweithdrefn

Negyddol

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Medi 2018**



Eitem 6.1

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) 2018

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw un o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Gosodwyd Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) 2018 gerbron Senedd y DU ar 23 Awst 2018. Gellir cael copi o'r Rheoliadau yn:

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/942/contents/made>

Crynodeb o'r Rheoliadau a'u hamcan

3. Amcan y Rheoliadau, ar y cyfan, yw cywiro hen gyfeiriadau at gyfraith Ewropeaidd mewn deddfwriaeth ddomestig sylfaenol ac eilaidd. Er enghraifft, pan fydd Cyfarwyddbau a Rheoliadau Ewropeaidd wedi'u diwygio neu eu disodli, ond y cyfeiriadau diweddaraf atynt heb eu trosglwyddo i ddeddfwriaeth ddomestig.
4. Mae'r diwygiadau'n ymwneud ag ystod eang o ddeddfwriaeth ym meysydd amaeth, iechyd anifeiliaid, gwybodaeth a diogelwch amgylcheddol, bwyd, coedwigaeth, rheoli morol, plaleiddiaid, hawliau bridwyr planhigion, pysgodfeydd morol, gwirodydd, gwastraff a dŵr.
5. Gwneir y diwygiadau er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gywir cyn i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn oherwydd nad yw hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn cael eu dehongli, o reidrwydd, fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir (sydd wedi'i diweddarau); a bod risg felly na fyddai'r llyfr statud yn gweithio'n iawn o'r herwydd.
6. Mae'r Offeryn Statudol y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymdrin ag ef yn cwmpasu tiriogaeth y DU; ond mae cwmpas yr hyn y mae pob darpariaeth yn gymwys iddo yn amrywio.
7. Mae'r Offeryn Statudol y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymdrin ag ef wedi'i osod yn Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol, sy'n golygu y bydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai y ceir gwrthwynebiad gan aelod o'r naill neu'r llall o Dai'r Senedd. Os na fydd gwrthwynebiad o'r fath, bydd y darpariaethau sy'n diwygio'r is-ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Memorandwm hwn yn dod i rym ar 17 Medi 2018.

Y darpariaethau i'w gwneud gan y Rheoliadau, y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

8. Mae Rheoliadau 3, 6 a 29 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Atal a Rheoli Gwastraff 1999, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991, yn y drefn honno. Diwygiadau bychain a thechnegol yw pob un o'r rhai y cyfeirir atynt; ac maent yn cywiro hen gyfeiriadau at deddfwriaeth yr UE.
9. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 9 uchod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus; cefn gwlad a lleoedd agored; diogelu cynefinoedd naturiol; amgylchedd yr arfordir a'r môr; a rheoli adnoddau dŵr; nad oes yr un ohonynt wedi'u rhestru'n faterion penodol sydd wedi'u cadw yn ôl o dan Ran 2 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Pam y mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon

10. Fel y nodir o dan baragraff 3, mae angen gwneud nifer o ddiwygiadau i gywiro hen gyfeiriadau at gyfraith Ewropeaidd mewn deddfwriaeth ddomestig, cyn i'r UE ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn y meysydd hyn yn parhau i weithio.
11. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ac yn gymesur ymdrin â'r diwygiadau hyn yn y Rheoliadau hyn oherwydd cwmpas tiriogaethol y deddfiadau sy'n cael eu diwygio. Gallai gwneud y diwygiadau technegol hyn ar wahân arwain nid yn unig at gymhlethdodau drafftio, ond gallai olygu hefyd na fyddai'r gyfraith yn gweithio'n effeithiol.

Goblygiadau ariannol

12. Ni ragwelir y bydd goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Medi 2018



Ein cyf: MA-L/LG/0497/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddMCD@cynulliad.cymru

29 Awst 2018

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") mewn perthynas â Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) 2018 ("y Rheoliadau") a gafodd eu gwneud gan Dr Therese Coffey AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, ar 23 Awst. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991, sydd oll yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru. Dymunaf roi gwybod ichi, er fy mod wedi gosod y memorandwm, nad wyf yn bwriadu gosod cynnig cydsyniad offeryn statudol.

Diben y Rheoliadau, ar y cyfan, yw gwneud diwygiadau technegol i gywiro hen gyfeiriadau at gyfraith Ewropeaidd mewn deddfwriaeth ddomestig sylfaenol ac eilaidd. Er enghraifft, pan fydd Cyfarwyddbau a Rheoliadau Ewropeaidd wedi'u diwygio neu eu disodli, ond y cyfeiriadau diweddaraf atynt heb eu trosglwyddo i ddeddfwriaeth ddomestig. Gwneir y diwygiadau er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gywir cyn i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn oherwydd nad yw hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn cael eu dehongli, o reidrwydd, fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir (sydd wedi'u diweddarau); a bod risg felly na fyddai'r llyfr statud yn gweithio'n iawn o'r herwydd.

Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu tiriogaeth y DU; ond mae cwmpas yr hyn y mae pob darpariaeth yn gymwys iddo yn amrywio. Mae'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau yn ymdrin ag ystod eang o ddeddfwriaeth ym meysydd amaeth, iechyd anifeiliaid, gwybodaeth a diogelwch amgylcheddol, bwyd, coedwigaeth, rheoli morol, pleiddiaid, hawliau bridwyr planhigion, pysgodfeydd morol, gwirodydd, gwastraff a dŵr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi gosod y memorandwm yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog (RhS) 30A. Rwy'n ystyried bod y Rheoliadau'n offeryn statudol perthnasol gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad – darpariaeth nad yw'n un gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, dros dro, atodol nac arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn Senedd y DU, felly cawsant eu gwneud cyn cael eu gosod; a chyn belled na fydd unrhyw Aelod Seneddol yn cynnig eu gwrthwynebu, bydd rhannau ohonynt, gan gynnwys y darpariaethau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir ati isod, yn dod i rym ar 17 Medi. Mater i chi, wrth gwrs, yw penderfynu a ydych chi, y pwyllgor cyfrifol y cyfeirir ato o dan RhS 30A, yn dymuno ystyried y memorandwm ac adrodd yn ei gylch.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus a ddylwn fynd ati i gyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol o dan RhS 30A, i gynnal dadl arno ar ôl i'r 35 diwrnod a ganiateir ar gyfer craffu gan y pwyllgor sy'n gyfrifol ddod i ben. Wrth gwrs, nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru wneud hynny. Fodd bynnag, byddem fel arfer yn cyflwyno cynnig fel bod modd i'r Cynulliad roi ei gydsyniad, neu beidio, cyn i'r offeryn statudol perthnasol gael ei wneud.

Yn yr achos hwn, gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud yn barod, rwyf wedi penderfynu na fyddaf yn mynd ati i osod cynnig o'r fath. Nid wyf yn credu bod rhinwedd mewn cynnal dadl yn y Cynulliad ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i ddarpariaethau mewn Rheoliadau sydd wedi'u gwneud yn barod, pan fo'r darpariaethau hynny'n rhai technegol ac annadleuol, ac nad oes newid sylweddol i bolisi sy'n bodoli'n barod. At hynny, bydd y rhan o'r Rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol wedi dod i rym yn barod cyn y 35 diwrnod a ganiateir o dan RhS 30A ar gyfer craffu. Mae hawl o hyd, wrth gwrs, gan unrhyw Aelod Cynulliad, os bydd yn teimlo'n gryf y dylid cynnal dadl ar y memorandwm, i osod cynnig i gynnal dadl ar hyn yn y Cyfarfod Llawn.



Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cif: MA - L/HID/0359/18

Elin Jones, AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Gorffennaf 2018

Annwyl Elin

Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Yn ystod mis Mawrth, ac yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, anfonodd Prif Weinidog Cymru'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) atoch i'w ystyried er mwyn ichi fedru penderfynu a yw o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ai peidio.

Ar yr adeg cyflwyno'r Bil ar 16 Ebrill 2018, roedd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi rhoi ei chydysyniad i'r ddarpariaeth yn adran 8 o'r Bil yn ymwneud â diwygio adran 18 o'r Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 ac i'r darpariaethau perthnasol yn ymwneud â rhannu data a throsglwyddo data ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd yr Ysgrifennydd Cartref na'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau wedi cysylltu i roi eu cydsyniad nhw ar gyfer y darpariaethau perthnasol yn adrannau 4 a 5 o'r Bil.

Mae'n dda gennyf roi gwybod i chi bod y cydsyniadau hyn bellach wedi dod i law ac amgaeaf, er gwybodaeth, gopi o llythyr cadarnhad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn a'r dogfennau atodedig at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid hefyd.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AC

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

OFFICIAL



HM Treasury, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ

Professor Mark Drakeford AM,
Cabinet Secretary for Finance,
5th floor
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

14 March 2018

Dear Mark,

WELSH 30 HOURS FREE EARLY EDUCATION AND CHILDCARE OFFER

1. I wrote to the then Cabinet Secretary for Communities and Children on 26 July 2017, regarding the Welsh Government's (WG) 30 hours free early education and childcare (30 hours) offer. I agreed that HMRC could continue to explore options with Welsh Officials to integrate the offer into the existing childcare service, and for HMRC to conduct parent eligibility checks on WG's behalf.
2. I am pleased that these conversations have progressed and that WG have agreed to align key parent eligibility criteria with the existing English 30 hours offer. I am therefore happy for the Welsh offer to be integrated into the childcare service before national rollout is complete in September 2020.
3. I understand HMRC will act as an agent of WG in conducting these checks, and carrying out ancillary tasks, as allowed for under the Commissioners for Revenue and Customs Act 2005 and the Government of Wales Act 2006. The relationship between WG and HMRC will be defined in a Memorandum of Understanding (MoU).
4. I am content for WG to amend section 18 of the Commissioner for Revenue and Customs Act 2005 through a clause in the Childcare (Funding) Wales Bill. When passed this will make provision for the data gateways necessary to allow HMRC data to be used in conducting eligibility checks. Gateways will be created

OFFICIAL

Tudalen ¹y pecyn 163



through Welsh regulations subject to Treasury consent. Those regulations will cover the onward transmission of this information by WG for the purposes of the Welsh childcare scheme.

5. The present agreement to integrate the Welsh offer into the service is based on the current plans from WG. I must make clear that any changes to the operation of the 30 hours childcare scheme or eligibility criteria would generate further costs and will affect the timelines for delivery. These changes would also necessitate separate agreements and would need to be covered by a new MoU.
6. WG will be responsible for funding all costs associated with the delivery and on-going support for the Welsh 30 hours offer. HMRC have provided high-level estimates of these costs, however, these are subject to change once delivery begins.
7. Whilst HMRC are keen to begin work as soon as possible, I must stress that the department's immediate focus will continue to be stabilising and improving the childcare service for existing customers. HMRC officials have also discussed service performance levels with WG and these will be agreed as part of the MoU.
8. I look forward to HMRC supporting WG in the delivery of your 30 hours offer and trust that this letter provides the assurance you need for your Childcare (Funding) Wales Bill to begin passage through the Assembly on 16 April. I am copying this letter to the Secretary of State for Wales.

Best wishes,

RT HON ELIZABETH TRUSS MP



UK Government
Llywodraeth y DU

Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

T: 020 7270 0575

E: Correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk

Huw Irranca-Davies AC/AM
Minister for Children and Social Care
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

27 June 2018

Ref: 263 Sub 18

Dear Huw,

Childcare Funding (Wales) Bill

You wrote to me on 22 December 2017 regarding the Childcare Funding (Wales) Bill and your request for Secretary of State consent for the data sharing for the purposes of operating and administering the application and eligibility checking system required to facilitate the delivery of the offer across Wales.

I have sought the views of the affected Secretaries of State who have confirmed they are content for me to provide consent for these provisions.

Alun

Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

11 Gorffennaf 2018

Annwyl Julie

Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - rheoliadau a wneir o dan Atodlen 4

Yn dilyn eich presenoldeb yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin 2018, hoffwn ddychwelyd i drafod mater a godwyd yn y cyfarfod ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau o dan Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf).

Credwn fod diffyg eglurder yn y Ddeddf o ran y broses sifftio a rheoliadau a wneir o dan Atodlen 4 i'r Ddeddf. Er ei bod yn amlwg nad yw'r broses yn gymwys i reoliadau Atodlen 4 a wneir gan Weinidogion y DU, mae'r Ddeddf yn llai clir a yw'r broses sifftio'n gymwys i reoliadau Atodlen 4 a wneir gan Weinidogion Cymru.

Yn gryno, mae'r dryswch yn deillio o baragraff 12(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, sy'n cymhwyso (ymhlith pethau eraill), baragraffau 1(8), 1(9) ac 1(10) o Atodlen 7 i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 4. Rydym yn derbyn bod angen i baragraffau 1(8) ac 1(9) fod yn gymwys i reoliadau o'r fath, ond cymhwyso paragraff 1(10) sy'n achosi'r dryswch.

Nid ydym yn credu y bwriedir i'r broses sifftio fod yn gymwys i reoliadau penderfyniadau negyddol a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 4 (a chredwn fod Llywodraeth y DU o'r un farn).

Byddem yn ddiolchgar am gael eich barn a fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rheoliadau penderfyniadau negyddol o dan Atodlen 4 heb ddilyn y broses sifftio.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.



Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/JJ/0429/18

Mr M. Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol CymruMick.Antoniw@cynulliad.cymru

20 Gorffennaf 2018

Annwyl Mick,

Ysgrifennais atoch ym mis Ionawr a mis Mawrth ynghylch defnyddio pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n rhan o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU ("y Ddeddf"). Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i argymhelliad 4 yn adroddiad eich Pwyllgor – "*Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol*" – a gyhoeddwyd ar 10 Gorffennaf.

Hefyd, ysgrifennais atoch ym mis Mehefin gan ddweud yn y llythyr hwnnw fod Llywodraeth Cymru yn fodlon caniatáu i Weinidogion y DU wneud rheoliadau cywiro technegol nad ydynt yn ddadleuol mewn meysydd sydd wedi eu datganoli o dan y Ddeddf, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, a hynny oherwydd yr amgylchiadau hynod anarferol sy'n bodoli gan fod y DU yn ymadael â'r UE.

Ar y sail hon, mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n hynod o galed i ddatblygu cynlluniau cyflawni. Maent yn hyderus eu bod wedi nodi'r holl offerynnau domestig sydd wedi deillio o'r UE ac sy'n cynnwys meysydd sydd wedi eu datganoli i Gymru, er mwyn eu cywiro i sicrhau eu bod yn weithredol ar ôl Brexit. Bellach rwy'n credu bod ganddynt syniad clir o'r hyn y mae angen ei gywiro.

Yn fy llythyr ym mis Mehefin, dywedais hefyd fod oddeutu 400 o offerynnau domestig sy'n deillio o'r UE sy'n cynnwys diffygion sy'n debygol o fod angen sylw. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth ddomestig y mae angen ei chywiro, p'un a yw wedi ei gwneud yng Nghymru ai peidio. Er mwyn cywiro'r diffygion yn yr offerynnau hyn, bydd angen i Weinidogion Cymru wneud oddeutu 50 o offerynnau statudol.

Mae'n bwysig nodi ei bod bron yn sicr y bydd amrywiad yn y ffigur a roddwyd ar gyfer offerynnau statudol sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, er ei bod yn annhebygol y bydd nifer yr offerynnau domestig sy'n deillio o'r UE y mae angen rhoi sylw iddynt yn newid yn sylweddol. Mae swyddogion yn parhau â'u gwaith i roi offerynnau statudol mewn grwpiau, ond mae'n anodd rhoi disgrifiad clir o'r gwaith hwn gan y bydd yn cael ei lywio gan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NACanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Nghymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 168
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bolisiâu a phenderfyniadau drafftio a fydd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU a'n hymateb ninnau.

Mae diwygiadau i Atodlen 2 o'r Ddeddf, a wnaed ym mis Mai, hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gywiro diffygion yn offerynnau'r UE sy'n berthnasol yn uniongyrchol, mewn achosion penodol. Mae swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU i nodi'r ffordd orau o wneud newidiadau i'r offerynnau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith wedi ei ddatblygu digon i ganiatáu imi ddarparu nifer ar gyfer yr offerynnau statudol a allai gael eu cynhyrchu yn y maes hwn.

Mae swyddogion yn parhau i weithio ar y ffordd orau o gyflwyno cywiriadau ac o nodi pryd y bydd angen iddynt osod yr offerynnau statudol cywiro yn eu meysydd a'u blaenoriaethu. Rydym yn bwriadu dechrau gosod yr offerynnau statudol cywiro yn yr hydref.

Byddai Ysgrifennydd y Cabinet a finnau'n fodlon cyfarfod â chi yn anffurfiol.

Yn gywir,



Julie James AC/AM

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Awst 2018

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch adroddiad diweddar eich Pwyllgor sy'n ymdrin â materion gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"), ac yn benodol argymhelliad 2, sy'n dweud:

Rydym yn argymhell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i ni, sef y pwyllgor sydd â'r swyddogaeth o sifftio rheoliadau o dan Ddeddf 2018, gyhoeddi'r meini prawf y byddwn yn eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio.

Cafodd y meini prawf, a ddylai gael eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio, eu nodi a'u hargymhell gennych gyntaf yn eich adroddiad fis Chwefror 2018, ac rydych wedi ailadrodd y meini prawf hyn wedyn ar dudalen 20 yn eich adroddiad diweddaraf, a hynny mewn perthynas â'r argymhelliad uchod.

Ers i'ch Pwyllgor ddatblygu ei gynigion gyntaf ar gyfer y meini prawf sifftio, mae Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau yn argymhell meini prawf a ddylai gael eu cymhwyso gan bwyllgor sifftio pob Tŷ.

Nododd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, yn ei adroddiad¹ a gyhoeddwyd ar 9 Gorffennaf:

"...a number of factors which the new committee may want to consider when deciding whether the instrument ought to be subject to the affirmative procedure. The main ones are:

¹ (<https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmproced/201719-1395/1395/18102.pdf>):

- *Legal importance: does the instrument amend existing law or make new law in a way which is significant? Would it normally fall within the “Brooke criteria”, which since the 1970s have been a general guide as to whether an instrument ought to engage the affirmative procedure?*
- *Political importance: is the Government proposing a legislative change which involves a substantive change in policy?*
- *Overall significance: is a proposed legislative change, taken together with other proposals, significant enough to merit the affirmative procedure?”*

Yn ei adroddiad² yntau wedyn, a gyhoeddwyd ar 20 Gorffennaf, daeth Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi i'r casgliad canlynol:

“...we propose, at this stage, to adopt a case by case approach:

- *We shall consider each proposed negative instrument on its merits, taking into account the Minister’s reasons for his or her opinion that the negative procedure should apply.*
- *We shall apply the overarching test: “is the subject matter of this instrument and the scope of any policy change effected by it of such significance that the House would expect to debate it?”*
- *In assessing whether the test is met, the Committee will take into account certain features of an instrument (such as those listed in paragraph 5 [of the report] above), although we stress that this is not a definitive list.*
- *The Committee will also apply a presumption of the affirmative procedure where a proposed negative instrument contains significant amendments to primary legislation or retained direct principal EU legislation, rebuttable by a full and convincing explanation for the negative procedure.”*

Rwy'n nodi bod y ddau bwyllgor Seneddol hyn yn cynnig canolbwyntio ar sylwedd mater y testun o fewn pob Offeryn Statudol, yn enwedig o ran i ba raddau y gallai olygu newidiadau mwy cynhwysfawr i bolisi presennol y llywodraeth, ond bod y meini prawf a gynigir gan eich Pwyllgor chi yn canolbwyntio ar eglurder a thryloywder y memoranda esboniadol sy'n cydfynd â'r offerynnau.

Er ei bod yn hanfodol sicrhau eglurder o ran yr hyn a gynigir er mwyn i'r Pwyllgor allu gwneud ei waith sifftio, rwy'n cytuno â'r dadleuon a gyflwynwyd gan Bwyllgorau'r Cynulliad, yng nghyd-destun Brexit, y dylai gwahanol ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig weithredu mewn cytgord ar y materion hyn.

Byddwn felly'n awgrymu y gallai eich Pwyllgor ystyried edrych eto ar y meini prawf y mae'n eu cynnig yng ngoleuni adroddiadau pwyllgorau seneddol y DU, ac yn wir unrhyw gynigion perthnasol a wneir gan Senedd yr Alban.

Hoffwn hefyd roi ymateb cychwynnol i'r dull gweithredu a gynigir mewn perthynas â Rheolau Sefydlog.

Yn eich adroddiad fis Chwefror, roeddech yn argymhell y dylid nodi'r meini prawf sifftio yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, yn eich adroddiad fis Gorffennaf, fel y nodir uchod, rydych yn awgrymu na ddylai'r Rheolau Sefydlog ond yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor perthnasol gyhoeddi'r meini prawf sifftio a fydd yn cael eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio. Wrth gyflwyno'r newid hwn, mae'r adroddiad yn cyfeirio at ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a gafodd ei gyhoeddi gennych ym mis Chwefror, a oedd yn dweud nad oedd y llywodraeth wedi ei darbwylo y dylid cynnwys y meini prawf mewn Rheolau Sefydlog. Y rheswm am hynny

² (<https://publications.parliament.uk/pa/ld2017/ldselect/ldscysys/201719-174/174/18102.pdf>):

oedd bod y llywodraeth o'r farn y byddai angen i'r meini prawf fod yn gyson â'r fframwaith terfynol ar gyfer y mecanwaith sifftio, nad oedd yn hysbys ar y pryd. Bellach mae eglurder ynghylch yr hyn y mae Deddf 2018 yn darparu ar ei gyfer, gan gynnwys rhai rheoliadau unioni y mae'n rhaid eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol a'r broses sifftio ar gyfer y rheoliadau hynny y cynigir eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn negyddol.

Felly, mae'r llywodraeth bellach o'r farn bod yr argymhelliad yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan eich Pwyllgor ym mis Chwefror yn gwneud synnwyr, ac y dylid nodi'r meini prawf, sydd i'w cymhwyso gan y pwyllgor sifftio, yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Byddai hyn yn gyson â Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, sy'n gosod y seiliau y gallai'r pwyllgor sydd â'r cyfrifoldeb eu defnyddio i adrodd arnynt wrth iddo ystyried pob offeryn statudol ac offeryn statudol drafft sy'n cael ei osod gerbron y Cynulliad.

Wrth gwrs, bydd y Pwyllgor Busnes a'r Cynulliad ei hun yn dychwelyd at y mater hwn pan fydd y Cynulliad yn ailymgynnull ym mis Medi, a bydd yn ystyried y newidiadau arfaethedig i'w Reolau Sefydlog i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer craffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018.

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith ar y mater hwn. Bydd y llywodraeth yn darparu ymateb ffurfiol i'r argymhellion a wneir yn adroddiad eich pwyllgor maes o law.

Yn gywir,



Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Alun Davies AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus

11 Gorffennaf 2018

Annwyl Alun

Canllawiau Dwyochrog ar Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 18

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddoe, trafododd yr aelodau eich datganiad ysgrifenedig dyddiedig 2 Gorffennaf 2018 ynghylch Concordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n nodi'r trefniadau gweithio rhwng y ddau sefydliad.

Er eu bod yn croesawu'r Concordat, nododd yr aelodau fod paragraff 20 o'r Concordat, sy'n ymwneud â datblygu cynigion deddfwriaethol, yn cyfeirio at Ganllawiau Dwyochrog Llywodraeth Cymru o ran Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 18.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 18 ac, fel y cyfryw, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi rhagor o fanylion am y Canllawiau Dwyochrog.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Alun Davies Y Comisiwn Archwilio AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/ARD/2675/18

Mick Antoni
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

14 Awst 2018

Annwyl Mick

Canllawiau Cyfatebol ar Ddatganoli - Nodyn Cyfarwyddyd 18

Diolch ichi am eich llythyr 11 Gorffennaf yn gofyn ynghylch y Canllawiau Cyfatebol y cyfeirir atynt ym mharagraff 20 o'r Concordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Bwriedir diwygio Canllawiau Cyfatebol Llywodraeth Cymru er mwyn cymryd i ystyriaeth y model cadw pwerau ar gyfer datganoli a sefydlwyd o dan Ddeddf Cymru 2017 yn yr un ffordd ag y mae Nodyn Cyfarwyddyd newydd Llywodraeth y DU ar Ddatganoli wedi cael ei ddiweddarau. Bydd yn darparu cyngor a chanllawiau i swyddogion Llywodraeth Cymru yn yr un ffordd ag y mae Nodyn Canllawiau Cyfatebol Llywodraeth y DU ar Ddatganoli'n ei wneud ar gyfer swyddogion y DU.

Bydd y canllawiau'n parhau i ganolbwyntio ar ymdrin â deddfwriaeth mewn ffordd effeithlon ac effeithiol a sut y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU'n cydweithio lle bo gan y ddwy ohonom fuddiant. Bydd yr un egwyddorion o ymgynghori'n gynnar ar gynigion deddfwriaethol a allai effeithio ar gyfrifoldebau ymarferol neu gyfrifoldebau polisi ei gilydd yn parhau i fod yn berthnasol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y canllawiau diwygiedig.

Rydym yn disgwyl i'r Canllawiau Cyfatebol barhau i gwmpasu biliau'r Cynulliad a Biliau Seneddol a'r ffyrdd o addasu cymhwysedd y Cynulliad a phwerau Gweinidogion Cymru.

Fel o'r blaen, dylid eu darllen ar y cyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eir ati yn ystod toriad yr haf i ddrafftio'r canllawiau diwygiedig a dylai fersiwn derfynol fod ar gael yn nhymor newydd y Cynulliad. Gellir rhoi copi o'r Canllawiau Cyfatebol terfynol i'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir



Alun Davies AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services

Mick Antoniw AM
Chair, Constitutional and Legislative Affairs
Committee

20 July 2018


Dear Mick,

EU law in Wales: What happens during the Brexit transition?

Please find attached correspondence that the External Affairs and Additional Legislation Committee has sent to the Cabinet Secretary for Finance.

It might be of interest to you and the Constitutional and Legislative Affairs Committee in the context of your work on inter-institutional relations.

Yours sincerely,



David Rees AM,

Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-(P)-/KW/2501/18

Lynne Neagle AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPPIA@cynulliad.cymru

cc Simon Thomas AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

cc Mick Antoniw AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
SeneddFinance@assembly.wales
SeneddCLA@assembly.wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2018

Fel y cofiwch, yn ystod gwaith craffu eich pwyllgorau ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gwnaed ymrwymiad i roi gwybodaeth reolaidd ar y rhaglen i drawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dyma'r pedwerydd llythyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol

Ers inni roi gwybodaeth ichi ddiwethaf ym mis Ebrill 2018, mae fy swyddogion wedi parhau i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth ddrafft a'r fersiwn nesaf o'r Cod ADY a gaiff ei gyhoeddi i ymgynghori arno yn nes ymlaen eleni.

I helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r Cod ADY, rydym wedi comisiynu dau ymgynghorydd a weithiodd ar ddatblygu Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn Lloegr a'r Cod Ymarfer cysylltiedig ar Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd. Ar 13 ac 14 Mehefin, cynhaliwyd dau weithdy gyda grŵp o randdeiliaid allanol a gymerodd ran mewn trafodaeth i ddatrys problemau ynghylch dau fater:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- y ffin rhwng cyfrifoldeb awdurdodau lleol a chyfrifoldeb ysgolion o ran Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)
- ystyriaethau i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach o ran CDUau i ddysgwyr ôl-16.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid hefyd drwy'r grwpiau arbenigol ADY amrywiol er mwyn datblygu a mireinio ein syniadau ynghylch agweddau penodol ar y Cod ADY drafft, ee rôl y Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar, a thempled y CDU.

2. Cymorth gweithredu / pontio

2.1. Arweinwyr trawsnewid y system ADY

Ers ymgymryd â'u swydd, mae arweinwyr trawsnewid y system ADY wedi bod yn meithrin cydberthnasau o fewn eu rhanbarthau eu hunain a ledled Cymru. Maent wedi helpu pob awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach yng Nghymru i lenwi eu hunanasesiadau parodrydd cyntaf. Mae canlyniadau y rheini yn cael eu defnyddio, bellach, i ddatblygu cynlluniau gweithredu. Rhagwelir y caiff y cynlluniau gweithredu rhanbarthol ac o ran addysg bellach eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018.

2.2. Grantiau Arloesi ADY a Grwpiau Arbenigol

Ym mis Mawrth 2018, daeth y grant arloesi ADY o ddwy flynedd i ben. Grant a roddwyd ar gyfer y cyfnod cyn y ddeddfwriaeth oedd hwn. Ar 19 Mehefin, er mwyn dathlu gwaith y prosiectau a gyllidwyd gan y grant, cynhaliwyd Diwrnod Dysgu am Gronfa Arloesi ADY. Pwrpas y diwrnod oedd rhoi cyfle i arweinwyr y prosiectau rannu'r hyn a ddysgwyd ag ymarferwyr eraill ledled Cymru, gan gynnwys arferion gwaith effeithiol o fewn eu hardal. Mae'r diwrnod hefyd wedi helpu i lywio'r camau nesaf ar gyfer pob un o'r grwpiau arbenigol a'r ffrydiau gwaith posibl yn y dyfodol. Mae'r adborth a ddaeth i law y diwrnod hwnnw wedi bod yn eithriadol gadarnhaol ac mae Cronfa Arloesi ADY wedi helpu awdurdodau lleol i gydweithio a darparu prosiectau amlasiantaethol i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf').

2.3. Canllawiau ar weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddais y cyntaf mewn cyfres o ganllawiau sy'n esbonio sut y caiff y Ddeddf ei gweithredu. Mae'n canolbwyntio ar weithredu CDUau ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac yn iau. Mae'r canllaw yn amlinellu'r amserlen orfodol raddol arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion i drosglwyddo plant sydd â chynlluniau anghenion addysgol arbennig - ee datganiadau a chynlluniau addysg unigol - i'r system ADY newydd. Mae'r canllaw llawn ar gael [yma](#).

Rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau pellach a fydd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gweithredu agweddau penodol ar y system ADY, ee addysg bellach, gan gynnwys addysg ôl-16 arbenigol.

3. Datblygu'r gweithlu

Ym mis Mehefin, ar sail y ceisiadau a ddaeth i law, dyrannwyd cyfanswm o £262,689 i bedair ardal yn ystod blynnyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 i gefnogi hyfforddiant ôl-radd i arbenigwyr ac athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â dysgwyr â nam ar eu clyw a nam ar fwy nag un synnwyr. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio hefyd i hwyluso

hyfforddiant mewn Braille a Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer staff arbenigol awdurdodau lleol.

Mae £26,329 yn fwy wedi'i ddyrannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 i hwyluso hyfforddiant ôl-radd i arbenigwyr ac athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â dysgwyr â nam ar eu golwg.

Er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o Seicolegwyr Addysgol, rydym yn cyllido rhaglen hyfforddiant proffesiynol Doethuriaeth Prifysgol Caerdydd mewn Seicoleg Addysgol. Mae'r trafodaethau gyda'r Brifysgol am y trefniadau o 2019-20 yn parhau.

Mae Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr yn y maes wedi datblygu fframwaith drafft sy'n amlinellu sgiliau Cydlynwyr ADY a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Bydd y fframwaith drafft yn helpu i lywio penderfyniadau cyllid mewn perthynas â'r rhaglen i ddatblygu sgiliau gweithlu'r Cydlynwyr, fel rhan o'r rhaglen werth £20m i drawsnewid y system ADY. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ein polisi ehangach ar Gydlynwyr ADY, gan gynnwys y gofynion rheoliadol arfaethedig a gaiff eu cyflwyno o dan y Ddeddf.


4. Codi ymwybyddiaeth

4.1. Deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithredu ADY

Mae'r deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithredu ADY, sy'n cael eu datblygu gan Eliesha Cymru, wedi'u rhannu'n bedair lefel, a phob lefel yn targedu gwahanol ymarferwyr. Mae lefel un y rhaglen hyfforddiant ar-lein yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lefel hon yn targedu pob gweithiwr proffesiynol sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY a bydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Eitem 7.8

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/KD/LPR

18 Gorffennaf 2018

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf atoch ynghylch ein cynlluniau ar gyfer y ddwy fenter Senedd@... nesaf:

- Senedd@Aberystwyth - wythnos yn dechrau ar 3 Rhagfyr 2018;
- Senedd@Caerffili - wythnos yn dechrau ar 25 Mawrth 2019.

Rydym yn y broses o ddylunio ein rhaglen o ddigwyddiadau a gaiff ei hategu gan sesiynau allgymorth ac addysg gydag ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, busnesau ac elusennau yn yr ardal.

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, mae pwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol a sesiynau ymgysylltu anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol i annog pobl i gymryd rhan yn eu gwaith. Mae Senedd@Aberystwyth a Senedd@Caerffili yn gyfle i godi proffil eich Pwyllgor, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a dinasyddion lleol. Felly buasem yn ddiolchgar pe baech yn ystyried a hoffai eich pwyllgor gymryd rhan yn un neu'r ddau Senedd@ a rhoi gwybod inni beth rydych yn bwriadu ei wneud drwy gysylltu â Kevin Davies (kevin.davies2@assembly.wales).

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

Tudalen y pecyn 183



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Tystiolaeth Atodol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

DYDDIAD 31 Awst 2018

GAN Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog

Rwy'n falch o roi gwybod i'r Aelodau fod pump o'r papurau tystiolaeth atodol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ar gael ar wefan y Comisiwn erbyn hyn. Mae'r papurau'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Addysg a Chyflogaeth
- Cyfiawnder Teuluol
- Y Gyfraith a'r Cyfansoddiad
- Rôl Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Proffesiwn Cyfreithiol yng Nghymru
- Dioddefwyr, Troseddwyr a Chymunedau

<https://beta.llyw.cymru/tystiolaeth-atodol-ir-comisiwn-ar-gyfiawnder-gan-llywodraeth-cymru>

ADVICE PAPER

August 2018 | NO: 18-15

SCOTTISH PARLIAMENT FINANCE AND CONSTITUTION COMMITTEE: COMMON UK FRAMEWORKS

Summary

- *Since before the referendum, the Royal Society of Edinburgh (RSE) has been engaged in the debate on the UK's membership of the EU. After the referendum the RSE launched an EU Strategy Group, Chaired by Sir John Elvidge. This group oversees the work of four subgroups on Constitutional Law and Government, Economics and Public Finance, Research and Innovation, and Migration and Rights. Each of these groups has published position papers and other responses which are referenced in the response.*
- *The RSE understands the need to develop common frameworks across the UK post-Brexit in order to harmonise UK policy and maintain the internal market. This response does not seek to define the UK internal market but recommends a way forward in which common frameworks can be developed, agreed and established.*
- *Currently there is no clear institutional body or arrangement which could effectively facilitate the development and oversight of common frameworks. Therefore the Society agrees with the suggestion from the House of Commons Public Administration and Constitutional Affairs Committee (PACAC) that an Independent Secretariat body should be created to handle the development and oversight of common frameworks.*
